# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 23 TACHWEDD, 2022 am 2.00 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY, 23 NOVEMBER, 2022 at 2.00 p.m.** |
| **CYFARFOD HYBRID – YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL** | **HYBRID MEETING – VIRTUAL, AND IN COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, Trefor Ll Hughes MBE, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Sedd Wag/Vacant Seat (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

## R H A G L E N

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2022.

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN: 2021/22** (Tudalennau 9 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU (RHAN 9): 2021/22** (Tudalennau 35 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**6 BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 67 - 130)

- **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: 2021/22**

  Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

- **Adroddiadau Cynnydd Ch1 : 2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

  Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 131 - 138)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff Evans, John I Jones, Pip O'Neill a Derek Owen, Margaret M Roberts.<br><br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Carwyn Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth); Y Cynghorydd Gary Pritchard (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Plant – Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Ieuenctid); Y Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol); Nicola Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd); Dafydd R Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo); Ieuan Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg); Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer). |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Rheolwr Adfywio (DL) (eitem 5 yn unig),<br>Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) (eitem 6 yn unig),<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Euryn Morris.<br>Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor).<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms Carol Dove a Mr Jon Zalot (Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru) (eitem 6 yn unig).<br><br>Mr Rhys Davies a Mrs Gill Murgatroyd (Pwyllgor Safonau) (sylwedyddion). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2022 yn gywir.

## 4 CYNLLUN GWEITHREDU YN DILYN AROLYGIAD O'R AWDURDOD ADDYSG GAN ESTYN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg fod Awdurdod Addysg Ynys Môn wedi cael ei arolygu gan Estyn ym mis Mehefin eleni a chyhoeddwyd yr adroddiad ar 22 Gorffennaf 2022. Roedd yr arolygiad yn edrych ar ddeilliannau, dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth a rheolaeth ac roedd yn nodi llwyddiannau ac unrhyw feysydd i'w gwella. Dywedodd fod yr adroddiad yn un cadarnhaol iawn ac roedd yn nodi fod ansawdd gadarn ac effeithiolrwydd arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu yn yr Awdurdod yn cyfrannu'n effeithiol tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o ansawdd uchel. Nodwyd fod ethos a meddylfryd 'Tîm Môn' wedi cael ei ddatblygu lle mae cydweithrediad a chyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi, ei feithrin a'i ddefnyddio er budd plant a phobl ifanc yr ynys. Nodwyd dau faes o arfer dda ac mae'r Gwasanaeth Dysgu'n paratoi astudiaethau achos ar y gwaith cydlynus hwn, ynghyd â dau faes sydd angen eu gwella fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod adroddiad Estyn ar Wasanaeth Dysgu'r Awdurdod Lleol yn adroddiad cadarnhaol iawn. Roedd yr adroddiad yn nodi fod ansawdd gadarn ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Dysgu wedi cyfrannu at wasanaethau addysg o ansawdd uchel ar yr ynys. Mae'r tîm wedi gosod disgwyliadau uchel, wedi arwain timau'n effeithiol ac wedi cyd-weithio'n dda i yrru blaenoriaethau strategol. Mae'r Tîm, gan gynnwys aelodau etholedig, yn barod i wneud penderfyniadau anodd ac amserol trwy newid a mireinio cynlluniau a blaenoriaethau yn unol â'r amgylchiadau. Nododd fod cyfeiriadau mynych yn yr adroddiad at weithio'n effeithiol ac at weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill yn yr Awdurdod a gydag ysgolion. Cyfeiriodd hefyd at y cyfeiriad at lesiant yn yr adroddiad, a'r cyfeiriad penodol at gefnogi a hyrwyddo llesiant y dysgwyr a'r gweithlu, yn enwedig yn ystod y pandemig, a bod yr ethos o weithio mewn modd ataliol yn greiddiol i waith yr Awdurdod.

Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, y Cynghorydd Gwilym O Jones, fod y Panel Sgriwtini Addysg a gynhaliwyd ar 22 Medi 2022 wedi derbyn cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar Arolygiad Estyn o'r Awdurdod Addysg ynghyd â'r Cynllun Gweithredu drafft. Yn y cyfarfod, tynnodd y

Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc sylw at brif negeseuon ac argymhellion yr adroddiad. Ychwanegodd fod y Panel wedi nodi fod dau argymhelliad yn yr adroddiad yn cyfeirio at feysydd sydd angen eu gwella: Cryfhau prosesau ar gyfer arfarnu effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu a chryfhau trefniadau sgriwtini ffurfiol. Bydd y Panel Sgriwtini yn hunanarfarnu ei gyfraniad i'r broses sgriwtini er mwyn darparu tystiolaeth o'r gwerth a ychwanegir i'r gyfundrefn addysg fel rhan o'r rhaglen waith; rhagwelir y bydd hyn yn cael ei drafod ym mis Chwefror 2023. Dywedodd Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg fod y Panel yn croesawu Adroddiad Arolygiad Estyn ac y bydd yn monitro'r cyflawniadau yn erbyn y Cynllun Gweithredu Drafft.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad cadarnhaol gan Estyn a chodwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Cwestiynwyd i ba raddau mae'r cynllun gweithredu'n ymateb yn llawn i argymhellion arolygiad diweddar Estyn o'r Awdurdod Addysg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod argymhellion yr adroddiad wedi cael eu casglu ynghyd mewn Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg, er nad yw hynny'n ofyniad statudol gan Estyn. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini hefyd y byddai blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Addysg yn canolbwyntio ar ofynion Estyn er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr arolygiad diweddar. Yn dilyn hynny, bydd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y gwaith a gyflawnwyd.
- Gofynnwyd a oedd unrhyw beth wedi'i adael allan neu unrhyw feysydd sydd angen eu hystyried ymhellach yn dilyn yr adroddiad gan Estyn; a chyfeiriwyd at y blynyddoedd cynnar a'r ddarpariaeth feithrin mewn ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bydd y gwasanaeth yn rhoi sylw i'r argymhellion yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at y blynyddoedd cynnar a'r ddarpariaeth cyn ysgol mewn ysgolion a nododd fod tîm yn y gwasanaeth addysg yn gweithio ar wella'r ddarpariaeth a gynigir.
- Cwestiynwyd pa mor gyraeddadwy yw'r amserlen a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Addysg ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad Estyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod gwaith eisoes ar y gweill i fynd i'r afael ag argymhellion adroddiad Estyn trwy'r Panel Sgriwtini Addysg.

**PENDERFYNWYD fod y Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg yn ymateb i argymhellion arolygiad Estyn.**

**GWEITHRED: Fel y nodir uchod.**

## 5 RHAGLEN ARFOR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â'r uchod.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth drosolwg o Raglen Arfor 1, sef cyllid refeniw gwerth £2m a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20 a 2020/21 i Gynghorau Sir Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin. Ar Ynys Môn, defnyddiwyd cyllid refeniw

Arfor gwerth £468k ar gyfer Grantiau Busnes, Grantiau Iaith mewn Busnes, Llwyddo'n Lleol 2050 ac i ariannu llyfryn i hyrwyddo'r Gymraeg a llyfryn penodol ar gyfer busnesau, ynghyd â hyrwyddo a chreu adran newydd y Gymraeg ar wefan y Cyngor. Derbyniodd Ynys Môn swm ychwanegol o £160k gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2020/21 er mwyn darparu nifer o grantiau cyfalaf ARFOR. Roedd y rhaglen ehangach yn cael ei harwain gan Gyngor Gwynedd ond roedd elfennau o'r gwaith ar Ynys Môn yn cael eu gweinyddu gan Fenter Môn. Roedd manylion y prosiectau a dderbyniodd gyllid wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at y cynnig ar gyfer Rhaglen ARFOR 2 sydd wedi cael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru erbyn hyn; bydd cyllid ychwanegol o £11m yn cael ei ddarparu i gyflawni ail gam Rhaglen ARFOR hyd at fis Mawrth 2025. Ym mis Ebrill 2022, cyflwynodd Bwrdd ARFOR (Arweinwyr y pedwar sir) 'gynnig amlinellol' ar gyfer ail gam y rhaglen i Lywodraeth Cymru a oedd yn nodi rhesymeg, pwrpas, amcan strategol ac egwyddorion ar gyfer ARFOR 2. Mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, mae swyddogion y pedair sir wedi datblygu cynigion ar gyfer troi'r amcanion strategol yn brosiectau y gellir eu cyflawni. Amlygwyd prif elfennau arfaethedig ARFOR 2 yn yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Adfywio fod cyfanswm o 75 grant wedi'u dyfarnu i gefnogi 42 o fusnesau a oedd yn bodoli'n barod, 18 busnes newydd, 60 o swyddi newydd, 108 o swyddi a oedd yn bodoli'n barod a 36 o gynhyrchion neu wasanaethau newydd, ynghyd â £750k o fuddsoddiad preifat. Amharodd y pandemig ar gyfnod gweithredu'r rhaglen ond, serch hynny, roedd arfarniad y rhaglen yn nodi ei bod wedi gwneud gwahaniaeth o ran cefnogi nifer o fusnesau a swyddi newydd a sefydlu trefniadau cydweithio defnyddiol rhwng y pedair sir. Ychwanegodd fod y rhaglen ARFOR wedi rhoi cyfle i fusnesau elwa ar yr arian grant. Bydd cam nesaf y rhaglen ARFOR yn rhoi cyfle i fusnesau elwa ar y cyllid sydd ar gael.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at adroddiadau a dderbyniwyd dros nifer o flynyddoedd fod pobl ifanc yn gadael yr ynys i chwilio am waith. Gofynnwyd a yw arian grant ARFOR wedi denu pobl ifanc yn ôl i'r ynys i weithio. Dywedodd y Rheolwr Adfywio fod y model 'Llwyddo'n Lleol' sy'n rhan o'r rhaglen ARFOR yn cael ei gydnabod fel enghraifft dda o ran denu pobl ifanc yn ôl i'r ynys. Dywedodd y Prif Weithredwr na chasglwyd gwybodaeth yn ystod y rhaglen ARFOR 1 ac y gallai'r Pwyllgor Sgriwtini wneud cais i'r data hwn gael ei gasglu fel rhan o'r model monitro y bydd rhaid i'r pedair sir ei gweithredu yn ystod y ddwy flynedd nesaf, fel rhan o raglen ARFOR 2.
- Nodwyd fod 18 busnes newydd wedi'u sefydlu trwy raglen ARFOR 1. Gofynnwyd ymhle ar yr ynys y sefydlwyd y busnesau hyn ac a ydynt wedi cael eu cefnogi gan dechnoleg. Dywedodd y Rheolwr Adfywio fod amrywiaeth o wahanol fusnesau wedi cael eu creu trwy'r rhaglen ARFOR 1 megis:- busnesau bwyd a diod, busnesau technegol, ymgynghorol a dylunio.
- Gofynnwyd i ba raddau y mae cam cyntaf y rhaglen ARFOR wedi cael ei gynllunio a'i gyflawni'n llwyddiannus ar Ynys Môn a pha wersi a ddysgwyd ar gyfer y cam nesaf, sef ARFOR 2. Dywedodd y Rheolwr Adfywio y bydd y rhaglen ARFOR 2 yn darparu cyllid ychwanegol tuag at farchnata a hyrwyddo gan fod diffyg yn yr elfennau hyn yn ystod cam cyntaf y rhaglen oherwydd y pandemig. Mae nifer o fusnesau a dderbyniodd gymorth trwy'r rhaglen ARFOR

1 wedi buddsoddi hefyd mewn peiriannau rhad ar ynni er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau ynni. Ychwanegodd y bydd grantiau ar gael hefyd trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac y bydd gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar y posibilrwydd o ariannu cynlluniau arbed ynni er mwyn cefnogi busnesau lleol.

- Gofynnwyd sut mae Bwrdd ARFOR yn penderfynu pa fusnesau fydd yn derbyn cymorth. Dywedodd y Rheolwr Adfywio fod cyllid sylweddol ar gael trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i gefnogi busnesau ac mae'n bwysig nad yw'r rhaglen ARFOR yn dyblygu'r broses gyllido. Targedir cyllid ARFOR tuag at brosiectau fydd yn arwain at lwyddiant y busnesau a gefnogir. Gofynnwyd a fydd y busnesau sydd wedi derbyn cymorth yn parhau ar ôl i'r arian grant ddod i ben. Dywedodd y Rheolwr Adfywio fod y rhaglen ARFOR 1 yn cefnogi cynlluniau buddsoddi gan fusnesau ac y byddai busnesau yn darparu eu cyllid eu hunain tuag at brosiectau penodol; nid pwrpas y grant oedd cyfrannu at gostau rhedeg y busnesau. Mae'r prosiectau a gefnogwyd yn parhau a dim ond un busnes sydd wedi dod i ben.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi cyflawniad cam cyntaf y rhaglen ARFOR ar Ynys Môn yn 2019/2020 a 2020/2021.**
- **Nodi'r cynnig i gyflawni ail gam y rhaglen ARFOR hyd at fis Mawrth 2025.**
- **Yr angen i fonitro data ynghylch nifer y bobl ifanc sy'n dychwelyd i'r ynys o ganlyniad i'r arian grant a roddwyd i fusnesau trwy'r rhaglen ARFOR.**

**GWEITHRED : Fel y nodir uchod.**

## 6 GWASANAETHAU CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gan y Cyngor ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996. Mae'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio gydag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru trwy'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru, a Chyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod lletyol ar gyfer y gwasanaeth. O fewn y Cyngor, mae cyfrifoldebau am gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt yn cael eu rhannu ymysg y gwasanaethau ac mae cynrychiolwyr gwasanaeth dynodedig yn cael eu nodi o fewn strwythur y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng. Amlygodd y Prif Weithredwr rôl Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad. Nododd y bydd angen adolygu'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn y pandemig ynghyd â'r angen i adolygu cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod er mwyn sicrhau y gall y Cyngor ymateb yn effeithlon i unrhyw argyfwng.

Cyfeiriodd Mr Jon Zalot o Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru at brif weithgareddau'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng ar Ynys Môn, fel y nodir hwy yn yr adroddiad. Yn benodol, nododd fod

cynllun pwrpasol wedi'i lunio ym mis Mawrth, mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau argyfwng, mewn ymateb i amheuon y byddai nifer fawr o ffoaduriaid yn dod i'r wlad o Iwerddon oherwydd y rhyfel yn Wcráin. Trefnwyd i ddefnyddio Canolfan Hamdden Caergybi er mwyn sicrhau fod llety addas ar gael pe byddai nifer fawr o bobl yn cyrraedd yn y porthladd.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at y pwysau cynyddol ar adnoddau llywodraeth leol a chefnogi partneriaethau rhanbarthol. Gofynnwyd a fydd ariannu partneriaethau rhanbarthol a gwasanaethau argyfwng yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau'r Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd cefnogi partneriaethau rhanbarthol yn cael ei ystyried oherwydd problemau o ran adnoddau mewn llywodraeth leol ac i sicrhau eu bod yn ychwanegu gwerth i'r Awdurdod. Nododd fod cydweithio rhanbarthol gyda'r Gwasanaethau Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn gryf gan na fyddai cynnal chwe thîm unigol ym mhob awdurdod lleol yn gynaliadwy.
- Gofynnwyd a fyddai'r Awdurdod yn cael unrhyw fudd ychwanegol o gael ei Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng ei hun oherwydd y Porthladd yng Nghaergybi, y ddwy bont a Gorsaf Bŵer Wylfa. Dywedodd y Prif Weithredwr fod gweithio ar lefel ranbarthol ym maes Cynllunio at Argyfwng yn cynnig manteision enfawr. Dywedodd fod cael arbenigedd staff mewn un Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng rhanbarthol yn ychwanegu gwerth i'r chwe awdurdod lleol. Mae lefel cyfraniad pob awdurdod lleol tuag at y gwasanaeth yn cael ei fesur gan lefel y boblogaeth ac mae'r Cyngor hwn yn derbyn yr un cymorth a chapasiti gan y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol â'r pum awdurdod lleol arall.
- Gofynnwyd cwestiynau am rôl y Gwasanaethau Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol mewn perthynas â llifogydd a damweiniau difrifol. Dywedodd y Prif Weithredwr mai staff yr awdurdod lleol yw'r ymatebwyr cyntaf i lifogydd a damweiniau difrifol. Ychwanegodd y gallai nifer o wasanaethau brys gael eu galw i ddigwyddiad os yw'r digwyddiad yn un digon difrifol. Gofynnwyd hefyd a yw gwersi a ddysgwyd wrth ddelio gyda digwyddiadau penodol yn derbyn sylw ar lefel ranbarthol er mwyn sicrhau ymateb effeithiol i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Dywedodd Ms Carol Dove o'r Tîm Cynllunio at Argyfwng fod Rheolwr y Tîm yn mynychu cyfarfodydd rhanbarthol a Chymru gyfan, yn ogystal â chyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau sydd ar y gorwel.
- Cyfeiriwyd at yr argyfwng ynni a'r ffaith fod pobl yn wynebu biliau ynni uchel er mwyn gwresogi eu cartrefi. Gofynnwyd sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y mater yn derbyn sylw ac mae'r gwaith o gefnogi a chydweithio gyda Grwpiau Cymunedol yn cael ei arwain gan Medrwn Môn, mae Menter Môn yn arwain y gwaith gyda busnesau a thafarndai, mae'r Gymdeithas Elusennol yn canolbwyntio ar hybiau mewn neuaddau pentref ac mae'r Gwasanaethau Tai yn edrych ar ddarparu cyfleusterau lleoedd cynnes mewn lolfeydd cymunedol. Ychwanegodd fod y Tîm Pobl Hŷn yn cefnogi unigolion bregus. Derbyniwyd grant gwerth £21,580 i ariannu'r ymateb i'r argyfwng costau ynni a bydd angen arian craidd ychwanegol er mwyn caniatáu i'r cynlluniau hyn fynd rhagddynt. Nododd hefyd y bydd aelodau etholedig yn derbyn manylion am gynnydd y cynllun maes o law.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd gwaith Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru yn 2021/2022.**

**GWEITHRED : Fel y nodir uchod.**

## 7 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn amlinellu Blaen Raglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2022/23.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Flaen Raglen Waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi cynnydd hyd yma wrth gyflawni'r Flaen Raglen Waith.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 23/11/2022 |
| **Pwnc:** | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ystyried Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2021/22 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng. Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys H Hughes Dirprwy Prif Weithredwr<br>Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Daron Owens – Uwch Swyddog Gweithredol Diogelwch Cymunedol ar gyfer Gwynedd a Môn<br>DaronMargedOwens@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl aelodau |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.

**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.**

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio

- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae'r pwyllgor yn cytuno â blaenoriaethau'r Bartneriaeth, sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol, ac a oes materion eraill sydd angen eu blaenoriaethu?
2. Ym mha ffordd mae'r bartneriaeth statudol yn ychwanegu gwerth ac yn gweithio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998?
3. I ba raddau mae'r cynllun gweithredu yn ddigon gwydn i ymdrin ag agweddau o'r meysydd blaenoriaeth er budd cymunedau Môn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR -**

1) Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgîl deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

2) Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod yr ALI yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol presennol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef Alun Mummery, a'r prif swyddog gyda chyfrifoldeb am y gwaith, sef Rhys Hughes.

**3) Yn wreiddiol, galwyd partneriaethau diogelwch cymunedol yn bartneriaethau trosedd ac anhrefn, ac er bod yr enw wedi'i newid, nid yw'r cyfrifoldebau, maent yn parhau i fod -**

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau Aildroseddu
- Bydd gennym hefyd gyfrifoldeb i lunio a gweithredu strategaeth i atal a lleihau trais difrifol, yn dilyn diwygiadau i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn o ganlyniad i'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd a ddisgwylir y flwyddyn nesaf.
- O dan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004, mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddyletswydd statudol hefyd i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs). Mae'r rhain yn adolygiad o'r

amgylchiadau pan fo marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi, neu’n ymddangos ei bod wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan— (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos, neu (b) yn aelod o’r un aelwyd ag ef ei hun, gyda golwg ar nodi’r gwersi i’w dysgu o’r farwolaeth.

4) Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol bellach wedi bodoli ers 24 mlynedd, yn ddiweddarach, fel partneriaeth dwy Sir. Mae'r newidiadau y mae'r bartneriaeth wedi'u hwynebu dros y blynyddoedd yn niferus. Yn wir, gellir dweud nad yw’r dirwedd heddiw yn edrych dim byd tebyg i’r hyn a fodolai ym 1998, pan ddaeth PDC yn ofyniad statudol.

5) Yr hyn sydd heb newid fodd bynnag yw ymrwymiad ac ymgysylltiad yr holl bartneriaid. Mae presenoldeb da bob amser mewn cyfarfodydd chwarterol.

6) Mae partneriaid ac Aelodau lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cyfrannu'n gadarnhaol, ac mae data chwarterol ar ffigurau troseddau a diweddariad ar ein cynlluniau ar gael ym mhob cyfarfod.

7) Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol i gael dadansoddwyr partneriaeth, fel y gellir darparu data rheolaidd er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

8) Mae gweithio rhwng partneriaid yn sylfaenol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm dros gyflwyno PDC yn ôl ym 1998, oedd sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei ystyried yn ‘broblem pawb’ ac nid tir yr Heddlu yn unig.

9) Rhestrir rhai o'r prif newidiadau mae’r bartneriaeth wedi, ac yn parhau i'w hwynebu isod:
   a. Colli grantiau lleol - mae'r holl grantiau a fydda cynt yn dod i’r bartneriaeth, naill ai wedi dod i ben, neu wedi symud i fod yn grant ranbarthol ac yn cael ei rheoli ar sail Gogledd Cymru. Fodd bynnag, trwy sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan yn y strwythur rhanbarthol, mae arian yn dal i gael ei sicrhau yn lleol, gan gynnwys cyllid ychwanegol yn y 18 mis diwethaf ar gyfer cam-drin domestig / trais rhywiol a chamddefnyddio sylweddau, yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
   b. Colli cydlynwyr lleol - collwyd rhai swyddi oherwydd bod cyllid wedi'i dynnu'n ôl, daeth eraill yn adnodd rhanbarthol. Fodd bynnag, trwy gynnal aelodaeth agos a phwrpasol o'r grwpiau rhanbarthol, rydym yn hyderus bod anghenion lleol wedi'u hymgorffori ym mhob cynllun a gweithgaredd rhanbarthol.
   c. Y prif heriau yr ydym i gyd yn eu hwynebu wrth gwrs, yw wyneb newidiol troseddu yn ein cymunedau heddiw. **Er bod Gwynedd ac Ynys Môn yn parhau i fod ymhlith y lleoedd mwyaf diogel i fyw**, rydym yn wynebu'r un materion â phob ardal arall yn y DU. Mae troseddau heddiw yn bellgyrhaeddol a chymhleth, gyda'r defnydd o dechnoleg yn galluogi lefel o droseddau ecsbloetiol ellir ddadlau, na welwyd o'r blaen. Mae gangiau troseddau cyfundrefnol yn bodoli ledled y DU, y rhan fwyaf yn ymwneud â throseddau cysylltiedig â chyffuriau, ac mae'r gangiau hyn a elwir yn gangiau llinellau sirol

(County Lines) wedi bod yn destun llawer o weithgaredd ymatebol yng Ngogledd Cymru, sydd wedi cael effaith fawr ar weithgarwch gangiau troseddol yn yr ardal.

**BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU -**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio yn unol â chynllun blynyddol. Ynghlwm mae cynllun 2022-23, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel. Y blaenoriaethau hyn yw:

- Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Mynd i'r Afael â Throseddau Treisgar
- Mynd i'r Afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

Mae'r blaenoriaethau hyn hefyd wedi'u cysylltu'n agos ag asesiad strategol rhanbarthol yr Heddlu a chynllun y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**TROSOLWG O LEFELAU TROSEDDU DROS Y CYFNOD ADRODD**

**Cefndir:**

1) Mae'r Heddlu'n edrych ar ffigurau trosedd yn gyson, ac yn adolygu pob newid yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae unrhyw newidiadau sylweddol yn destun dadansoddiad pellach. Yna bydd meysydd problemus yn cael eu hadolygu, gyda chynlluniau plismona ar waith i fynd i'r afael arnynt. Mae dulliau plismona lleol yn cynnwys gosod adnoddau bob dydd i fynd i'r afael â materion wrth iddynt ddod i'r amlwg.

2) Mae'r Bartneriaeth yn derbyn data ar lefelau troseddu bob chwarter, a bydd y dulliau 'meddal' neu dymor hir o fynd i'r afael â thueddiadau trosedd yn sail i'r cynllun partneriaeth. Y data a ddefnyddiwn yn gyffredinol yw data cymhariaeth rhwng y cyfnod yn y flwyddyn gyfredol, a'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

**DATA TROSEDDU**

**1) Isod mae'r data troseddu diweddaraf Ynys Môn ar gyfer Tachwedd 2022 gan y Dadansoddwr Partneriaeth o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Mae hyn yn amlinellu'r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn hyd yma, o gymharu â blynyddoedd blaenorol a hefyd y darlun ar draws Gogledd Cymru.**

**Ynys Mon**

| Ynys Mon - Crime & Incident Data | Fiscal Year | | % Change (YTD) | North Wales % Change (YTD) |
|---|---|---|---|---|
| | 2021/22 (YTD) | 2022/23 (YTD) | | |
| All Victim Based Crime | 2,965 | 2,682 | -9.5% | -2.4% |
| Violence with injury | 341 | 319 | -6.5% | 1.6% |
| Violence without injury | 568 | 522 | -8.1% | 0.8%% |
| Stalking & Harassment | 691 | 558 | -19.2% | -13.0% |
| Sexual offences | 135 | 142 | 5.2% | 13.6% |
| All Acquisitive Crime | 432 | 517 | 19.7% | 15.8% |
| Burglary Residential | 50 | 50 | 0.0% | -4.0% |
| Burglary - Business and Community | 31 | 17 | -45.2% | 6.9% |
| Robbery | 8 | 5 | -37.5% | -32.9% |
| Vehicle Crime | 25 | 47 | 88.0% | 2.8% |
| Theft and Handling | 318 | 398 | 25.2% | 23.8% |
| Criminal Damage & Arson | 348 | 337 | -3.2% | -0.1% |
| Domestic Crime | 698 | 657 | -5.9% | -3.2% |
| Domestic Incidents (non-crime) | 230 | 304 | 32.2% | 9.9% |
| Hate Crime | 83 | 66 | -20.5% | -15.5% |
| Anti-Social Behaviour | 1,055 | 942 | -10.7% | -7.7% |

2) Mae troseddau trais yn erbyn person wedi gostwng yn Ynys Môn yn 2022/23, o gymharu â’r un cyfnod blwyddyn diwethaf. Mae hyn yn mynd yn groes i'r duedd a welir ar gyfer Gogledd Cymru gyfan, lle mae Trais ag Anafiadau ac mae Trais heb Anafiadau wedi cynyddu ychydig.

3) Ym mis Ebrill 2020, gwnaeth y Swyddfa Gartref newidiadau i’r categori Stelcio ac Aflonyddu wrth gynnwys mathau ychwanegol o droseddau yn y diffiniad, megis ymddygiad gorfodi a rheoli. Mae hyn, ynghyd â mwy o graffu o amgylch troseddau eilaidd/ychwanegol wedi arwain at gynnydd mawr yn nifer y troseddau ar draws yr heddlu ac yn genedlaethol. Mae data blwyddyn hyd yma ar gyfer 2022/23 yn dangos bod y cynnydd cychwynnol hyn wedi dod i ben a bod gostyngiadau mewn niferoedd yn bellach i'w gweld ar draws ardal yr heddlu ac, o ganran uwch, yn Ynys Môn.

4) Mae lefel y Troseddau Rhyw a gofnodwyd hyd yma yn 2022/23 yn Ynys Môn wedi cynyddu ychydig o gymharu hyd at 2021/22, gyda 7 trosedd ychwanegol yn cael eu cofnodi hyd yn hyn y flwyddyn ariannol hon. Gall fod yn amrywiadau mawr mewn troseddau a adroddir o wythnos i wythnos, yn rhannol oherwydd adrodd am droseddau hanesyddol.

5) Yn dilyn cynnydd sydyn mewn Troseddau Casineb ar Ynys Môn yn ystod ac ar ôl COVID, mae niferoedd 2022/23 yn dangos gostyngiad o gymharu â'r llynedd. Mae'r gostyngiadau hyn i'w gweld ar draws Gogledd Cymru fel a cyfan.

6) Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ynys Môn wedi gweld gostyngiad o dros 10% yn y flwyddyn hyd yma yn 2022/23 o gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22. Mae hyn yn

cyfateb i dros 1,000 yn llai o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd. Mae dioddefwyr aml o YGG, lleoliadau lle mae YGG yn digwydd yn aml, a dioddefwyr bregus risg uchel yn cael eu cyfeirio i'w hadolygu i grwpiau tasg aml-asiantaeth misol.

7) Mae Troseddau Domestig yn Ynys Môn wedi gostwng bron -6% y flwyddyn hyd yma, o gymharu â'r llynedd, gyda'r heddlu yn gweld gostyngiad cyffredinol o -3.2%. Mae Digwyddiadau Domestig (di-drosedd) yn alwadau a dderbynnir gan Ystafell Reoli Heddlu Gogledd Cymru sydd ag elfen ddomestig iddynt; fodd bynnag nid ydynt yn drosedd ac felly nid ydynt yn cael eu cofnodi ar system rheoli cofnodion yr heddlu. Maent yn cynnwys digwyddiadau fel dadl domestig llafar, lle na chafwyd unrhyw droseddau. Mae'r digwyddiadau hyn yn arwain at atgyfeiriad CID 16, i'w ystyried i'w rannu â'r partneriaid diogelu perthnasol. Mae'n anodd dadansoddi'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd a welir mewn Digwyddiadau Domestig Di-drosedd, fodd bynnag y gobaith yw bod hyder y cyhoedd yn yr heddlu wedi chwarae rhan mewn mwy o bobl yn dod ymlaen i adrodd am ddigwyddiadau o'r fath.

8) Bu cynnydd canrannol mawr hyd yn hyn mewn Troseddau Cerbydau yn Ynys Môn o gymharu â’r llynedd, er bod nifer y troseddau yn isel. Dengys data fod nifer y troseddau eleni yn debyg i'r lefelau ddwy flynedd yn ôl yn 2019/20.

9) Bu cynnydd amlwg yn nifer y Dwyn a Thrin yn Ynys Môn ac ar draws ardal yr heddlu o'i gymharu â'r llynedd. Mae hyn yn cael ei yrru yn bennaf gan gynnydd mewn Siopladrad, sy'n dod o fewn y diffiniad Dwyn a Trin. Mae dwyn o siopau yn Ynys Môn 41.7% yn uwch y flwyddyn hyd yma o'i gymharu â'r llynedd, gyda'r heddlu’n gweld cynnydd cyffredinol o 32.3%. Gyda chynnydd mewn costau byw, rhagwelir y bydd troseddau siopladrad yn cynyddu dros y misoedd nesaf.

**GWAITH WEDI’I GWBLHAU YN YSTOD 2022**

1) Holiadur osododd y sylfaen ar gyfer sefydlu'r cynllun am eleni, a hynny drwy ofyn i bartneriaid am wybodaeth ynghylch unrhyw weithgareddau neu brosiectau oedd ar y gweill oedd yn cysylltu â' blaenoriaethau’r Bwrdd Gogledd Cymru Fwy Diogel.

2) Mae cynllun 2022-23 sydd wedi'i atodi, yn crynhoi mwyafrif y gweithgarwch ychwanegol y dymunai'r bartneriaeth ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r gweithgarwch yn cael ei fonitro a'i adrodd yn chwarterol i'r PDC, fel bod modd dod i gytundeb ar unrhyw weithgarwch adfer, os oes angen.

3) Hefyd, rhannwyd ffigyrau trosedd bob chwarter drwy adroddiad perfformiad a baratowyd gan ddadansoddwr yr Heddlu, fel bod modd trafod unrhyw dueddiadau a gweithgarwch ychwanegol.

4) Mae gennym ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004 i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs). Mae’r rhain yn adolygiad o’r amgylchiadau pan fo marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi, neu’n ymddangos ei bod wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan— (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos, neu (b) yn aelod o’r un aelwyd ag ef ei hun, gyda golwg ar nodi’r gwersi i’w dysgu o’r farwolaeth. Yn

anffodus, bu'n ofynnol i'r Bartneriaeth gomisiynu 3 DHR ychwanegol eleni. Mae'n anochel bod gan y gwaith hwn oblygiadau sylweddol a pharhaus o ran adnoddau, gan gynnwys cymeradwyo'r Swyddfa Gartref a all fod yn broses hir ac chymhleth iawn.

5) Crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd eleni:

a) Nodwyd twyll fel blaenoriaeth gan y bartneriaeth o ran codi ymwybyddiaeth staff sy'n gweithio gydag unigolion bregus. O ganlyniad, cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gan Uned Troseddau Economaidd yr Heddlu ym mis Ionawr ar gyfer staff Awdurdodau Lleol sy'n gweithio gydag unigolion bregus i godi ymwybyddiaeth o sgamiau a thactegau cyson a ddefnyddir gan dwyllwyr.

b) Yn gynharach yn y flwyddyn, cyflwynwyd Grŵp SOC (Troseddau Cyfundrefnol Difrifol) ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Wedi'i gadeirio gan yr Heddlu, mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth gan nifer o asiantaethau a gwasanaethau allweddol. Drwy ddefnyddio dull aml-asiantaeth, trawsadrannol, mae hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i rannu gwybodaeth am unigolion sy'n peri pryder yn ein hardal.

c) Mae'r PDC yn paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol, y disgwylir iddo ddod i rym ym mis Ionawr 2023. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais difrifol, gan gynnwys nodi'r mathau o drais difrifol sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw (cyn belled ag y bo modd), a pharatoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Mae Grŵp Tasg a Gorffen rhanbarthol wedi'i sefydlu'n ddiweddar i weithredu'r ddyletswydd a pharatoi Strategaeth. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn arwain ar ddatblygu Asesiad Anghenion Rhanbarthol, sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd. Bydd hyn yn gosod sylfaen y Strategaeth.

d) Rydym yn parhau i fynychu'r grŵp rhanbarthol ac yn gweithio ar y cyd i weithredu'r Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol yn y ddau Gyngor. Mae hyn hefyd yn cynnwys cefnogi gwaith yr is-grŵp sy'n canolbwyntio ar ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar ddefnyddio aml-gyffuriau, wedi'i thargedu at ddefnyddwyr hamdden a phobl ifanc.

e) Yn dilyn cydweithrediad rhwng yr Heddlu, yr Awdurdod Lleol a'r Cyngor Tref, cyflwynwyd cais llwyddiannus i Gaergybi ym mis Mai o dan Gronfa Strydoedd Mwy Diogel 4 y Swyddfa Gartref. Bydd y prosiect yn arwain at sawl ymyriad cadarnhaol i'r dref, gyda'r nod o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynyddu teimladau o ddiogelwch. Mae elfennau o'r prosiect yn cynnwys mwy o deledu cylch cyfyng a gwell goleuadau stryd, dosbarthiadau hunan amddiffyn i ferched, a mwy o ddarpariaeth ieuenctid yn y dref. Mae'r gwaith o gyflawni'r prosiect eisoes wedi dechrau, ac mae Bwrdd Prosiect misol yn ei le i oruchwylio cynnydd y gwaith. Roedd cyfle da hefyd yn ddiweddar i drafod yr effaith gadarnhaol y bydd y gwaith yn ei gael a manteision cydweithio yn y cyfryngau trwy eitem a ddarlledir ar radio a theledu Cymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael yn yr atodiadau.

f) Mae'r Bartneriaeth yn sicrhau presenoldeb a mewnbwn parhaus i Gyfarfodydd Partner VAWG (Trais yn erbyn Menywod a Merched) newydd yr Heddlu sy'n cyfarfod yn fisol. Sefydlwyd y grŵp hwn ym mis Mawrth gyda'r diben o fabwysiadu dull partneriaeth o gyflawni Fframwaith Cyflawni VAWG NPCC (Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu), sy'n canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth a hyder rhwng menywod a'r Heddlu, gweithgarwch atal ac amharu ar droseddwyr.

g) Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Thimau Plismona Lleol i nodi ardaloedd a allai elwa o Gronfa Shared Prosperity gan Lywodraeth San Steffan. Un o'r blaenoriaethau buddsoddi yn y gronfa yw 'Cymuned a Lle', a nod un o'r Cenhadaeth Lefelu i Fyny yw y bydd lladdiadau, trais difrifol, a throseddau yn y gymdogaeth wedi gostwng erbyn 2030. Fel rhan o'r gwaith hwn rydym wedi nodi lleoliadau penodol ar

draws Gwynedd ac Ynys Môn lle gellid cyflwyno teledu cylch cyfyng ychwanegol neu oleuadau stryd gwell, gyda'r nod o wella canfyddiadau o ddiogelwch a lleihau troseddau yn y gymdogaeth. Mae cais yn y broses o gael ei lunio ar hyn o bryd.

h) Ym mis Awst a mis Medi, trefnwyd a chynhaliwyd sesiynau hyfforddi rhithiol gan yr Heddlu ar y Ddyletswydd Atal. Mae'r Ddyletswydd Atal yn rhan o strategaeth gwrthderfysgaeth y Llywodraeth, CONTEST, a'r nod yw lleihau'r bygythiad i'r DU gan derfysgaeth drwy atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Roedd y sesiynau ar gael i staff Gwynedd a Môn, ac roedd tua 100 o unigolion yn bresennol. Rydym yn bwriadu ehangu'r cynnig i fwy o staff yn y dyfodol. Mae'r sesiynau hyn yn ychwanegol at y pecyn e-ddysgu mandadol.

i) Mewn cydweithrediad ag Swyddog Diogelu'r ALI, mae'r PDC yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni Prevent yn yr ardal (dyletswydd yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ar awdurdodau penodol i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth). Eleni, rydym wedi bod yn gweithio gyda Chynghorydd Atal Rhanbarthol newydd y Swyddfa Gartref i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu a sicrhau arfer gorau, sydd eleni wedi cynnwys gwybodaeth fwy lleol am risgiau a bygythiadau presennol, yn hytrach na'r ffocws rhanbarthol arferol ar gyfer Gogledd Cymru.

j) Hefyd, mae creu Grŵp Cyflawni Atal Rhanbarthol yn gynharach yn y flwyddyn yn ddatblygiad cadarnhaol iawn i'w adrodd. Mae hyn yn galluogi swyddogion Atal Gogledd Cymru i ddod at ei gilydd i rwydweithio, trafod arfer gorau a gwella trefniadau presennol ar draws y rhanbarth. Mae'r Uwch Swyddog yn mynychu'r grŵp ar ran y PDC. Un enghraifft glir o fantais y sgwrs ranbarthol hon oedd y gallu i ni a Swyddog Diogelu'r ALI gyflwyno cais ar fyr rybudd ar draws holl siroedd y rhanbarth i'r Gronfa Lleihau Radicaleiddio gan y Swyddfa Gartref. Gydag Ynys Môn fel yr ALI arweiniol, roedd y cais yn llwyddiannus. Mae tystiolaeth yn amlygu y gall y gofod ar-lein fod yn elfen sylweddol o ran radicaleiddio a chamfanteisio ar bobl ifanc. Bydd y cyllid hwn yn arwain at sesiynau llythrennedd yn y cyfryngau mewn lleoliadau addysgol i wella sgiliau meddwl yn feirniadol a nodi newyddion ffug ar-lein. Rydym yn aros am fanylion ynglŷn â nodi darparwr addas i gyflawni'r prosiect ar draws y rhanbarth. Bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2023. Bydd cyfleoedd i ni gynyddu'r cynnig mewn rowndiau pellach o'r cyllid hwn.

**GWAITH AR Y GWEILL:**

1. Parhau i weithredu'r prosiectau lleol a nodwyd yn y cynllun ar gyfer Ch3 – drwy'r broses fonitro.
2. Wrth weithio ar y cyd gyda'n partneriaid yn yr Heddlu ac adrannau amrywiol yr Awdurdod Lleol, byddwn yn parhau i gyflawni'r Prosiect Strydoedd Mwy Diogel 4 yng Nghaergybi, gan sicrhau bod yr amserlenni tynn yn cael eu cyrraedd yn llwyddiannus a bod unrhyw risgiau sy'n deillio o gostau uwch yn cael eu lliniaru.
3. Parhau i gefnogi gweithrediad y cynllun alcohol rhanbarthol yn y ddau Awdurdod a datblygu'r ymgyrch gyfathrebu aml-gyffuriau.
4. Parhau i fynychu'r grŵp tasg a gorffen rhanbarthol i baratoi ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol, fel bod yr ALI yn y sefyllfa orau i fodloni'r gofynion newydd yn brydlon.
5. Parhau i weithio'n agos gyda Chynghorydd Rhanbarthol Atal newydd y Swyddfa Gartref i ddiweddaru trefniadau Prevent a Channel yr ALI, gan weithio ochr yn ochr â'n partneriaid yn y Grŵp Cyflawni Rhanbarthol Atal newydd.
6. Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol iawn o'r argyfwng costau byw presennol yr ydym yn ei wynebu, a'r cynnydd rydym wedi'i weld mewn achosion o ddwyn a thrin troseddau yn lleol. Mae ymchwil wedi dangos bod amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â mwy o siawns o ryngweithio â'r system gyfiawnder,

| |
|---|
| dioddef trosedd, neu beidio â theimlo'n ddiogel mewn cymuned. Rydym hefyd yn ymwybodol y gallai'r sefyllfa bresennol arwain at deimladau o anobaith i lawer, sydd yn anochel yn ddarparu cyfleoedd pellach i grwpiau troseddau trefniadol. Prif Gwnstabl newydd Heddlu Gogledd Cymru, Amanda Blakeman, yw'r arweinydd plismona cenedlaethol ar gyfer troseddau meddiangar cyfundrefnol difrifol felly bydd hwn yn faes pwysig i waith parhaus y PDC. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Awdurdod Lleol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Cynllun 22-23<br>2. Gwybodaeth am y Prosiect Safer Streets yng Nghaergybi |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Cynllun gwaith y Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel |

## Cynllun Blynyddol 2022-23 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn

Cefndir

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sut orau i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae'r gofyn i gael partneriaeth o'r fath mewn lle ar lefel leol yn rhan o'r gyfraith, sef Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth tân ac achub a'r bwrdd iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 am nifer o feysydd, gan gynnwys – lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol.

Bydd ein cynllun yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Fwy Diogel, sef:

1) Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
2) Mynd i'r afael â throseddau treisgar
3) Mynd i'r afael â throseddau trefniadol difrifol
4) Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

Cawn ein llywio hefyd gan flaenoriaethau ac amcanion y canlynol:

- Asesiad Strategol Gogledd Cymru
- Cynllun Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru (2021-24)
- Strategaeth Bregusrwydd a Cham-fanteisio Gogledd Cymru (2021-24)
- Cynllun Gorchfygu Troseddu'r Swyddfa Gartref (2021)

## Cynllun gwaith ar gyfer y 12 mis nesaf

| # | Gweithred | Allbwn | Canlyniad | Cyfrifoldeb | Amserlen | Cyfrannu tuag at |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Safonau Masnach i weithio ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru ar brosiect atal galwadau ar gyfer unigolion y nodwyd eu bod yn darged neu'n ddioddefwyr galwadau di-wahoddiad. | Atalwyr galwadau yn cael eu prydlesu i ddefnyddwyr a dargedwyd gan alwadau di wahoddiad | Lleihau'r potensial am drosedd | Safonau Masnach yn y ddwy sir Cyswllt: Andrew Lloyd Parry & Catherine Webb | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 2 | Mae Safonau Masnach yn ymateb i wybodaeth gan y tîm Sgamiau Cenedlaethol ar ddioddefwyr sgâm posibl. Mae ymrwymiad i gysylltu â 10 o bobl bob mis sydd wedi cael eu targedu gan sgamwyr i ddarparu gwybodaeth a chyngor. | Unigolion a dargedwyd yn flaenorol yn derbyn cyngor a gwybodaeth felly'n lleihau'r tebygolrwydd o gael eu erlid eto | Gostyngiad mewn dioddefwyr ailadroddus<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth o sgamiau | Safonau Masnach yn y ddwy sir Cyswllt: Andrew Lloyd Parry & Catherine Webb | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| 3 | Bydd Safonau Masnach yn gweithio ochr yn ochr â Heddlu Gogledd Cymru gyda rhaglen archwilio ac ymweliadau wedi'u targedu ag eiddo sy'n gwerthu nwyddau â chyfyngiad oedran. Mae hyn yn ymgais i gyfyngu ar argaeledd cynhyrchion â chyfyngiad oedran (fel alcohol, tybaco a vapes) a all arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol a | Pryniannau prawf mewn sefydliadau lleol i ddeall cydymffurfiaeth â Challenge 25 | Gostyngiad mewn gwerthiant i rai dan oed | Safonau Masnach yn y ddwy sir Cyswllt: Andrew Lloyd Parry & Catherine Webb | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Mwy Diogel**<br><br>**Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

Tudalen 19

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | materion trefn gyhoeddus mewn cymunedau gwledig. | | | | | |
| 4 | Mae Safonau Masnach Ynys Môn yn dymuno addasu a gwella eu perthynas waith gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i greu gwell llwybrau rhannu data. Bydd hyn yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hadnabod ac y gellir darparu cefnogaeth yn ogystal â chyfeirio unrhyw ddioddefwyr posibl at y Gwasanaethau Cymdeithasol. | Gwell arferion gwaith er mwyn cynyddu rhannu gwybodaeth buan | Gwella adnabyddiaeth a helpu i ddarparu ymyrraeth gynnar | Safonau Masnach Ynys Môn<br>Cyswllt: Catherine Webb | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 5 | Safonau Masnach i ganolbwyntio ar rannu 'Pecynnau Masnachwyr' ar draws yr ardal. Mae'r pecynnau'n llawn deddfwriaeth a chanllawiau statudol i fasnachwyr, y mae'n rhaid iddynt eu harwyddo i gadarnhau eu bod wedi darllen a chytuno i'r telerau ac amodau sydd ynddynt. Bydd Gwynedd yn targedu ceir ail law, a bydd Ynys Môn yn canolbwyntio ar fusnesi 'gwella cartrefi.' | Pecynnau masnachwyr yn cael eu rhannu'n lleol fel bod masnachwyr yn ymwybodol o'r deddfwriaeth berthnasol a'i cyfrifoldebau | Sicrhau bod masnachwyr yn gweithredu o fewn y ddeddfwriaeth<br><br>Diogelu defnyddwyr | Safonau Masnach yn y ddwy sir<br>Cyswllt: Andrew Lloyd Parry & Catherine Webb | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 6 | Bydd adran Addysg Ynys Môn yn blaenoriaethu hyfforddiant pellach mewn ysgolion ynghylch aflonyddu rhywiol gan gyfoedion. Mae hyn mewn ymateb i adroddiad Estyn | Creu a gweithredu cynllun gwaith yn nhymor yr Haf mewn ymateb i adroddiad Estyn | Gwell ymwybyddiaeth fel bod athrawon mewn gwell sefyllfa i nodi | Adran Addysg Ynys Môn<br>Cyswllt: Gwyneth Hughes | Tymor yr Haf 2022 | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *"Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru".* Bydd cynllun gwaith yn cael ei roi ar waith i ddechrau yn nhymor yr Haf. | | ac ymyrryd yn gynnar | | | |
| 7 | Mae ysgolion Ynys Môn eto eleni yn cynnal holiadur Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN). Pwrpas hyn yw deall gwahanol agweddau ar amgylchedd yr ysgol a sut maent yn dylanwadu ar iechyd a lles myfyrwyr. Bydd hyn yn gosod cyfeiriad ar hyfforddiant camddefnyddio sylweddau. Bydd llawer o'r gwaith 'Cyffredinol' yn cael ei gyflwyno drwy'r tîm Ysgolion Iach. Fodd bynnag, mae gwaith mwy dwys yn cael ei gynnig gan y Tîm Ieuenctid a'r Gwasanaeth Plant mwy arbenigol. | Dosbarthu holiadur a dadansoddiad o'r atebion a ddarparwyd i lywio gwaith y dyfodol | Gwell dealltwriaeth o les ein disgyblion i gefnogi cynllunio Ymyrraeth fwy buan | Adran Addysg Ynys Môn Cyswllt: Gwyneth Hughes | Tymor yr Haf/Hydref 2022 | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| 8 | Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i weithio ar lety â chymorth ledled y Sir, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar holl feysydd blaenoriaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae hyn wedi bod yn bosibl gyda chyllid Cam 2. Bydd y gefnogaeth | Bydd 4 pod newydd ar gyfer llety dros dro yn weithredol yn fuan, a bydd dull partneriaeth yn cael ei fabwysiadu wrth ystyried pwy sydd wedi'i leoli yn y llety i | Gwasanaethau mewn gwell sefyllfa i ddarparu Cymorth ac ymyrraeth gynnar i unigolion | Adran Tai ac Eiddo Gwynedd Cyswllt: Cerys Williams | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyda'r llety yn darparu cysylltiadau a mynediad i'r holl wasanaethau hanfodol megis Camddefnyddio Sylweddau, y Gwasanaeth Prawf ac Iechyd Meddwl ac ati. Bydd dull partneriaeth yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried pwy sy'n cael ei leoli yn y llety i sicrhau bod y lleoliadau'n llwyddiannus ac nad ydynt yn dod â materion ychwanegol i'r ardal neu risgiau. | sicrhau fod lleoliadau'n llwyddiannus | Llai o gleientiaid ag anghenion cymhleth ac angen cymorth mwy dwys<br><br>Perthynas waith agosach gyda chleientiaid a gweithwyr achos | | | |
| 9 | Mae trafodaethau mewn cyfarfodydd PDC diweddar wedi canolbwyntio ar y defnydd o gocên yn ein cymunedau, a'r cysylltiad â llinellau sirol a cham-fanteisio ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Bydd darn o waith parhaus yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth rhwng partneriaid a chymunedau. | Gweithio ochr yn ochr â'r APB / Grŵp Strategaeth Alcohol Gogledd Cymru i greu ymgyrch ymwybyddiaeth leol<br><br>Rhannu posteri lleol gydag aelodau Pubwatch | Mwy o ymwybyddiaeth o realiti ac effaith defnydd hamdden/achlysurol o gocên<br><br>Cyfrannu at Gynllun Cyffuriau 10 Mlynedd y Llywodraeth | PDC | Q1 2022 a thu hwnt | **Blaenoriaeth 3 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 10 | Mewn ymateb i'r Proffil Cymunedol diweddaraf, mae Fforwm TCD (Trosedd Cyfundrefnol Difrïol) newydd wedi'i sefydlu ar draws y ddwy Sir. Mae hyn yn cael ei arwain gan yr Heddlu, ond bydd | Cynrychiolaeth briodol o bob asiantaeth yn y cyfarfod aml-asiantaethol, pob asiantaeth & adran i roi | Gweithredu cynllun TCD 4P aml-asiantaeth lleol | Heddlu Gogledd Cymru Cyswllt: Llinos Davies | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn | **Blaenoriaeth 3 ar Gynllun Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | asiantaethau a gwasanaethau allweddol yn cymryd rolau arweiniol yn y dull 4P a fydd yn sail i'r strwythur cyfarfodydd. | mewnbwn i'r gwaith lleol yma | | | cyfarfod PDC chwarterol | |
| 11 | Mae gan holl aelodau'r bartneriaeth rai cyfrifoldebau mewn perthynas â rhaglen *Atal* y Swyddfa Gartref (radicaleiddio mewn perthynas â gweithgaredd terfysgol). Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn hon o ran datblygu a gwella cynlluniau/hyfforddiant/gofynion Sianel gyfredol. Bydd y gwaith yn golygu gweithio'n agos gyda chynghorydd rhanbarthol newydd y Swyddfa Gartref. | Diweddaru cynllun Atal Trefnu sesiynau hyfforddi Prevent ar gyfer staff A.LL Adolygu trefniadau Sianel | Cyfrannu at Gynllun Gweithredu Bwrdd CONTEST rhanbarthol<br><br>Cyfrannu at ganlyniadau SG Atal o leihau radicaleiddio | PDC / Adrannau perthnasol Awdurdod Lleol | Q1 2022 a thu hwnt | **Cynllun Atal y Swyddfa Gartref**<br><br>**Cynllun Bwrdd CONTEST Rhanbarthol** |
| 12 | Paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Diogelu newydd a ddisgwylir yn yr 18 mis nesaf. | Ymwybyddiaeth o unrhyw ddatblygiadau yn statws y ddyletswydd Pan yn amserol gweithio gyda grwpiau PSPG yn y ddwy sir i weithredu'r ddyletswydd yn lleol | Yn gallu cyflawni ein cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Diogelu newydd<br><br>Cyfrannu at Gynllun Gweithredu Bwrdd CONTEST rhanbarthol | PDC / Grwpiau Parodrwydd Diogelwch Amddiffynnol (PSPG) yn y ddwy Sir | Drwy gydol 2022-23 a thu hwnt | **Dyletswydd Diogelu'r Swyddfa Gartref**<br><br>**Cynllun Bwrdd CONTEST Rhanbarthol** |

Tudalen 23

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Mae Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol yn ei le. Agweddau o'r cynllun gwaith rhanbarthol camddefnyddio sylweddau a fydd yn gwella gwasanaethau yng Ngwynedd ac Ynys Môn –<br><br>1) Un o flaenoriaethau'r BCA (Bwrdd Cynllunio Ardal) a adnabuwyd ar gyfer 22/23 yw'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau merched yn unig. Mae'n bosibl na fydd menywod yn teimlo'n gyfforddus yn mynychu Grwpiau Adfer/Cyfoedion gyda dynion yn bresennol – yn enwedig os ydynt wedi profi unrhyw fath o gamdriniaeth neu drais. Bydd y BCA yn edrych ar sut y gallwn ddatblygu darpariaeth grŵp i allu cynnig Grwpiau Merched yn unig ar draws GC– wyneb yn wyneb a/neu ar-lein.<br>2) Un o'r meysydd ffocws allweddol fydd cynllun gweithredu cyd-ddigwydd | Mae anghenion lleol mewn perthynas â gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn cael eu cytuno gan y Bwrdd Rhanbarthol – gan gynnwys sicrhau cyllid i'w rhoi ar waith<br><br>Mae'r holl weithredoedd a nodir yn cael eu rhoi ar waith yn lleol | Mae pob datblygiad yn cyfrannu at ddeilliannau'r cynllun rhanbarthol | Rhiannon Mair | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (*co-occuring)* Gogledd Cymru sydd wedi'i ddiwygio a'i adnewyddu a'i alinio â nifer o gynlluniau LLC. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys sefydlu grŵp Gweithredu Cyd-ddigwydd i oruchwylio'r cynllun ochr yn ochr â phartneriaid a fydd yn cael eu harwain gan y trydydd sector. Aelodaeth i gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i Fwrdd Partneriaeth T4MH, Is-adran Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, Awdurdodau Lleol, Caniad a'r sector gwirfoddol.<br>3) Mae'r defnydd o BUVIDAL yn parhau i fod yn effeithiol gyda chanlyniadau cadarnhaol. Sicrhawyd stoc o feddyginiaeth Buvidal ar gyfer 2021/22 ar gyfer Bwrdd Iechyd PBC. Cafwyd nifer o ddeilliannau cadarnhaol iawn a'r nod yw annog cyflwyno ymhellach ymhlith gwasanaethau rhagnodi eraill megis Dechrau Newydd a Charchar y Berwyn. | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4) Datblygu panel adferiad preswyl rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Yn ystod Ch3 21-22 ymwelodd staff BCA a BIPBC â chanolfannau adsefydlu i ddeall y ddarpariaeth a'r broses atgyfeirio yn well. Y camau nesaf yw cyfarfod â defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cwblhau lleoliadau adsefydlu. Bydd porth *Rehab Cymru* yn cael ei ailadeiladu er mwyn helpu i symleiddio'r gwaith papur ar gyfer gweithwyr allweddol, unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, bydd cynllun peilot ar gyfer y panel rhanbarthol yn cael ei drefnu.<br>5) Mae hyfforddiant naloxone a naloxone trwynol ar gyfer swyddogion yr heddlu GC a fynegodd ddiddordeb wedi'i gyflwyno ledled Gogledd Cymru. Mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i reoli stoc a hyfforddiant yn rheolaidd. | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6) Ffocws ar ddatblygu Grwpiau Cefnogi Cyfoedion / Adferiad - yn arbennig ar gyfer Merched a Phobl Ifanc ac mewn ardaloedd gwledig.<br>7) Arian ychwanegol i gefnogi pobl ifanc – a bydd yn edrych i ddatblygu darpariaeth/adeiladu gallu i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn well. | | | | | |
| 14 | Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal wedi datblygu Strategaeth 4 blynedd Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru. Byddwn yn parhau i gefnogi cyflawni hyn yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys nifer o ymgyrchoedd posib, gan gynnwys ymgyrch galw tymhorol i dargedu ymwelwyr yn ystod yr Haf. | Awdurdodau Lleol i fabwysiadu'r cynllun lleihau niwed alcohol rhanbarthol<br><br>Presenoldeb mewn cyfarfodydd grŵp rhanbarthol i nodi tasgau a gweithredu'n lleol | Yn ystod y flwyddyn – yn dibynnu ar ba gynlluniau y gellir eu cyflawni, gwneir cyfraniad at ganlyniadau'r cynllun rhanbarthol – uchelgais hirdymor yw hwn – cynllun 4 blynedd | PDC / Daron Owens | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 15 | Byddwn yn sicrhau bod y cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal adolygiadau dynladdiad domestig (DHRs) yn cael eu cwblhau'n briodol. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu sicrhau bod paneli adolygu priodol, cadeiryddion ac | Comisiynu paneli adolygu, cadeiryddion ac awduron ar gyfer y DHRs | Mae'r cyfrifoldebau a roddir ar y PDC o ran cynnal Adolygiadau DHR yn cael eu cwblhau'n briodol. Cynllun gweithredu mewn lle | PDC / Mannon Trappe & Daron Owens | Parhaus | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | awduron yn cael eu comisiynu a bod adroddiadau adolygu terfynol yn cael eu cyflwyno a'u derbyn gan y Swyddfa Gartref. | Ymgymryd a DHR a chyflwyno i'r Swyddfa Gartref | i ymateb i argymhellion – gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella gwasanaethau i'r dyfodol | | | |
| 16 | Un o'r blaenoriaethau ar gyfer y cynllun newydd fydd ceisio bodloni ein hunain ein bod yn gwneud digon i gyfleu negeseuon i'r cyhoedd o ran VAWDASV. Ein ffocws parhaus fydd pwyso a mesur ein cynnydd o ran hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth, a negeseuon/ymgyrchoedd. Bydd y gwaith hwn yn unol â'r Strategaeth VAWDA SV ddiwygiedig. | Cyswllt gyda'r adran Gyfathrebu i weld pa wybodaeth sydd wedi'i rannu'n flaenorol ac i nodi unrhyw fylchau / adnoddau pellach | Mwy o ymwybyddiaeth ac argaeledd gwybodaeth am wasanaethau cymorth VAWDASV | PDC / Daron Owens | Q1 2022 a thu hwnt | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 17 | Monitro cynnydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu - Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel sy'n ofynnol yn Neddf Cam-drin Ddomestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. | Parhau i gyflwyno'r pecyn hyfforddi<br><br>Cyswllt gyda'r Swyddog Datblygu Hyfforddiant Rhanbarthol ac adrannau hyfforddiant perthnasol i fonitro cynnydd | Gwell ymwybyddiaeth mewn Awdurdodau Lleol o gam-drin domestig i alluogi cyfeirio effeithiol at wasanaethau cymorth | Adrannau hyfforddiant y ddwy sir/ Daron Owens | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | Mae trais yn y cartref yn parhau i fod yn faes gwaith blaenoriaeth i'r heddlu gyda mentrau pwrpasol yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.<br><br>Mae hyfforddiant materion trais yn y cartref yn dal i gael ei gyflwyno ar draws Heddlu Gogledd Cymru i'r holl weithlu er mwyn cynyddu dealltwriaeth o natur gymhleth cam-drin domestig. | Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a mentrau i'w cynnal gan yr Heddlu<br><br>Cyflwyno hyfforddiant i'r holl weithlu | Mwy o ymwybyddiaeth ac argaeledd gwybodaeth am wasanaethau cymorth trais yn y cartref i'r cyhoedd ac ar draws yr Heddlu | Heddlu Gogledd Cymru / Llinos Davies | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 19 | Bydd ffocws arbennig gan yr Heddlu ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched eleni gyda gweithrediadau ar y cyd ochr yn ochr â safleoedd trwyddedig ac awdurdod trwyddedu. | Cydweithrediad rhwng yr Heddlu a Trwyddedu | Gostyngiad mewn troseddau sy'n gysylltiedig ag economi'r nos | Heddlu Gogledd Cymru / Llinos Davies | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 20 | Bydd yr heddlu yn sicrhau mwy o weledledd ar y strydoedd yn enwedig ym Mangor ac ardaloedd o amgylch y Brifysgol | Mwy o batrolau gan yr Heddlu o amgylch yr ardaloedd hyn | Presenoldeb gweladwy mewn ardaloedd problemus<br><br>Cynyddu teimladau o ddiogelwch ar y stryd i fyfyrwyr a'r cyhoedd | Heddlu Gogledd Cymru / Llinos Davies | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel**<br><br>**Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

Tudalen 30

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | Paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol (i'w chyflwyno yn ystod y 18 mis nesaf). Rhannu gwybodaeth a chynllunio gydag adrannau perthnasol. | Datblygu asesiad anghenion rhanbarthol yng Ngogledd Cymru i nodi baich a thueddiadau trais yn y rhanbarth<br><br>Ymateb i'r asesiad anghenion yn ôl yr angen ar ffurf strategaeth penodol | Partneriaid yn ymwybodol o gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd ac mewn sefyllfa well i gyflawni pan ddaw i rym | PDC / Daron Owens | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 22 | Bydd ymchwiliadau troseddau casineb yr heddlu yn cael eu rheoli trwy fyrddau Safonau Ymchwilio'r Gorllewin. | Ymchwiliadau yn cael eu rheoli drwy fyrddau Safonau Ymchwilio'r Gorllewin | Lefel gwell o wasanaeth a chanlyniadau ymchwiliadau i ddioddefwyr troseddau casineb | Heddlu Gogledd Cymru / Llinos Davies | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 23 | Mae troseddau casineb wedi cynyddu'n sylweddol yn y ddwy sir ac mae llawer o hyn yn deillio o'r tensiynau o gyfyngiadau Covid/teithio ac ail gartrefi. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, dyma fydd un o flaenoriaethau'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn y cynllun newydd o ran deall yn well y mathau o | Trefnu cyflwyniad gan yr Uned Amrywiaeth yng nghyfarfod nesaf y PDC<br><br>Trafod y data troseddau casineb diweddaraf gyda'r dadansoddwr fel bod | Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddigwyddiadau troseddau casineb yn ein hardal i hwyluso cynllunio | Heddlu Gogledd Cymru/ Llinos Davies & David Haydock PDC / Daron Owens | Q1 2022 a thu hwnt | **Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Mwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ddigwyddiadau yr ydym yn eu gweld yn ein hardal, yr adeg o'r flwyddyn ac ati. Bydd hyn yn golygu cydweithrediad gyda'r tîm Cydlynant Cymunedol Gogledd Orllewin. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o effaith ein poblogaeth bron yn dyblu gyda nifer yr ymwelwyr yn ystod misoedd yr Haf, a'r effaith y gall hyn ei gael ar ein data lleol. | unrhyw dueddiadau'n cael eu nodi<br><br>Cefnogaeth i unrhyw ymgyrchoedd/mentrau gan y tîm Cydlyniant Cymunedol | | Cydlynant Cymunedol / Tony Jones | | |
| 24 | Bydd yr Heddlu'n defnyddio fan weledig symudol yn ystod misoedd yr Haf i wella presenoldeb plismona bro mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan ymddygiad gwrthgymdeithasol a mwy o densiwn cymunedol o ganlyniad i gynnydd yn y boblogaeth dymhorol. | Lleoli fan mewn ardaloedd a nodwyd | Gwell presenoldeb mewn ardaloedd problemus<br>Cynyddu teimladau o ddiogelwch | Heddlu Gogledd Cymru / Llinos Davies | Haf 2022 | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Mwy Diogel** |
| 25 | Bydd yr heddlu'n cynnal mentrau atal mewn meysydd carafanau dros gyfnod yr Haf oherwydd bod lleoliadau o'r fath yn fan problemus ar gyfer troseddau rhywiol ac adrodd domestig dros gyfnod yr haf. | Gwaith paratoi yn y cyfarfodydd twristiaeth a lleihau galw tymhorol gan yr Heddlu<br><br>Nodi meysydd carafanau perthnasol | Cefnogi gwaith atal ar gyfer troseddau rhywiol a domestig<br>Gostyngiad mewn troseddu o'r fath | Heddlu Gogledd Cymru / Llinos Davies | Haf 2022 | **Blaenoriaeth 2 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Trefnu a chynnal ymweliadau yn y safleoedd hyn | | | | |
| 26 | Cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynlluniau Rheoli Troseddwyr Integredig Rhanbarthol ac Is-ranbarthol | Presenoldeb mewn cyfarfodydd rhanbarthol<br><br>Camau gweithredu a nodwyd yn cael eu rhoi ar waith yn lleol | Amcanion wedi'i gyflawni'n lleol | Daron Owens i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol ac adrodd yn ôl | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Cynllun IOM Rhanbarthol** |
| 27 | Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn parhau i gyflwyno rhaglen ymyrraeth ieuenctid Phoenix. | Parhau i gyflwyno'r rhaglen ymyrraeth yn y rhanbarth | Gostyngiad mewn tanau/YGG<br>Gostyngiad yn nifer y troseddwyr ailadroddus | GTAGC / Paul Jenkinson | Drwy gydol 2022-23. Yn cael ei fonitro mewn cyfarfod PDC chwarterol | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |
| 28 | Rydym yn bwriadu gweithio ar gais Strydoedd Mwy Diogel i Gaergybi yn ystod rownd 4 y Gronfa gan y Swyddfa Gartref. | Paratoi cais wrth weithio ar y cyd rhwng yr Heddlu ac adrannau perthnasol y Cyngor<br><br>Cyflwyno'r cais terfynol | Os yn llwyddiannus - galluogi'r awdurdod lleol i roi amrywiaeth o offer atal trosedd ar waith a chynyddu teimladau'r cyhoedd o ddiogelwch | Heddlu Gogledd Cymru & PDC / Daron Owens | Q1 2022 a thu hwnt os yn llwyddiannus | **Blaenoriaeth 1 ar Gynllun Gogledd Cymru Mwy Diogel**<br><br>**Blaenoriaeth 4 ar Gynllun Gogledd Cymru Fwy Diogel** |

**Cronfa Safer Streets 4**

Darperir y Gronfa Safer Streets gan y Swyddfa Gartref. Mae'n caniatáu i heddluoedd ac awdurdodau lleol fuddsoddi mewn mentrau atal trosedd.

Yn ystod rownd 4 o'r cyllid eleni, buom yn llwyddiannus yn ein cais ar gyfer canol tref Caergybi. Roedd y cyllid y tro hwn yn canolbwyntio ar ymyriadau wedi'u hanelu at:

- troseddau cymdogaeth
- ymddygiad gwrthgymdeithasol
- trais yn erbyn merched a merched
- gwella diogelwch mannau cyhoeddus i bawb

Cyfanswm y cyllid Safer Streets o fewn y cais llwyddiannus yng Nghaergybi oedd £692,148.51. Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni erbyn 30 Medi 2023.

<u>Enghreifftiau o'r gwaith a fydd yn cael ei gwblhau yng Nghaergybi fel rhan o'r prosiect:</u>

- Gwelliannau i oleuadau o amgylch canol y dref – (gosod 54 o oleuadau stryd LED golau dydd llachar newydd drwy'r dref a gosod 50 o oleuadau LED newydd ar y Bont Geltaidd)
- Newidiadau ffisegol i'r amgylchedd (ffens a rhwydi newydd ar gyfer y Bont Geltaidd)
- Gosod 21 o gamerâu teledu cylch cyfyng newydd mewn ardaloedd a nodwyd fel rhai problemus, ac uwchraddio systemau'r ganolfan hamdden.
- Gwersi ffitrwydd a hunanamddiffyn am ddim gan yr Awdurdod Lleol i ferched a darparu offer campfa a dosbarthiadau i ferched yn Ysgol Uwchradd Caergybi.
- Darparu pecynnau atal trosedd i helpu i atal troseddau VAWG (Trais yn erbyn Menywod) a throseddau cymdogaeth (gan gynnwys larymau, cloeon, stopwyr diodydd).
- Darparu llochesi ieuenctid a mwy o waith allgymorth ieuenctid.
- Darparu cabiau diogel a hafanau diogel gan gynnwys darparu systemau teledu cylch cyfyng mewnol ar gyfer 120 o dacsis.
- Datblygu a darparu pecynnau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer gyrwyr tacsis, gyrwyr bysiau a siopau takeaways.
- Patrolau heddlu mwy gweladwy ar benwythnosau.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
# Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 23 Tachwedd 2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2021-22 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi Diweddariad Blynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Dylan Rees |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng Gary Pritchard – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Cyng Alun Roberts – Gwasanaethau Oedolion |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fon Roberts- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Emma Edwards – Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br>Emaedwards@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/ion**

**A1** Mae'r Pwyllgor yn cadarnhau'r gwaith y mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud

**A2** Nodi cynnydd yn 2021-22 ar y meysydd gwaith sy'n cael ei datblygu'n rhanbarthol drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gynnal cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer pobl sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

Hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2021-22. Yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi, cyhoeddi a chyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru (Atodiad 1).

Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid am Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2021-22.

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

Diben Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn narpariaeth gwasanaethau. Gellir felly disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles.
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw amlinellu'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Ranbarthol wedi ei wneud ac edrych ar sut y mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

Y risg yw sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Nid oes gan y Byrddau ffynonellau cyllid dynodedig ac mae eu gweithgareddau yn cael eu cyllido ar hyn o bryd gan gymysgedd o gyllid yr awdurdod lleol wedi'i gyfuno a brigdorri cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

Gweler Atodiad 1

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

- A oes unrhyw feysydd o eglurhad pellach ynglŷn â rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- I ba raddau y mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei flaenoriaethau allweddol yn ystod 2021-22
- Pa flaenoriaethau allweddol fydd yn ffocws i'r Bwrdd Rhanbarthol o 2022/23 ymlaen?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

5.1. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

5.2. Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac roedd y Byrddau i ddefnyddio'r canllaw hwn ar gyfer cwblhau ei adroddiad. Mae'r adroddiad atodedig yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd yn ofynnol ei chynnwys yn y Canllawiau hynny. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i ysgrifennu mewn fformat sy'n cyfleu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol. Mae’r adroddiad hefyd yn cynnwys barn nifer o aelodau’r Bwrdd.

5.3. Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae’n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i’r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

5.4. Mae Rhan 9 o’r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae’r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.

5.5. Diben Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn

- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

5.6. Pwrpas yr adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud ac mae'n ystyried sut mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Does dim Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Yn 2021-22, mae dyfarniad cyllidebau a grantiau partneriaeth i'r Bwrdd, wedi gallu ariannu rhai gweithgareddau'r Bwrdd a thalu aelodau ychwanegol o staff i reoli ffrydiau gwaith y Bwrdd gan ddefnyddio'r cyllid hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid grant rhanbarthol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol e.e. y Gronfa Gofal Integredig, Grantiau Darparu Trawsnewid. Mae partneriaid yn cytuno ar ddefnydd y grantiau ac yn cytuno ar y cyd ar gapasiti pobl ranbarthol sydd ei angen i ddarparu ei raglenni.

**8 – Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**


Dim papurau cefndir eraill.

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Adroddiad Blynyddol
## 2021/22




Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Cynnwys


Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC) 3

1. Llywodraethu'r Partneriaethau 4
2. Diweddariad cyffredinol ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Ardal 11
3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol 21
4. Edrych tuag at y Dyfodol 24

**Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru** 25

**Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol** 27




## Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)

Mary Wimbury, Prif Weithredwr,
Fforwm Gofal Cymru



Fel Cadeirydd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad 21/22 sy'n dangos y cynnydd a wnaed ar draws y rhanbarth.

Bu hon yn flwyddyn heriol arall i'r Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Clywais ddweud droeon ein bod bellach mewn cyfnod o adferiad, ond gwahanol iawn fu'r realiti i'n partneriaid sydd dal i orfod delio â phroblemau dyddiol yn sgil Covid. Ni ellir bychanu'r effaith ar ein gweithlu a'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau, a bu'n ystyriaeth allweddol yn ein gwaith partneriaeth.

Rwy'n eithriadol o falch o'r gwaith a gyflawnwyd o dan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er y pwysau difrifol. Mae'r Rhaglen Trawsnewid a'r Gronfa Gofal integredig (CGI) wedi parhau i ffynnu, a gwnaed cynnydd ffantastig yn ystod blwyddyn olaf y ddwy raglen.

Roedd yn bleser cael derbyn y gwerthusiad o'r gwaith a wnaed, a oedd yn dangos cymaint yr ydym wedi llwyddo i'w gyflawni trwy gydol cyfnodau'r rhaglenni hyn, ynghyd â'r gwahaniaeth y maent wedi'i wneud i bobl Gogledd Cymru.

Rydym bellach yn mynd i gyfnod newydd gyda'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol 5 mlynedd yn ysgogi newid a thrawsnewid ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â Chronfa Gyfalaf Tai â Gofal 4 blynedd a Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso 3 blynedd. Bydd y cyllid gwarantedig yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni drawsnewid ac integreiddio'r system yn y tymor hir ledled Gogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r heriau'n parhau o fewn y sector: yn enwedig cadw a recriwtio ein gweithlu. Fel Bwrdd, rydym wedi gwneud cynnydd o safbwynt ymrwymo pob partner o amgylch y bwrdd - ond mae llawer i'w wneud eto.

Hoffwn ddiolch i'r holl bartneriaid am eu cefnogaeth barhaus ar gyfer gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ynghyd ag i'r Tîm Cydweithredol Rhanbarthol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Dymuniadau gorau - Mary Wimbury.

# 1. Llywodraethu'r Bartneriaeth

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn nodi pwrpas, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n amlinellu datblygiad allweddol y bartneriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â chynnydd o ran gweithredu newidiadau yn y Canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

## 1.1 Pwrpas, Rôl, Aelodaeth, Strwythur Gweithredu a Blaenoriaethau Allweddol

Sefydlwyd **Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru** fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (DGCLlC) i:

- Wella lles y boblogaeth
- Gwella'r modd y cyflenwir gwasanaethau iechyd a lles

Rydym yn dod ag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaid eraill ynghyd i gydlynu gwaith parhaus i drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar draws y rhanbarth.

Mae BPRhGC yn cyfarfod yn fisol, ac mae wedi parhau i wneud hynny trwy gydol y pandemig. Cynhaliwyd y cyfarfodydd llwyddiannus hyn yn rhithiol gyda chyfleusterau cyfieithu, sydd wedi sicrhau ymgysylltiad parhaus ar gyfer aelodau.

### Datganiad o Weledigaeth

Cydweithio i wella iechyd a lles pobl a chymunedau

### Egwyddorion Arweiniol

Cytunodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ei egwyddorion arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac mae'r rhain yn parhau i fod yn addas i'r diben:

- Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy'n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio orau yn effeithiol;
- Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau cydlynol sy'n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau);
- Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw'n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau o ansawdd uchel yn y gymuned;
- Ymgorffori cyd-gynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a'u cymunedau lunio'r gwasanaethau;
- Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

## 1.2 Rôl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adolygir Gylch Gorchwyl BPRhGC yn flynyddol, fodd bynnag, rôl hanfodol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fydd:

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Chymru Iachach
- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi'u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy
- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion y Bwrdd
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni ei amcanion
- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, gan uwchgyfeirio unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn eu datrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Rheolir busnes y Bwrdd a busnes yr is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol.

Cafodd strwythur llywodraethu'r Bwrdd ei ffurfioli ym mis Ionawr 2021 ac mae'r strwythur i'w weld isod. Adolygwyd ein cylch gorchwyl ym mis Tachwedd 2020. Mae aelodau'r Bwrdd (ar ddiwedd mis Mawrth 2021) i'w gweld yn Atodiad 1.

**Stori Gwenda**


Mae Gwenda yn ddynes 90 oed sy'n gofalu am ei gŵr 92 oed. Bu'r ddau'n briod am 70 mlynedd ac mae ei gŵr yn dioddef o ddementia erbyn hyn. Mae hi'n ei gadw'n brysur ac yn ei annog cymaint â phosib trwy ddarllen y papurau newydd dyddiol a mynd am dro i fyny a lawr eu dreif, ac mae'n disgrifio ei gŵr fel ei "holl fyd".

Bu Gwenda'n pryderu'n ddiweddar am y modd y gellir gofalu am ei gŵr pe bai ei hiechyd ei hun yn dechrau dirywio. Mae'r pryderon hyn wedi dwysau gan ei bod i fod i gael llawdriniaeth fawr.

Trafododd ei phryderon yn helaeth gan ddweud efallai y bydd angen i'w gŵr fynd i ofal yr awdurdod lleol ar ryw adeg. Roedd ei Gweithiwr Cefnogi hefyd wedi trafod y posibilrwydd o wneud cais am becyn gofal i gynnal annibyniaeth am gymaint o amser â phosib.

Roedd Gwenda wirioneddol yn gwerthfawrogi'r amser a'r cyfle i rannu ei meddyliau a'i phryderon mewn lle cyfrinachol, dywedodd "*diolch i chi am wrando arna i*".

Mae BPRhBC yn cydnabod rôl allweddol gofalwyr o bob oed yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol, a bod angen eu gwerthfawrogi am y gefnogaeth a ddarperir ganddynt. Mae'r bwrdd hefyd yn cydnabod bod angen eu cefnogi yn y rôl hanfodol hon.




## 1.3 Datblygu Partneriaethau Allweddol

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu dros y 12 mis diwethaf, er y pandemig sy'n parhau.


Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu partneriaeth, lle'n bosibl, rydym wedi cymryd rhan ym mhob un o ddigwyddiadau dysgu Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd gyda'r Gweinidog.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu ymateb lleol a rhanbarthol cydlynol i anghenion lles unigolion.

Lle'n bosibl, cafodd gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei hyrwyddo a'i arddangos ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Rydym wedi gweithio'n helaeth â Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ar ddatblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), y Gronfa Tai â Gofal (HCF) a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF).

Mae'r tîm rhanbarthol a phartneriaid wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, ac maent yn parhau i wneud hynny.




## 1.4 Fforwm Mwy Na Geiriau

Nod Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn eu mamiaith, heb orfod gofyn am hynny. Mae hyn yn arwain at well gwasanaeth a chanlyniadau ar gyfer ein poblogaeth, gan fod derbyn gwasanaeth yn yr iaith gywir yn rhywbeth y mae ar bobl ei angen.

I gyflawni hyn, nod y fforwm yw dwyn ynghyd pob partner allweddol yn y maes i rannu arferion da, i weithio gyda'i gilydd ac i ddatrys rhwystrau, a dod yn grŵp lle gall pob arweinydd ddefnyddio hyn i gyd i gefnogi'r agenda hanfodol hon ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn dilyn y pandemig Covid-19, roedd cyfle eleni i ailddechrau cynnal cyfarfodydd ffurfiol y Fforwm. Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys cyflwyniadau diddorol, yn ogystal â thrafodaethau defnyddiol mewn perthynas â rhannu arferion da ac ati.

Mae'r cynnydd o safbwynt yr agenda'n dda, gyda phob aelod o'r Fforwm yn gweithio tuag at ymgorffori gweledigaeth Mwy Na Geiriau o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae argaeledd cyrsiau hyfforddiant yn dda, ac mae nifer o ddulliau digidol ar gael i gefnogi staff.

## 1.5 Cynnydd o ran gweithredu newidiadau i'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig

Mae BPRhGC yn gweithredu'n unol â'r canllawiau Rhan 9 diwygiedig.

Ar ôl derbyn diweddariad Codau a Chanllawiau Rhan 9 yn Ionawr 2020, diweddarwyd Cylch Gorchwyl BPRhGC i adlewyrchu gofynion y canllawiau

diwygiedig.

Sefydlwyd Is-grŵp Plant sy'n adrodd i'r BPRhGC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Ionawr 2022.


Pwrpas y grŵp yw:

- Darparu cyfeiriad strategol yng nghyswllt cefnogi teuluoedd a chanddynt anghenion o ran iechyd a gofal cymdeithasol ar draws y rhanbarth.
- Gwella integreiddiad a chydweithrediad ar lefel ranbarthol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau plant ac addysg, a rhyngddynt.
- Sicrhau bod plant a theuluoedd ag anghenion gofal a chymorth cymhleth yn derbyn cymorth di-dor ac integredig sy'n eu helpu i gyflawni beth sy'n bwysig iddynt.
- Gwella canlyniadau i blant a sicrhau bod gweithgareddau a gyflenwir ar draws y rhanbarth yn cefnogi'r dyhead hwn.
- Cefnogi camau ataliol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gwaethygu.

Bydd gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Bwrw ymlaen a'r blaenoriaethau a gytunwyd gan y BPRh mewn perthynas â phlant a theuluoedd, h.y. rhoi camau allweddol ar waith sy'n deillio o'r Asesiad Poblogaeth, y Cynllun Ardal, a chynlluniau strategol allweddol partneriaid.
- Datblygu ymagwedd strategol a rennir ynghyd â chynllun gweithredu rhanbarthol sy'n cynnwys set o flaenoriaethau a rennir sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd, gyda'r nod o weithio i'w cyflawni.
- Datblygu a gweithredu ymagwedd integredig, yn seiliedig ar asedau o safbwynt y system gyfan, ar draws meysydd iechyd, gofal ac addysg, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â blaenoriaethau'r grŵp.
- Canfod dulliau creadigol ac integredig ar lefel ranbarthol o ran gweithredu a chyflenwi gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, ac i atal plant rhag dod yn blant 'sy'n derbyn gofal'.
- Datblygu a phennu cynigion o ran buddsoddiad ar gyfer prosiectau a rhaglenni rhanbarthol, er mwyn darparu yn ôl yr ymagwedd a'r blaenoriaethau strategol ar lefel ranbarthol.
- Monitro rhaglenni ariannu sy'n cefnogi'r agenda hon a chanfod cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad ariannol a chynaliadwyedd ariannol lle'n briodol.
- Gweithredu fel y mecanwaith ar gyfer deall yr hyn a ddysgir sy'n cael ei rannu ar draws pob rhaglen waith berthnasol ledled y rhanbarth, sy'n anelu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae gennym Fwrdd Comisiynu Rhanbarthol hirsefydlog o fewn y rhanbarth sy'n cael ei ategu gan gytundeb partneriaeth a'i ariannu gan bartneriaid. Mae'r rhaglen waith yn cyd-fynd â gwaith y Byrddau Trawsnewid, ac yn nodi lle y gallai ychwanegu gwerth / cefnogi'r agenda drawsnewid.




## Y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol wedi parhau i gefnogi darpariaeth Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Gogledd Cymru, yn ogystal â sicrhau darpariaeth i gefnogi strategaethau, agendâu a blaenoriaethau cenedlaethol ynghyd â'u hyrwyddo.

Cefnogwyd ymgyrch genedlaethol Gofalwn ('WeCare') i ddenu, recriwtio a chadw gweithwyr gofal, trwy gyfrwng nifer o dechnegau gwahanol. Mynychwyd amryw ddigwyddiadau ar-lein gennym a drefnwyd gan bartneriaid i wneud y gorau o gyfleoedd i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes Gofal Cymdeithasol, ynghyd â chymorth ac adnoddau Gofalwn.

Crëwyd deunydd newydd hefyd i gefnogi camau i hyrwyddo'r gwaith. Cafodd 21 o fideos eu creu o astudiaethau achos, a rannwyd ar amryw blatfformau cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â mewn cyflwyniadau, a hefyd gyda gwahanol bartneriaid fel Gyrfa Cymru, DWP a Cymru'n Gweithio. Fe gafodd fideos eu coladu hefyd i gefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyda neges unwaith eto i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector. Arbrofwyd â phodlediadau, gyda thîm Gofalwn Cymru'n cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn podlediad lleol a redwyd gan Llwyddo'n Lleol i hyrwyddo gweithio yn y sector i gynulleidfa wahanol. Caiff cylchlythyrau eu rhyddhau'n chwarterol i ddarparwyr erbyn hyn hefyd, i hyrwyddo maes Gofalwn ac i amlygu gwahanol negeseuon i ddarparwyr.

Rydym hefyd wedi treialu Mentor Cyflogadwyedd Camu i Waith i weithio gyda'r rheiny sy'n chwilio am waith neu sydd eisiau newid gyrfa. Ceir cyfleoedd i gael lleoliadau gwaith o fewn lleoliadau gofal cymdeithasol i weld p'un a yw gyrfa mewn gofal yn addas iddynt hwy, ac i ddileu unrhyw rwystrau y gallant eu hwynebu yn ystod y lleoliad. Ar ddiwedd y lleoliad, y gobaith yw y byddant yn cael cyflogaeth

gyda'r darparwr a ddarparodd y lleoliad hwnnw, neu o fewn y sector gofal.

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau o safbwynt Gwaith Cymdeithasol Plant wedi canfod camau allweddol ac wedi'u rhoi ar waith i ddatrys yr heriau a'r rhwystrau hyn. Testun sylw'r gwaith hwn oedd y Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol, sgiliau i sicrhau parodrwydd i weithio, ynghyd â'r cymorth a roddir i ymarferwyr yn ystod eu tair blynedd gyntaf. Bu'r grŵp yn edrych hefyd ar y tâl a'r telerau a gynigir ledled Cymru, a gwnaeth argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch mynd i'r afael â'r gwahaniaethau o ran tâl fel mater cenedlaethol.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Gweithlu wrthi'n gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i fynd i'r afael â'r materion allweddol yng nghyswllt recriwtio a chadw gweithwyr yn y sector ar hyn o bryd. Rhoddir sylw arbennig i ofynion cofrestru, lefelau tâl ac amodau a thelerau yn y sector, er mwyn dylanwadu ar drafodaethau a phenderfyniadau mewn perthynas â'r agweddau allweddol hyn ar lefel genedlaethol.

## 2. Diweddariad cyffredinol ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Ardal

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol, cyflwynir y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion allweddol yn y cynllun ardal a'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio, yn unol â'r cyfarwyddyd Rhan 9, gan gynnwys y canlyniadau a gyflawnwyd ar ran defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr. Mae'n ymdrin yn benodol â'r grwpiau blaenoriaeth a bennwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ystod 2021-22 parhaodd y Bwrdd i ddatblygu ei ddulliau o ran gwasanaethau integredig ar gyfer ei feysydd blaenoriaeth.

### 2.1 Cynllun Ardal Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Ardal yn pennu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac mae hyn yn gosod y cyfeiriad i'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Ardal yn nodi sut y bydd y rhanbarth yn mynd i'r afael â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sef yr edefyn aur sy'n dal i gysylltu meysydd gwaith penodol yn y rhanbarth.

### 2.2 Cymru Iachach

Arweiniwyd rhaglen trawsnewid "Cymru Iachach" gan Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru. Mae'r gydweithredfa yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r chwe Awdurdod Lleol yn Rhanbarth Gogledd Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir y Fflint.

Roedd rhaglen trawsnewid Gogledd Cymru'n cynnwys 4 rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth:

- Trawsnewid gwasanaethau cymunedol.
- Ymyrraeth gynnar integredig a chefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc.
- Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu.
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru.

Er eu bod yn amrywio yn nhermau eu grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, roedd gan y pedair rhaglen nodau cyffredin:

- Darparu ymyrraeth gynnar a gofal ataliol i helpu pobl neu deuluoedd barhau i fyw yn eu cartref arferol, ynghyd â'u cefnogi i gadw'n annibynnol am gyn hired ag y bo modd.
- Gwella profiad pobl o wasanaethau, trwy integreiddio pethau'n well, gan leihau'r rhwystrau rhwng gwasanaethau presennol a darparu gofal di-dor.
- Gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth ac

- Atal argyfyngau.

Er bod Covid-10 wedi effeithio ar y gwaith o gyflawni'r rhaglen, llwyddwyd i'w chwblhau yn ei ffurf gychwynnol ym mis Mawrth 2022, ac roedd yn llwyddiannus o safbwynt ei chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer pobl Gogledd Cymru. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r rhaglen lawn gan IPC.

## 2.2.1 Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol



Nod y rhaglen hon oedd trawsnewid darpariaeth gymunedol trwy ddatblygu model y Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC). Trwy'r prosiect hwn, roedd y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a BIPBC, ynghyd â meddygon teulu, yn anelu at weithio gyda'i gilydd i sefydlu a gwella gwasanaethau integredig yn y gymuned. Cefnogwyd datblygiad cychwynnol y gwasanaethau hyn gan amryw ffrydiau ariannu, gan gynnwys y Gronfa Gofal Integredig (CGI) a'r Gronfa Trawsnewid. Roedd y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn ceisio adeiladu ar waith partneriaeth a oedd yn bodoli eisoes, gyda golwg ar gyflawni'r trawsnewidiad cyffredinol a fynnwyd. Bwriad y rhaglen oedd darparu ymagwedd oedd yn cael ei dylunio ar lefel ranbarthol ond ei chyflenwi ar lefel leol, ac roedd yn cynnwys y ffrydiau gwaith a ganlyn:

**Ffrwd Waith 1 – Datblygu ar lefel ardaloedd lleol**, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu timau arweinyddiaeth lleol, ymgymryd ag asesiad o anghenion a sicrhau trefniadau llywodraethu integredig.

**Ffrwd Waith 2 – Y gweithlu a chyflenwi gweithredol**, sy'n seiliedig ar ddatblygu'r model TAC a gweithio mewn timau amlddisgyblaethol. Roedd y ffrwd waith hon hefyd yn arwain datblygiad cynlluniau ar gyfer rhannu cofnodion a chynlluniau gofal.

**Ffrwd Waith 3 - Trawsnewid digidol**, sy'n canolbwyntio ar y trawsnewidiad digidol a fynnir i gefnogi gwaith y TAC, a oedd yn cynnwys trefniadau o ran llywodraethu gwybodaeth, e-drefnu ('e-scheduling') a datrysiadau technegol, ochr yn ochr â rhaglen waith ar wahân i ddatblygu cymunedau digidol.

**Ffrwd Waith 4 - Datblygu cymunedol**, elfen allweddol o fodel gwasanaeth integredig y rhanbarth yw cyfraniad y trydydd sector a'r sector cymunedol o safbwynt cefnogi lles, hyrwyddo cynhwysiant a chyfranogiad, ynghyd â chydlynu presgripsiynu cymdeithasol.

**Ffrwd Waith 5 - Cynllunio cynaliadwy**. Elfen ganolog o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yw'r dymuniad i ddatblygu a thyfu cwmpas y cyflenwad o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y gymuned.

**Crynodeb o'r gwerthusiad**


Y disgwyliad o'r rhaglen hon oedd y byddai'r gwelliannau o safbwynt isadeiledd, diwylliant a chydweithredu yn ddigonol ynddynt eu hunain i sicrhau datblygiad pellach, heb yr angen am ragor o fewnbwn neu fuddsoddiad.

Bu'r newidiadau a roddwyd ar waith yn gyfyngedig, a gwnaed llai o gynnydd ag a ragwelwyd. Datblygwyd rhai offerynnau dadansoddi a dogfennau, ac mae angen eu nodi'n gywir a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer rhagor o waith datblygu.

Mae bwrw ymlaen â'r gwaith o ymgysylltu ag uwch reolwyr a sicrhau eu cyfraniad a'u cymorth yn hanfodol o safbwynt unrhyw ymgais bellach i ddatblygu isadeiledd gwasanaethau ymhellach. Hefyd, mae'n glir na fu'r ymagwedd Asiant Dros Newid yn gwbl lwyddiannus. O ran elfennau'r rhaglen sy'n symud yn eu blaenau ar hyn o bryd, mae angen eu goruchwylio a'u rheoli o fewn strwythur arweinyddiaeth gweithredol y rhanbarth.

Mae angen gwell cysylltiad rhwng amryw elfennau'r rhaglen, gydag ymagwedd fwy rhanbarthol, yn hytrach nag un ar sail ardal, i gyflwyno modelau y dangoswyd y buont yn effeithiol.

### 2.2.2 Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc




Nod y rhaglen oedd cyflawni gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc heb orfod troi at ymyriadau a gofal statudol costus a hirdymor. Roedd y rhaglen yn ymgorffori nifer o brosiectau sy'n cysylltu â'r sbectrwm o angen. Roedd yr ymagwedd yn cynnwys mentrau rhanbarthol ac isranbarthol, ac arweiniwyd y gwaith datblygu gan grwpiau llywio amlasiantaethol. Cyflenwyd y rhaglen trwy dair ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar Ymyrraeth Gyffredinol, Ymyrraeth Gynnar a Dwys, a Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal. O fewn pob ffrwd waith ceir nifer o brosiectau.

**Ffrwd Waith 1: Cyffredinol**. Yn anelu at wella lles emosiynol, iechyd a gwydnwch plant trwy dri phrosiect, sef fframwaith strwythuredig, adnoddau digidol a rhaglen sgiliau 'Friends Resilience'.

**Ffrwd Waith: Cymorth Cynnar**. Tri phrosiect sy'n anelu at ddarparu cymorth cynnar i blant ag anghenion arbennig a/neu sy'n agored i niwed, a lle gall ymyrraeth gynnar atal problemau rhag gwaethygu.

**Ffrwd Waith 3: Ar Ffiniau Gofal – timau asesu a chefnogi**. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid trawsnewid i sefydlu **ymyriadau 'ymateb cyflym' (allgymorth mewn argyfwng) i blant a phobl ifanc ar ffiniau gofal**. Y grŵp targed yw plant ag Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol (AEY). Mae'r ymagwedd yn cynnwys

llwybrau ac ymyriadau amlddisgyblaethol a therapiwtig cadarnach, a ddylunnir i atal plant rhag dod yn rhai sy'n derbyn gofal a/neu i alluogi ailuno'r teulu, a/neu ddarparu asesiad o ansawdd uchel i lywio'r pecyn lleoli a chefnogi mwyaf priodol. Crëwyd tri gwasanaeth cymorth dwys sef:

- y gwasanaeth **Therapi Amlsystemig** yn y Dwyrain
- Gwasanaeth **Bwthyn Y Ddôl** yn ardal Canol Gogledd Cymru
- Tîm Trawsnewid Gwynedd a Môn yn y Gorllewin

**Crynodeb o'r gwerthusiad:**

Mae'r rhaglen ar gyfer Plant a Phobl Ifanc wedi creu newid pendant i rai o'r plant mwyaf bregus yn y gymdeithas, yn enwedig y rheiny a oedd yn flaenorol yn dod o fewn y bylchau rhwng gwasanaethau, ac a oedd mewn perygl o orfod mynd i ofal preswyl hirdymor. Argymhellir bod y gwaith yng nghyswllt Plant a Phobl Ifanc yn parhau ac yn cael ei gefnogi gan gyllid hirdymor, gan alluogi'r gwasanaethau i ddatblygu ynghyd â chyflogi staff parhaol. Mae'r gwasanaethau yn gofyn am sefydlogrwydd, yn enwedig y gwasanaethau sydd ar ffiniau gofal, gan eu bod yn ymgorffori'r model ac yn datblygu modelau gofal preswyl.

Nid dim ond cyllid sy'n creu sefydlogrwydd hirdymor, ond hefyd y strwythurau rheoli gweithredol sy'n cefnogi'r gwasanaethau. Er y crëwyd y prosiectau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc trwy'r Gronfa Trawsnewid, ac felly fe'u rheolir trwy strwythur prosiectau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, er mwyn caniatáu sefydlogrwydd hirdymor mae angen i drefniadau gweithredol y gwasanaethau symud i mewn i strwythurau gweithredol y rhanbarthau.

Roedd canfyddiadau cynnar o'r gwerthusiad o wasanaethau ar ffiniau gofal yn awgrymu bod newidiadau cadarnhaol yn digwydd o fewn teuluoedd tra bo'r ymyrraeth ar waith. Fodd bynnag, o ran rhai o'r plant a'r teuluoedd ar ben uchaf yr ystod o gymhlethdod, a chanddynt yr anghenion mwyaf, gellir argymell rhagor o ymyriadau arbenigol. Un o'r rhwystrau posibl i gynnal cynnydd yw nad oes gan asiantaethau eraill bob amser y capasiti i ddarparu'r mewnbwn parhaus hwnnw.

Mae angen i'r ffrwd waith i wella anghenion plant a phobl ifanc o ran eu hiechyd emosiynol, eu lles a'u gwydnwch, sicrhau, wrth roi'r fframwaith a'r adnoddau ar waith, y sefydlir system ar gyfer casglu data ar allbynnau a chanlyniadau er mwyn gallu canfod eu heffaith.

## 2.2.3 Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu

Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
North Wales Together
Gwasanaethau Ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu
Seamless services for people with Learning Disabilities

Sylfaen y rhaglen yw Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru. Mae'r tîm yn gweithredu'r strategaeth drwy bum ffrwd waith: strwythurau integredig, datblygu'r gweithlu, comisiynu a chaffael, newid cymunedol a diwylliannol a thechnoleg gynorthwyol.




Bu 2021/2022 yn flwyddyn brysur iawn unwaith eto i **Raglen Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd**. Fe wnaeth holl aelodau'r tîm ddal i weithio o bell a llunio strategaethau i oresgyn yr anawsterau fel y gellid gweithredu prosiectau'n rhithwir, gan gefnogi partneriaid i gyflawni eu hamcanion mewn gwahanol ffyrdd.

**Crynodeb o'r gwerthusiad**

Mae'r Rhaglen wedi codi proffil anableddau dysgu ar lefel y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nid yw anghenion y grŵp hwn o bobl bob amser wedi cael eu cydnabod neu eu trin gyda'r un lefel o bwysigrwydd â grwpiau eraill o fewn y boblogaeth. Mae'n bwysig eu bod yn parhau i gael eu gweld fel blaenoriaeth, a bod digon o gyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer y ffrydiau gwaith sy'n parhau i sicrhau y gellir cyflawni dyheadau dinasyddion o ran cael 'bywyd cyffredin'.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar [wefan Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd](), sy'n cynnwys gwybodaeth am y prosiect, fideo o'i uchafbwyntiau, a dogfen sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2021/2022.

### 2.2.4 Rhaglen Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Mae Rhaglen 'iCAN' ("Independent, Connected, Active, Networked") / 'FEDRA' i' yn dod o fewn y strategaeth eang hon. Ei nod cyffredinol yw rhoi system gofal a diwylliant mwy integredig ac arloesol ar waith sy'n atal, ond lle bo angen, yn ymateb yn effeithiol i gyfnodau o anghenion ac argyfyngau iechyd meddwl acíwt. Mae'r rhaglen hon a ariennir yn ceisio hybu 'beth sy'n gweithio' a chyflymu'r trawsnewid ar draws Gogledd Cymru i greu system gofal brys integredig flaenllaw o fewn y sector. I ategu hyn, crëwyd llwybr FEDRA' i integredig sy'n hybu gwaith cydweithredol o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, partneriaid statudol a sefydliadau trydydd sector, a rhyngddynt.

Mae cydrannau cynnig FEDRA' i wedi newid a datblygu yn ystod y Rhaglen. Maent wedi datblygu i greu'r cydrannau allweddol a ganlyn:

- FEDRA' i: Hybiau - 8 hwb cymunedol a leolir ym mhob un o'r prif drefi ar draws y rhanbarth, sy'n gweithio gyda phartneriaid o'r trydydd sector i gynnig cymorth y gellir cael mynediad iddo'n rhwydd mewn amgylchedd diogel, a gellir cyfeirio pobl ymlaen at wasanaethau eraill.
- FEDRA' i: Gofal Sylfaenol - Prosiect peilot sy'n lleoli Therapyddion Galwedigaethol arbenigol mewn meddygfeydd, sy'n gallu cynnig gwasanaeth cwnsela, cyngor, cyfeirio ymlaen ac atgyfeirio pobl at wasanaethau eraill.
- FEDRA' i: Weithio – Cymorth i gael cyflogaeth.
- FEDRA' i: Digidol – Mynediad at gefnogaeth ar gyfer hybu lles meddyliol trwy gyfrwng amryw 'apiau' ac adnoddau ar-lein.

**Crynodeb o'r gwerthusiad**

Yn ystod 2021/22, mae Rhaglen FEDRA' i / iCAN wedi datblygu fframwaith casglu data manwl sy'n dangos tystiolaeth glir bod llawer o unigolion yn cael mynediad at holl gydrannau'r gwasanaeth a'u bod yn cael effaith sylweddol a mesuradwy ar eu lles meddyliol. Yn ôl arolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth ar draws rhaglen FEDRA' i, roedd 70% o'r defnyddwyr gwasanaeth yn meddwl ei bod yn hawdd cael mynediad i wasanaethau FEDRA' i, eu bod yn gyfleus, yn amserol, a'u bod yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rheolaeth dros eu sefyllfa.

Roedd yr un arolwg yn darparu tystiolaeth o effaith gwasanaethau FEDRA' i ar les meddyliol unigolion, a'u bod yn eu hatal rhag bod angen gwasanaethau eraill mwy dwys. Er enghraifft, roedd 71% o'r ymatebwyr i'r arolwg (yr oeddynt yn teimlo fod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt) wedi canfod bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i aros allan o'r Ysbyty. Yn yr un modd, roedd 44% yn teimlo bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i gael allan o'r Ysbyty gyn gynted ag yr oeddynt yn gallu, ac roedd 81% wedi canfod bod gwasanaethau FEDRA' i wedi eu helpu i aros adref o fewn eu cymuned leol.

O'r sefydliadau sy'n bartneriaid a'r rhanddeiliaid, roedd 70% o'r rhai a ymatebodd i arolwg y gwerthuswyr yn deall eu rôl, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn teimlo bod eu rôl yn glir o fewn llwybr diffiniedig. Roedd tua 60% o'r rhanddeiliaid proffesiynol yn teimlo eu bod yn deall gwasanaethau FEDRA' i ac roeddynt yn hyderus i atgyfeirio unigolion at wasanaethau FEDRA' i.

Fodd bynnag, dim ond 30% oedd yn cytuno bod ymagwedd system gyfan ar waith o safbwynt gweithio gyda phobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl, a dim ond 24% oedd yn teimlo byd yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt gan wasanaethau FEDRA' i yn briodol.

Mae rhaglen waith FEDRA' i yn cefnogi pobl yn y gymuned sydd â phroblemau iechyd meddwl, maent yn rhoi cymorth i bobl gael gwaith, a thrwy gyfrwng cymorth FEDRA' i o safbwynt gofal sylfaenol, maent yn cefnogi meddygon teulu.

### 2.2.5 Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant

Nod y ganolfan yw cydlynu gwaith ymchwil, arloesi a gwelliant yng Ngogledd Cymru i fod yn sail ar gyfer dulliau integredig newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r ymrwymiad a wnaed yn y cynllun Cymru Iachach.

Yn 2021-22, lansiwyd y casgliad o syniadau da a chronfa ddata ymgysylltu ar ein gwefan. Bydd yr adnoddau hyn yn helpu i rannu arferion da a gwella cydlyniant gweithgareddau ar draws Gogledd Cymru.

Roeddem wedi cefnogi rhaglenni rhanbarthol gyda dyluniad arolwg, gwerthusiadau, chwiliadau data a llenyddiaeth i'w helpu i ddeall beth sy'n gweithio a thargedu adnoddau yn fwy effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys cynnal arolygon o'r hyn y mae rhieni ei angen, ynghyd â chwiliadau cynhwysfawr o adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc, er mwyn cefnogi fframwaith newydd i gefnogi iechyd a lles emosiynol.

Roeddem wedi cynnal cyfweliadau, arolygon a mapio adnoddau i ganfod beth sydd angen digwydd i gefnogi ymchwil ac arloesi a gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn llywio sut mae'r ganolfan yn datblygu dros y flwyddyn nesaf.
Roeddem wedi gweithio'n agos gyda chanolfannau rhanbarthol eraill a sefydliadau cenedlaethol i rannu, hybu a datblygu syniadau newydd. Erbyn diwedd y flwyddyn roeddem wedi cynyddu dilynwyr ein cyfrif Twitter i 300, ac roedd 150 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r Ganolfan Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant.

Am ragor o wybodaeth, gweler Adroddiad Blynyddol 2021/22, dilynwch ni ar Twitter @NW_RICH_ / @_NW_RICH a/neu cofrestrwch i dderbyn ein newyddlen.

### Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022

Llwyddwyd i gwblhau adolygiad llawn o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag arweinyddion o fewn yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd, gyda chefnogaeth yr Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwelliant ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

I baratoi'r adroddiad, casglwyd gwybodaeth a data, edrychwyd ar ystadegau, siaradwyd â'n cymunedau a defnyddiwyd ystod eang o wybodaeth a gafodd ei choladu gan gynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn ein helpu i ddatblygu ein blaenoriaethau rhanbarthol ac i gynllunio a gwella gwasanaethau ar draws y rhanbarth.
Gweler yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar wefan y Gydweithredfa ranbarthol

## 2.3 Grŵp Llywio Dementia Gogledd Cymru

Yn ystod 2021-22, roedd y Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol wedi ehangu ei gwmpas i oruchwylio gwaith datblygu a chyflawni (1) Strategaeth Dementia Gogledd Cymru, (2) Safonau Dementia Cymru Gyfan a (3) Gwella Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS) Rhanbarthol.

Comisiynwyd darn o waith hefyd i edrych yn benodol ar broblemau pobl sy'n byw â dementia o safbwynt y Gymraeg a natur wledig rhanbarthau Gogledd Cymru a Phowys.

**Strategaeth Dementia Gogledd Cymru**

Yn ystod 2021-22, canfu'r grŵp llywio 12 blaenoriaeth o fewn cynllun gweithredu Strategaeth Dementia Gogledd Cymru. Llwyddwyd i gyflawni 6 o'r rhain yn gyfan gwbl, a gwnaed cynnydd da o ran y 6 arall. Ymhlith yr enghreifftiau o gyflawniadau yn ystod 2021-22 y mae:

- ✓ Sefydlu gwasanaeth asesu clyw rhanbarthol i bobl sy'n cael mynediad i wasanaethau cof.
- ✓ Cyflawni statws Cyfeillgar i Ddementia gan bedwar o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, gyda grwpiau llywio ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Mae dau Awdurdod Lleol yn dal wrthi'n gweithio tuag at gyflawni'r statws hwn.
- ✓ Cynhyrchu 28 o fideos cefnogol Mentro Gyda'n Gilydd er mwyn cefnogi pobl i ennyn hyder ac ailgysylltu â'u cymuned yn dilyn y pandemig.
- ✓ Profi ymagwedd newydd arloesol ym maes gofal a chymorth ar gyfer dementia o safbwynt ymddygiadol, trwy dreialu Cymorth Dadansoddwr Ymddygiadol Cymhwysol.
- ✓ Datblygu pecyn cymorth hyfforddi a datblygu'r gweithlu gyda Gwelliant Cymru, i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Fframwaith Gwaith Da.

**Rhaglen Waith Parodrwydd a Gweithredu Safonau Dementia Cymru Gyfan**

Gwnaed cynnydd da yn ystod y cyfnod parodrwydd ar gyfer gweithredu Safonau Cymru Gyfan, er bod Covid, pwysau'r gaeaf a phwysau sylweddol parhaus ar y system iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu y bu rhaid oedi cryn dipyn o'r gwaith hwn rhwng mis Tachwedd ac Ebrill.

**Gwella Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS)**

Gwnaed cynnydd ardderchog o ran y gwaith o wella'r MAS. Mae enghreifftiau o gyflawniadau 2021-22 yn cynnwys:

- ✓ Cynyddu'r ddarpariaeth o gymorth cyn ac ar ôl cael diagnosis gan gynnig gwasanaeth cyson trwy gyfrwng llwybr MAS integredig a gomisiynwyd ar lefel ranbarthol, ac sy'n cael ei gyflenwi gan bedwar darparwr o'r trydydd sector.
- ✓ Cychwyn y gwaith o fodelu'r galw a'r capasiti o ran gwasanaeth o fewn clinigau cof, a datblygu cynlluniau ar gyfer clirio'r ôl-groniad o ran rhestrau aros.


- ✓ Cwblhau adolygiad pen desg o fodelau cyflenwi clinigau cof.
- ✓ Rhoi camau tymor byr ar waith i leihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau mewn clinigau cof ynghyd â'r niferoedd sy'n aros am gyfnodau hir, er enghraifft oriau ychwanegol a goramser ym maes Nyrsio, Therapi Galwedigaethol, Seiciatreg ac Awdioleg.

## 2.4 Y Gronfa Gofal Integredig

Yn ystod 2021-22, buddsoddwyd cyfanswm o £18.92 miliwn o gyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig (CGI) mewn 125 o brosiectau ledled ein rhanbarth. Gwariwyd ychydig dros £6.2 miliwn ar brosiectau a oedd yn cefnogi gofalwyr yn uniongyrchol a buddsoddwyd £2.6 miliwn i gefnogi prosiectau gan sefydliadau trydydd sector.

Mae'r grwpiau canlynol yn rhai sydd â blaenoriaeth o ran integreiddio, ac mae'n rhaid i bob un o raglenni rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig ymgymryd â hwy yn unol â'u hasesiadau poblogaeth rhanbarthol a'u cynlluniau ardal:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a salwch tymor hir, gan gynnwys dementia;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Plant ag anghenion cymhleth; a
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.




Mae 46 o brosiectau yn cefnogi pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor; mae 26 o brosiectau yn cefnogi pobl â dementia a'u teuluoedd; 32 o brosiectau sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu ac mae 21 o brosiectau yn darparu ymyrraeth gynnar i bobl ifanc a'u teuluoedd.

Cadarnhawyd cyllid ychwanegol o £678,000 yn Awst 2021 i wella gwasanaethau asesu'r cof. Mae cael diagnosis yn amserol yn nod allweddol o fewn Cynllun Gweithredu Dementia Cymru. Bydd Llwybr Asesu'r Cof Integredig Gogledd Cymru'n cyflenwi

gwasanaeth rhanbarthol sy'n hawdd cael mynediad iddo, sy'n effeithiol ac yn deg i bobl â dementia a'u gofalwyr. Bydd y llwybr 3-rhan yn darparu (1) Gwasanaethau addysg a chymorth cyn cael asesiad, (2) Asesiad clinigol a (3) Gwasanaethau cymorth ar ôl cael diagnosis.

Mae'r GGI yn ariannu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru ar gyfer Oedolion hefyd. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun i roi hyn ar waith i sicrhau ei fod yn gallu cyflawni gofynion y Cod Ymarfer Awtistiaeth Cenedlaethol.

Defnyddiwyd y GGI i gomisiynu darn o waith i ddatblygu strategaeth '*Dim Drws Anghywir'* sy'n cynnig y modd gorau i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i ymateb i'r sbectrwm cyfan o anghenion plant a phobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl.

Yn ogystal â chyllid refeniw, derbyniodd rhanbarth Gogledd Cymru hefyd £10.53m o gyllid Cyfalaf CGI a oedd wedi cefnogi 46 o brosiectau yn ystod 2020/21. Roedd y prif gynlluniau cyfalaf a yrrwyd yn eu blaenau yn defnyddio cyllid Cyfalaf ICF yn ystod y flwyddyn yn cynnwys academi gyflogaeth a hyfforddiant i gefnogi dinasyddion ag anabledd dysgu yn Sir Ddinbych, ynghyd â chartref i grŵp bach o blant ar Ynys Môn, a Chanolfan Asesu Breswyl i Blant yn Sir y Fflint.


Daeth cyllid ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol, cyflwynodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol geisiadau a diogelwyd ychydig dros £700,00 mewn cyllid ar gyfer 6 eiddo.

## 2.5 Arian y Gaeaf

Dyrannodd Llywodraeth Cymru £2.2 miliwn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gefnogi cyflawniad y llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) fel rhan o Gynllun y Gaeaf.

Mae'r llwybrau Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu wedi'u nodi isod, ac roedd cynlluniau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys:

- Ychwanegu at y Timau Adnoddau Cymunedol fel y gellid bod yn barod i ddarparu'r gwasanaeth Gartref o'r Ysbyty;
- Ychwanegu Gweithiwr Cymdeithasol, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd a Nyrsys Cymunedol, i gefnogi asesiadau a rhyddhau o'r ysbyty;
- Mwy o Weithwyr Cymorth Dementia.



# 3. Cyfathrebu, Ymgysylltu a Gwerth Cymdeithasol

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol nodir sut aeth y Bwrdd ati i ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau neu baneli dinasyddion, a hyrwyddo cydweithrediad a chyfranogiad â phartneriaid perthnasol ac eraill. Mae'n esbonio sut mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol, ynghyd â'r cynnydd a wnaed wrth sefydlu fforymau i hybu gwerth cymdeithasol a rhannu arferion da.

## 3.1 Ymgysylltu yng Ngogledd Cymru

Roedd Covid-19 wedi parhau trwy gydol 2021 ac felly nid oedd modd cynnal gweithgareddau ymgysylltu fel fforymau, sesiynau grŵp, digwyddiadau cyhoeddus a sesiynau wyneb yn wyneb, ond mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn dal i ymgysylltu â phobl drwy ddulliau gwahanol, e.e. y cyfryngau cymdeithasol, ar-lein, Teams/Zoom ac ati, dros y ffôn a thrwy bartneriaid a budd-ddeiliaid.

Mae gan Swyddog Ymgysylltu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gysylltiadau gweithio ardderchog gyda swyddogion cyfathrebu ac ymgysylltu sefydliadau sy'n bartneriaid, ac mae'n parhau i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch y Bwrdd a'i waith. Drwy gael Swyddog Ymgysylltu pwrpasol mae'r Bwrdd yn gallu cyflymu ei weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu, a datblygu ar sail y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

## 3.2 Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Sefydlwyd Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yng Ngogledd Cymru yn 2016 i gefnogi Awdurdodau Lleol a phartneriaid i gyflawni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwy:

- Weithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw preifat (gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) i ddarparu gofal a chefnogaeth, a chefnogaeth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol;
- Hyrwyddo cydweithio gyda'r nod o gynyddu gwerth cymdeithasol a chyd-gynhyrchu ar draws yr holl ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu wasanaethau lles yng Ngogledd Cymru;
- Hyrwyddo cyfleoedd partneriaeth a rhwydweithio ar draws sectorau;
- Nodi arferion da a'u rhannu; dylanwadu ar ddatblygiad ymarfer a dulliau arloesol gyda chomisiynwyr ac adrannau caffael i gomisiynu a chaffael gwasanaethau sy'n darparu gwerth cymdeithasol.

Gwnaed cynnydd cadarnhaol o safbwynt adfywio'r Fforwm ers Gorffennaf 2021,

ynghyd â chanfod aelodau ychwanegol o awdurdodau lleol, BIPBC a'r Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol.

Mae aelodaeth Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yn cynnwys y cynrychiolwyr canlynol, sydd i gyd yn meddu ar wybodaeth a diddordeb mewn Gwerth Cymdeithasol:

- Pob un o'r chwe awdurdod lleol ar draws Gogledd Cymru
- Pob Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sirol
- Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Mantell Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r Grŵp Arweinyddiaeth
- Cymdeithasau Tai Gogledd Cymru
- Gwasanaethau statudol – Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Bydd y Fforwm yn parhau i weithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw preifat (gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) i ddarparu gofal a chefnogaeth a chefnogaeth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Byddwn yn hyrwyddo gwaith ar y cyd, partneriaeth a chyfleoedd rhwydweithio ar draws sectorau, gyda'r nod o gynyddu gwerth cymdeithasol a chyd-gynhyrchu ar draws yr holl ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu wasanaethau lles yng Ngogledd Cymru. Bydd y Fforwm hefyd yn ceisio mesur effaith gwerth cymdeithasol a sut mae'n cael ei ddarparu yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2021/22, Gan weithio gyda Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol, bydd y Fforwm yn canolbwyntio ar brosiectau Trydydd Sector, yn arbennig gan ddefnyddio arian Trawsnewid Rhanbarthol a'r Gronfa Gofal Integredig i gyflawni'r budd mwyaf posibl. Bydd y Fforwm hefyd yn llunio cynllun gweithredu ar gyfer y tair blynedd nesaf.
Cliciwch YMA ar gyfer Astudiaeth Achos Gwerth Cymdeithasol.

## 3.3 Grwpiau Gofalwyr Gogledd Cymru


Mae **Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru** (**NW(Y)COG)** wedi dal ati trwy 2021/22 i gyflawni Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol Gogledd Cymru drwy ddarparu gwasanaethau cynnal gofalwyr ar ran awdurdodau lleol, y gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector yn y rhanbarth.

Mae ein **Gwasanaeth Hwyluso ar gyfer Meddygon Teulu ac Ysbytai**, a ariannwyd trwy Grant Gofalwyr blynyddol Llywodraeth Cymru, wedi parhau i gefnogi gofalwyr di-dâl ym maes gofal sylfaenol ac eilaidd trwy gydol ail flwyddyn y pandemig, yn ystod y cyfyngiadau ar feddygfeydd a wardiau ysbytai. Bu Hwyluswyr Gofalwyr Ysbytai yn darparu cymorth ar adeg rhyddhau unigolion o'r ysbyty, ac maent wedi parhau i gyfathrebu â gweithwyr iechyd o bell yn ystod cyfnod y sawl sy'n derbyn gofal yn yr

ysbyty. Sefydlwyd cysylltiadau â Biwroau Rhyddhau Cartref yn Gyntaf ar draws y tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth (YCD).

Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2021, fe gafodd dros 700 o ofalwyr di-dâl eu canfod a'u cefnogi o fewn y sector gofal sylfaenol gan y ddau ddarparwr a gomisiynwyd gennym, sef Cynnal Gofalwyr a NEWCIS. Hefyd, fe gafodd nifer debyg o ofalwyr di-dâl eu canfod a'u cefnogi o fewn y sector gofal eilaidd, wrth gefnogi claf mewnol, neu pan oeddynt hwy eu hunain yn gorfod aros yn yr ysbyty.

Cafodd **Cynllun Gweithredu NW(Y)COG** ei adolygu yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r pedair blaenoriaeth genedlaethol. Gofynnwyd i bartneriaid unigol o fewn y Grŵp Gweithredol Gofalwyr ddarparu diweddariad ar y cynnydd er mwyn mesur eu perfformiad eu hunain yn erbyn y strategaeth a'r cynllun gweithredu.




Hefyd, Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc, sef 16eg Mawrth 2022, oedd pen-blwydd cyntaf **cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru**. Defnyddir y dull adnabod hwn mewn ysgolion, fferyllfeydd ac archfarchnadoedd gan ofalwyr ifanc sy'n gofalu am rywun, sef rhiant neu frawd neu chwaer fel arfer, p'un a ydynt yn wael neu'n anabl.

Hyd at Fawrth 2022, mae bron i 200 o gardiau adnabod wedi cael eu cyflwyno i ofalwyr ifanc yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Drosodd ym Môn ac yng Ngwynedd datblygwyd 'ap' o'r enw AIDI, mae'n cael ei dreialu mewn pedair ysgol a, hyd yma, mae'n profi i fod yn effeithiol ymhlith gofalwyr ifanc di-dâl.

Bu'r darparwyr a gomisiynwyd sy'n cefnogi gofalwyr ifanc, sef Gweithredu Dros Blant, Gofalwyr Ifanc WCD (Wrecsam, Conwy, Sir Ddinbych) a NEWCIS yn cydweithio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o'r gwaith cychwynnol o gyd-ddylunio'r cerdyn gyda gofalwyr ifanc, i waith hyrwyddo a datblygu'r fenter ar hyn o bryd.



# 4. Edrych tuag at y Dyfodol

Yn y rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol cyflwynir y blaenoriaethau y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio arnynt yn 2022-23 a thu hwnt, gan amlygu'r meysydd hynny y mae Covid-19 wedi cael effaith arnynt gan arwain at ailbennu blaenoriaethau neu gyfeiriad strategol

## 4.1 Effaith Covid

Mae effaith COVID-19 yn dal yn amlwg ar draws y rhanbarth, ac mae o wedi effeithio'r cynnydd a wnaed o safbwynt rhai ffrydiau gwaith. Fodd bynnag, roedd cyfarfodydd misol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithiol, a'r adborth gan aelodau yw eu bod wedi llwyddo i barhau i ymgysylltu â'r Bwrdd a chyfrannu i'w waith trwy gyfarfodydd rhithwir.

Er mwyn sicrhau bod aelodau, partneriaid, rhanddeiliaid y Bwrdd a phobl a oedd â diddordeb yn parhau i gael eu diweddaru, lluniwyd newyddlen chwarterol a ddosbarthwyd i amlygu llwyddiant y gwasanaethau a gyflenwyd yng nghyswllt ei raglenni trwy gydol 2021/22.

## 4.2 Blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 a thu hwnt

Rydym wedi cadarnhau ein blaenoriaethau a'n dogfen ffocws ar gyfer y tymor byr a'r tymor hwy. Mae hyn yn cysylltu â'n Cynllun Ardal a'r blaenoriaethau presennol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Nodir hyn yn adran 1.1. Cynhelir adolygiad pellach yn unol â chanlyniadau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad, a chaiff ein Cynllun Ardal a'n Blaenoriaethau eu diwygio fel y bo'n briodol.

# Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Fel ag yr oedd ddiwedd mis Mawrth 2022

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Mary Wimbury (Cadeirydd) | Cynrychiolydd Darparwyr |
| Catrin Roberts | Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol |
| Alwyn Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ann Woods | CGS Gogledd Cymru (Cyfetholedig) |
| Bethan E Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Dr Chris Stockport | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Y Cyng. Bobby Feeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Christine Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. John Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. Dafydd Meurig | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Cheryl Carlisle | Cyngor Gwynedd |
| Dave Hughes | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Cyfetholedig) |
| Delyth Lloyd-Williams | Cynrychiolydd Darparwyr |
| Dr Lowri Brown | Cynrychiolydd Addysg ALI |
| Estelle Hitchon | WAST (Cyfetholedig) |
| Ffion Johnstone | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Fôn Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Helen Corcoran | Heddlu Gogledd Cymru (Cyfetholedig) |
| Iwan Davies | Cynrychiolydd Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru/Prif Weithredwr |
| Jenny Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jo Whitehead | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Lucy Reid | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Meinir Williams-Jones (Barnardos) | Cynrychiolydd Trydydd Sector |
| Morwena Edwards | Cyngor Gwynedd |
| Neil Ayling | Cyngor Sir y Fflint |
| Nicola Stubbins | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ricki Owen | Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth |
| Rob Smith | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Sam Parry | Cynrychiolydd Tai ALI |
| Sian Tomos (GISDA) | Cynrychiolydd Trydydd Sector |
| Steve Gadd | Prif Swyddog Cyllid (Adran 151) (Cyfetholedig) |
| Shan Lloyd Williams | Cynrychiolydd Tai |
| Teresa Owen | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Ruth Whittingham | Cydweithio Rhanbarthol |

## Atodiad 2 – Darpariaethau Statudol

Mae partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi llunio ‘Cytundeb Integreiddio’, sef cytundeb cyfreithiol sy’n cadarnhau ei ymrwymiad i gydweithio ar brosiectau allweddol a nodwyd fel rhai addas ar gyfer gwasanaethau integredig a threfniadau cyllideb gyfun.

Caniateir defnyddio’r darpariaethau statudol a ganlyn i ategu gwaith y Bwrdd:

- Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – adrannau 166 a 167 yn benodol a rheoliadau cysylltiol (Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015).

Dibynnwyd ar bwerau cyfreithiol eraill i gefnogi partneriaethau rhanbarthol yr ymunwyd â hwy, gan gynnwys:

- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 – adrannau 1, 2, 10, 33, 38 ac 82 yn bennaf.
- Pwerau Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas â chydweithio gydag awdurdodau lleol eraill.
- Deddf Llywodraeth Leol 1972 – yn enwedig adran 2, sy’n rhoi pwerau i awdurdodau wneud unrhyw beth y maent yn ystyried ei fod yn debygol o gyflawni un neu fwy o’r buddion canlynol: hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal, ac adran 113 sy’n galluogi un awdurdod lleol i gynnig ei staff i awdurdod lleol neu awdurdod iechyd neu Fwrdd Iechyd arall.

Mae Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1982 yn caniatáu i awdurdod lleol gael y pŵer i wneud unrhyw beth sy’n cael ei bennu i hwyluso, neu sy’n ffafriol neu’n atodol, i gyflawni ei swyddogaethau.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **23ainTachwedd 2022** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru 2021/22** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor**<br><br>**Cyng. Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Datblygu'r Economi, Hamdden a Thwristiaeth** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams. Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** Ystyried a nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 |

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r cyngor trwy:

- Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor- swyddi a chyfleoedd gwaith
- Gweithio gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad i sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth leol yn mynd rhagddo

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

5.1 Mae'r adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, caiff yr adroddiad ei rannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**Cynnydd ac Uchafbwyntiau 2021/22**

5.2 Mae'r adroddiad blynyddol yn edrych yn ôl ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'n ymdrin â'r Cynllun Twf a'r gweithgareddau cefnogol eraill.

5.2. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf a'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r prosiectau ynghyd â cherrig milltir allweddol eraill sydd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Tri Achos Busnes Amlinellol wedi'u cymeradwyo a chymeradwyo'r Achos Busnes Llawn cyntaf ar gyfer Canolfan Prosesu Signalau Digidol gyda Phrifysgol Bangor.
- Sicrhau dros £1m mewn grantiau ychwanegol i gefnogi prosiectau yn y Gogledd a oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Twf.
- Sicrhau'r ail wedd o gyllid y Cynllun Twf o £20.45m ym mis Mawrth 2022.
- Lansio'r Strategaeth Ynni ar gyfer y Gogledd gyda Llywodraeth Cymru.
- Cwblhau'r prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol a welodd gwasanaethau band eang yn cael eu huwchraddio mewn 300 o safleoedd ledled y rhanbarth.
- Lansio gwefan a brand newydd i Uchelgais Gogledd Cymru.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Bydd y Byrddau Rhaglen a'r Byrddau Prosiect yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer bob prosiect unigol. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni.

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Gweler 6.1 uchod

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

| Hyrwyddo’r Iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth ac yn unol â nodau llesiant Cymru |
|---|
| Gweler 6.1 uchod |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo’r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| 1. Atodiad 1- Adroddiad Blynyddol Uchelgais Gogledd Cymru |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |




Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Adroddiad Blynyddol 2021-22

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

# Cynnwys


| Teitl | Tudalen |
| --- | --- |
| Rhagair | 3 |
| Y 12 mis Diwethaf | 4 |
| Ein Huchelgais | 5 |
| Pam buddsoddi yn y Gogledd? | 6 |
| Uchafbwyntiau 2021 /22 | 7 |
| Trosolwg o Gynllun Twf Gogledd Cymru | 19 |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 20 |
| Cysylltedd Digidol | 22 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | 24 |
| Tir ac Eiddo | 25 |
| Ynni Carbon Isel | 27 |
| Sgiliau a Chyflogadwyedd | 30 |
| Trafnidiaeth | 32 |
| Llywodraethu | 33 |
| Gwerth Ychwanegol | 35 |
| Y 12 mis Nesaf | 36 |
| Ein Partneriaid | 37 |

# Rhagair

Mae'r economi byd-eang yn parhau i gael ei effeithio gan ffactorau fel ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a'r pandemig, gyda heriau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i'w llywio o ganlyniad i ansicrwydd a dinistr parhaus ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Rydym yn awr yn delio â chanlyniadau ac anweddolrwydd parhaus y sefyllfaoedd hyn wrth inni ailadeiladu'r economi yn y Gogledd. Mae'r rhagolygon yn ein gweld yn mynd i gostau cynyddol, prinder sgiliau ac adnoddau, realiti newid yn yr hinsawdd ac economi lleol sy'n bownsio'n ôl ac sydd angen yr holl gymorth sydd ar gael er mwyn goroesi a ffynnu yn y blynyddoedd i ddod a thu hwnt.

Ar ôl blynyddoedd o waith i baratoi'r ffordd ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, rydym yn falch o'i weld yn symud ymlaen o fod yn gyfres o fentrau ar bapur, i fod yn brosiectau go iawn a gyflawnir gan ein timau ledled y Gogledd. Mae hon yn bartneriaeth sy'n ymestyn ar draws sectorau, i'n diwydiannau a'n cymunedau ac yn y bôn i bobl yn y Gogledd yn awr ac am genedlaethau i ddod.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu'n llawn, ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'n Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraethau'r DU a Chymru. Gyda'n gilydd rydym yn buddsoddi mewn seilwaith ac asedau newydd, gan ddarparu swyddi newydd, cyfleoedd cyffrous a denu buddsoddiad pellach i'r rhanbarth. Bydd hyn yn creu sylfaen wirioneddol ar gyfer ffyniant hirdymor.

Mae pum rhaglen y Cynllun Twf a'u cynnydd wedi'u hamlinellu o fewn yr adroddiad hwn ac mae'n dangos sut rydym yn mynd i'r afael â'r nodau allweddol i wneud y Gogledd yn:

- **Gysylltiedig,** drwy wella a datblygu cysylltedd a seilwaith digidol, ond hefyd drwy gydnabod pwysigrwydd symud tuag at system drafnidiaeth integredig ac effeithiol.
- **Flaengar,** drwy hyrwyddo ymchwil a manteisio ar arloesedd yn ein sectorau gwerth uchel
- **Wydn,** drwy greu swyddi newydd gwerth uchel a rhoi rheswm i bobl ifanc aros a dyfodol disglair gartref
- **Gynaliadwy,** drwy groesawu ein cyfrifoldebau i'r amgylchedd a datblygu ein rhanbarth yn gynaliadwy drwy ein holl fuddsoddiadau.

Rydym yn gwbl ymrwymedig ac yn freintiedig i arwain y bartneriaeth bwysig hon ar gyfer y Gogledd ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn parhau i dyfu.



Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais



Y Cynghorydd Mark Pritchard, Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais



Alwen Williams Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru

# Y 12 mis Diwethaf

**Gan y Cyfarwyddwr Portffolio, Alwen Williams**

Er gwaethaf yr heriau parhaus ar ein cymunedau, ein pobl a'n heconomi yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gwnaed cynnydd da ac mae cerrig milltir sylweddol wedi'u cyrraedd tuag at gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r uchelgais a'r weledigaeth ehangach ar gyfer ffyniant economaidd dros y 10-15 mlynedd nesaf.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweld cyfyngiadau Covid-19 yn cael eu llacio'n raddol, gan alluogi i ni gynnal nifer o ymweliadau Gweinidogol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru â safleoedd prosiect a hwyluso mwy a mwy o ymgysylltu wyneb yn wyneb â phartneriaid, rhanddeiliaid a buddsoddwyr.

Gan gydnabod gwerth a phwysigrwydd gosod ein huchelgais ar gyfer y Gogledd a chael brand a hunaniaeth glir i gynrychioli cryfder ein partneriaeth ranbarthol, rydym wedi gweithio gyda Tinint, asiantaeth dylunio digidol creadigol, ac Ateb Cymru, ein partner cyfathrebu strategol newydd i ddatblygu a lansio ein brand a'n gwefan newydd 'Uchelgais Gogledd Cymru'. Mae cael yr olwg a'r teimlad newydd hwn, gyda chefnogaeth cartref ar-lein ar gyfer newyddion a gwybodaeth yn gam sylweddol ymlaen, yn enwedig wrth i ni gynyddu ein gweithgareddau ymgysylltu â busnesau a buddsoddwyr posibl yn y rhanbarth a thu hwnt. Yn ogystal, gyda Business News Wales, rydym wedi lansio sianel fusnes a chylchlythyr newydd sy'n benodol i'r Gogledd i rannu newyddion am ddatblygiadau diweddaraf y Cynllun Twf, colofnau sy'n procio'r meddwl a nodweddion amserol gan ffigurau allweddol yn y rhanbarth.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi gweld ein prosiectau'n symud ymlaen gydag Achosion Busnes Amlinellol wedi'u cymeradwyo ar gyfer tri phrosiect a nifer o Adolygiadau Porth llwyddiannus wedi'u cwblhau.

Ym mis Chwefror 2022, ar ôl ei daith lwyddiannus drwy'r broses achos busnes, cyflawnwyd y cytundeb ariannu prosiect cyntaf, gyda Phrifysgol Bangor. Mae cyfanswm o £3m o gyllid y Cynllun Twf bellach wedi'i ymrwymo i fuddsoddi mewn offer arloesol i ddatblygu gallu a thechnoleg Prosesu Signalau Digidol (DSP) yng nghanolfan ymchwil sefydledig y Brifysgol, ac mae'n cefnogi creu hyd at 40 o swyddi newydd.

Mae'r buddsoddiad cyntaf hwn yn golygu ein bod wedi rhoi cychwyn iawn arni o ran cyflawni'r Cynllun Twf ac mae wedi dangos a phrofi'r llywodraethu a'r broses gadarn o'r dechrau i'r diwedd sy'n sail i bortffolio'r Cynllun Twf, ei raglenni a'i brosiectau. Yn ogystal â hyn, cyflawnodd yr ail adolygiad sicrwydd portffolio blynyddol, a gynhaliwyd gan dîm adolygu annibynnol, radd Ambr-Gwyrdd. Mae'r canlyniad, yr ail sgôr hyder cyflawni uchaf sydd ar gael, yn dilysu'r cynnydd a wnaed dros y deuddeg mis diwethaf ac yn adeiladu ar y sgôr Ambr a dderbyniwyd y llynedd. Dywedodd y tîm adolygu yn eu hadroddiad: *"Mae'r Portffolio wedi gwneud cynnydd sylweddol a thrawiadol ers yr Adolygiad Sicrwydd Portffolio (PAR) diwethaf, a hynny mewn amgylchiadau heriol."*


Yn ystod yr haf, buom hefyd yn gweithio i ddiweddaru ein hachos busnes portffolio, a fabwysiadwyd gan ein bwrdd ym mis Medi, ac a gyflwynwyd wedyn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses flynyddol o ddyfarnu cyllid. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniad i fwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2021 a derbyniwyd yr ail randaliad ariannu o £20.4m ym mis Mawrth 2022.

# Ein Huchelgais

## "Adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer Gogledd Cymru"

### Rydym am:

- Ganolbwyntio ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y rhanbarth.
- Gweld y rhanbarth yn datblygu mewn modd cynaliadwy, gyda chyfleoedd i bobl ennill sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol a datblygu gyrfaoedd gwerth chweil, gweld busnesau'n tyfu a chymunedau'n ffynnu.
- Hyrwyddo ein hiaith, ein diwylliant a'n treftadaeth ac yn unol â nodau llesiant Cymru.



# Pam buddsoddi yn y Gogledd?

**Mae gan y Gogledd botensial ddiderfyn i gynnig cyfle unigryw a gwerth chweil i fuddsoddwyr. Mae'r rhanbarth yn cynnig costau cystadleuol, tirweddau hardd, pobl fedrus a llawer mwy. Mae ein pobl yn wydn, yn cael eu gyrru gan ganlyniadau ac yn deyrngar. Rydym yn ddigon mawr i gael effaith ond yn ddigon cysylltiedig i fod yn ddeinamig ac addasu'n gyflym i ddysgu sgiliau newydd ar gyfer y dyfodol.**

Mae gennym falchder yn ein treftadaeth, ein diwylliant, ein hiaith a'n hamgylchedd ac rydym yn groesawgar i bobl a chyfleoedd. Mae hyn, ynghyd â'r buddsoddiad parhaus yn ein heconomi, yn gwneud y Gogledd yn lleoliad delfrydol i fuddsoddi ynddo.

Mae Askar Sheibani, Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes, yn credu'n benodol bod y Gogledd mewn sefyllfa dda i fod yn 'arweinydd byd-eang' mewn ynni adnewyddadwy, gyda chyfleoedd i ddatblygu ynni adnewyddadwy llanw a morol yn ogystal â chynhyrchu hydrogen gwyrdd.



Askar Sheibani, Cadeirydd y Bwrdd Cyflawni Busnes

"Mae gan y Gogledd gyfle da iawn ac mae'n ffodus i gael y dirwedd i droi ei hun yn arweinydd byd-eang ym maes ynni adnewyddadwy. Nid breuddwydio yn unig ydi hyn - mae hyn o fewn ein cyrraedd. Mae'n rhesymegol, yn ymarferol a gallwn ei gyflawni.

Mae gennym yr adnoddau naturiol, mae gennym yr arbenigedd gweithgynhyrchu yn enwedig yng Nglannau Dyfrdwy a Wrecsam ac mae gennym y bobl a'r partneriaethau i fwrw ymlaen â hyn. Mae gennym yr holl gynhwysion a phrosiectau sy'n dechrau, ac rwy'n gyffrous iawn am hynny."



# Uchafbwyntiau 2021/22

# Prif Uchafbwyntiau 2021 / 22

## Ebrill 2021

Sicrhawyd cyllid o £500,000 o gynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID) Llywodraeth Cymru i helpu ffermwyr i ddatgarboneiddio

## Mai 2021

Sicrhawyd grant o £200,000 o gynllun Adfer Gwyrdd OFGEM i ddatblygu technolegau carbon isel ar gyfer cartrefi megis pwyntiau gwefru cerbydau trydan a systemau gwresogi

## Mehefin 2021

Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda'r sectorau preifat a chyhoeddus i helpu i adnabod blaenoriaethau ar gyfer cysylltedd symudol ar draws rhwydweithiau trafnidiaeth y rhanbarth

## Gorffennaf 2021

Trefnwyd ymweliadau gan Weinidogion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

## Awst 2021

Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon

## Medi 2021

Lansiwyd ein Strategaeth Ynni ar gyfer y Gogledd gyda Llywodraeth Cymru, i drawsnewid y ffordd y defnyddir ynni ar draws y rhanbarth

## Hydref 2021

Fe wnaethom godi £2,300 ar gyfer Mind, gyda'r rhoddion yn cael eu rhannu ar draws canghennau'r Gogledd

## Tachwedd 2021

Fe wnaethom sicrhau grant o £387,600 drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol i gynnal astudiaethau dichonoldeb y System Ynni Lleol Blaengar.

## Rhagfyr 2021

Cymeradwywyd ein Hachos Busnes Llawn cyntaf ar gyfer y Ganolfan Prosesu Signal Digidol gyda Phrifysgol Bangor

## Ionawr 2022

Fe wnaethom ddiweddaru gwasanaethau band llydan mewn 300 safle drwy'r Cynllun Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol.

## Chwefror 2022

Fe wnaethom helpu tri sefydliad i lansio systemau amaethyddol newydd a fydd yn helpu ffermwyr i ddatgarboneiddio

## Mawrth 2022

Daeth Morlais, y prosiect llif ynni llanw a redir gan Menter Môn, yn barod i ddechrau ar y gwaith adeiladu.


# Uchafbwyntiau Chwarter 1

## £200k o Gyllid Adfer Gwyrdd OFGEM wedi'i sicrhau

Sicrhawyd grant o £200,000 o gyllid Adfer Gwyrdd OFGEM, gan ddod ag 1MW o gapasiti ychwanegol yn Nghyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych. Bydd y cyllid hwn yn darparu'r capasiti i ddatblygu technolegau a systemau carbon isel fel isadeiledd gwefru Cerbydau Trydan a systemau gwresogi ar y safle, sy'n hanfodol er mwyn lleihau allyriadau carbon.

## £500k o Gyllid WBRID wedi'i sicrhau i helpu Ffermwyr i Ddatgarboneiddio

Sicrhawyd cyllid o £500,000 o gynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID) Llywodraeth Cymru i ariannu prosiectau carbon isel ac amaethyddol. Mae'r cyllid yn hanfodol wrth ddatblygu prosiectau wrth i ni anelu at y targed sero-net.



## Ymgynghoriad ar Flaenoriaethau Cysylltedd Symudol

Cynhaliwyd sesiynau gyda'r sectorau preifat a chyhoeddus i adnabod blaenoriaethau ar gyfer cysylltedd symudol ar draws rhwydweithiau trafnidiaeth y rhanbarth.

Fe wnaeth canfyddiadau'r sesiynau ymgynghori ddylanwadu ar brosiectau Cysylltedd Digidol y Cynllun Twf.

## Fe wnaethom recriwtio i pum swydd!

Fe wnaeth y tîm Rheoli Portffolio gryfhau ymhellach yn ystod y chwarter hwn, gyda phenodiadau wedi'u gwneud i rolau Caffael a Gwerth Cymdeithasol, ynghyd â rolau Cefnogi Rheolaeth Prosiect.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd Uchelgais Economaidd

Cynhaliodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 18 Mehefin a chadarnhawyd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Mark Pritchard yn Is-gadeirydd ar gyfer 2021-22.

# Helpu Ffermwyr y Gogledd i ddatgarboneiddio

Gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Choleg Cambria, gwnaethom gefnogi tri sefydliad i greu mentrau amaeth carbon isel drwy'r cynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio Ymchwil Busnes Cyfan (WBRID).



Tri dysgwr yng Ngholeg Cambria, Llysfasi yn dadorchuddio'r system Treulio Micro-Anaerobig newydd gan Biofactory Energy.

## Y Prosiectau:

**1. Mae BioFactory Energy** wedi cynllunio, adeiladu a defnyddio datrysiad Treulio Micro-Anaerobig arloesol. Y nod yw dal methan o slyri a'i droi'n wres i'w ddefnyddio ar y fferm neu fel ffynhonnell ynni oddi ar y grid.

Bydd hyn yn lleihau faint o ynni sydd ei angen o'r grid ac yn arbed costau ar filiau ynni a gwrtaith - yn ogystal â bod o fudd i'r amgylchedd.

**2. Mae Promar International** yn creu offeryn cyfrifo carbon ar-lein dwyieithog, hawdd ei ddefnyddio, a llwyfan cynaliadwyedd i fesur a monitro cynaliadwyedd fferm. Gall ffermwyr gael gafael ar argymhellion ar gyfer gwelliannau a chael budd o feincnodi yn erbyn ffermydd eraill.

**3. Llwyddodd M-Sparc** i ddylunio ac adeiladu gweledigaeth gyfrifiadurol Deallusrwydd Artiffisial arloesol a datrysiad drôn. Mae'r drôn yn sganio ardal ac yn adnabod chwyn, i sbarduno drôn arall i ddefnyddio swm penodol o blaladdwyr i'r chwyn.

Mae hyn wedi'i brofi'n llwyddiannus a'i brofi i helpu i leihau amser a chostau i gymunedau ffermio yn ogystal â chyflwyno cyfleoedd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon i ddatgarboneiddio ffermio.



Y tîm yn M-Sparc yn ymuno â Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau i ddangos y drôn 'Green Eagle'.

# Uchafbwyntiau Chwarter 2

## Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol Hwb Economi Wledig Glynllifon

Ym mis Awst, cymeradwywyd achos busnes amlinellol ar gyfer Canolbwynt Economi Wledig Glynllifon. Roedd y gymeradwyaeth yn garreg filltir bwysig o ran dod â'r prosiect gam yn nes at greu canolbwynt o'r radd flaenaf a fydd yn gwella'r sector bwyd a diod.



## Lansio Strategaeth Ynni Newydd

Lansiwyd y strategaeth newydd gyda gweledigaeth i drawsnewid y ffordd y defnyddir ynni ar draws y rhanbarth. Gan weithio gyda'r Gwasanaeth Ynni yn Llywodraeth Cymru, bydd y strategaeth yn dod â ni gam yn nes at y targed carbon sero net ar gyfer 2050.

## Adolygiad Sicrwydd Rhaglen

Cynhaliwyd ail adolygiad sicrwydd blynyddol o'r Cynllun Twf ym mis Awst 2021 gan gyflawni gradd hyder o Ambr-Gwyrdd, sy'n welliant ar y radd Ambr a dderbyniwyd yn 2020.



## Ymweliad Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru

Fe wnaeth David T.C. Davies, AS ac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, ymweld â thri o brosiectau'r Cynllun Twf - Canolfan Prosesu Signal Digidol, Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter a Chyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych.



## Ymweliad y Gweinidog Lesley Griffiths

Fe wnaeth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AoS ymweld â phrosiect Morlais ynghyd â chynlluniau carbon isel eraill yn y rhanbarth.

# Uchafbwyntiau Chwarter 3

## Cymeradwyo Achos Busnes Llawn y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol



Y Ganolfan DSP oedd y cyntaf o brosiectau'r Cynllun Twf i gyrraedd y garreg filltir hon a sicrhau'r cyllid. Bydd y £3 miliwn o gyllid yn cael ei fuddsoddi mewn offer arloesol i ddatblygu'r cyfleuster, a fydd yn rheoli sut mae gwybodaeth ddigidol yn cael ei phrosesu'n effeithlon ac yn ddibynadwy. Yn ogystal â chreu hyd at 40 o swyddi newydd ar gyfer y rhanbarth, bydd yn rhan annatod o ymateb i'r cynnydd mewn anghenion digidol.

## £387,600 gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol wedi'i sicrhau

Fe wnaethom sicrhau cyllid i gynnal astudiaethau dichonoldeb y System Ynni Lleol Blaengar mewn pedair sir yn y rhanbarth. Gallai'r Systemau hyn ddatgloi llawer o fanteision cymunedol megis y cyfle i gynhyrchu a gwerthu ynni'n lleol ar gost fforddiadwy, potensial i greu swyddi newydd a chyfrannu at ddatgarboneiddio'r system ynni leol.

## Cynhaliwyd ein Digwyddiad Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar cyntaf

Cynhaliwyd ein Digwyddiad 'Ymgysylltu â'r Farchnad yn Gynnar' cyntaf erioed ar gyfer busnesau rhanbarthol ym mis Rhagfyr. Y nod oedd eu helpu nhw i ddeall mwy ynghylch y broses gaffael y tu ôl i'r Cynllun Twf. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau a sut all busnesau fod yn rhan o bethau.

## Lansio Uchelgais Gogledd Cymru

Lansiwyd ein henw newydd 'Uchelgais Gogledd Cymru' a gwefan a brand newydd ym mis Tachwedd i gynrychioli ein gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru ffyniannus a'r bartneriaeth sydd y tu ôl i'r weledigaeth honno.

## Ymgyrch Pob Cam i Hyrwyddo Llwybrau Gyrfa

Cynhaliwyd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, Pob Cam, i ddangos nad oes y fath beth â cham gyrfa anghywir. Fel rhan o'r ymgyrch, fe wnaeth seren bop Cymru, Elin Fflur, a chyn-bêl-droediwr rhyngwladol Cymru Owain Tudur Jones ymuno gyda'u profiadau.




# Canolfan Prosesu Signalau Digidol: Achos Busnes Llawn Cymeradwy


Flwyddyn wedi i Gynllun Twf Gogledd Cymru gael ei lofnodi, cymeradwywyd y prosiect cyntaf gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Y Ganolfan Prosesu Signalau Digidol (DSP) yw'r prosiect cyntaf o fewn y Cynllun Twf i dderbyn cyllid, gan sicrhau cyllid o £3m i fuddsoddi mewn offer arloesol a fydd yn datblygu'r cyfleuster ynghyd â chreu hyd at 40 o swyddi newydd. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU yn cydnabod bod y prosiect yn hanfodol i ddatblygiad a dyfodol y Gogledd a'r economi ehangach.

**Meddai Is-ganghellor Prifysgol Bangor, yr Athro Iwan Davies:**

"Mae'r Ganolfan DSP yn enghraifft wych o sut mae Prifysgol Bangor yn cydweithio â diwydiant a sefydliadau academaidd eraill i ddatblygu atebion i fynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn drwy ymchwil a datblygu o'r radd flaenaf."





D angos sut mae offer y Ganolfan DSP yn cael ei defnyddio

Prif Noddwr:

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Uchafbwyntiau Chwarter 4

## Morlais yn cael Golau Gwyrdd i ddechrau Adeiladu

Daeth y prosiect yn barod i ddechrau adeiladu yn sgil sicrhau caniatadau a £31m o gyllid ERDF a chytuno ar gontractau adeiladu.



## Dau Brosiect yn cwblhau Adolygiadau Porth

Fe wnaeth y prosiect Ychydig % Olaf gwblhau ei adolygiad Porth 2 ym mis Chwefror gyda'r prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol wedi cwblhau ei adolygiad Porth 1 ym mis Ionawr. Mae'r ddau brosiect yn gweithio ar roi sylw i'r argymhellion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu hachosion busnes.

## Y Prosiect Cyntaf yn cael ei Weithredu


Wedi cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn cyntaf ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2021, mae'r prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol bellach wedi gosod archebion ar gyfer gwedd un y prosiect ac mae'r eitemau cyntaf o offer wedi'u derbyn.

## Cytuno ar Lythyr Cyllido

Yn sgil mabwysiadu diweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi, fe wnaethom gyflwyno'r diweddariad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Ym mis Mawrth, fe wnaethom dderbyn a llofnodi'r llythyr dyfarnu cyllid ar gyfer 2021-22 gan gadarnhau rhandaliad nesaf cyllid y Cynllun Twf o £20.45m.

## Fe ymunwyd ag Ymgyrch 'Dewch yn ôl' gan M-Sparc

Fe ymunwyd â'r ymgyrch 'Dewch yn ôl' am yr eildro, gyda'r nod o ddenu pobl ifanc i aros i fyw a gweithio yn Ogledd Cymru.



# Y Cynllun Rhwydwaith Ffibr Llawn Leol yn gwella cysylltiad Band Eang i 300 o safleoedd yn Gogledd Cymru

Gwell cysylltiad Band Eang mewn 311 o safleoedd

Cysylltiad band eang wedi gwella o 10Mbps i hyd at 1Gbps

Mae 165 o'r safleoedd hynny mewn ardaloedd gwledig* gyda Chysylltiadau Band Eang gwael blaenorol

**Trosolwg** :

Cafodd dros **300** o safleoedd cyhoeddus megis meddygfeydd, gorsafoedd ambiwlans ac ysbytai cymunedol fudd o well cysylltedd band eang eleni, oherwydd y cynllun Rhwydwaith Ffibr Llawn Leol (LFFN), a ariannwyd gan Lywodraeth y DU.

Arweiniodd y tîm Cysylltedd Digidol ar gyflawni'r cynllun hwn, gan helpu'r sector gofal iechyd i ddelio â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau i gleifion, yn dilyn y pandemig.

Mae'r cynllun wedi targedu safleoedd **i fynd i'r afael â rhai o'r heriau** a achosir gan wasanaethau band eang araf neu annibynadwy, gan eu cefnogi i fabwysiadu ffyrdd mwy effeithlon o weithio'n ddigidol ac yn y pen draw eu helpu i wella'r modd y darperir gwasanaethau i gleifion.

* Wedi'u dosbarthu'n wledig gan yr ONS

### Meddygfa Caerffynnon, Dolgellau

"Mae cael gwell cysylltiad band eang yn golygu ein bod wedi gallu darparu gwell gwasanaeth i'n cleifion. Mae'r gostyngiad yn yr aros i dasgau gweinyddol gael eu cwblhau wedi arwain at gleifion yn aros llai am apwyntiad.

Hefyd, rydym wedi gallu ychwanegu gwasanaethau megis fideo gynadledda i helpu cleifion o bell, sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i sawl un o'n cleifion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus."

Mrs Sarah Tibbetts, Rheolwr Practis ym Meddygfa Caerffynnon, Dolgellau.



**O'r Chwith**: Dylan Rhys Griffiths, Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Cysylltedd Digidol, Kirrie Roberts, Rheolwr Prosiect Cysylltedd Digidol, Mrs Sarah Tibbetts, Rheolwr Practis, Simon Hart (AS) a'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn ar ymweliad â Meddygfa Caerffynnon yn Nolgellau.

### Cyngor Sir Ddinbych

"Mae'r rhaglen LFFN wedi dod â mynediad i gysylltedd ffibr cyflym i nifer o safleoedd ledled Sir Ddinbych. Mae hyn wedi galluogi i ni fanteisio ar gysylltiadau cyflymach a mwy gwydn i'n rhwydwaith craidd. Mae cael mynediad i ryngrwyd dibynadwy cyflymach wedi helpu ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr i weithio'n hyblyg o leoliadau anghysbell. Mae cydweithwyr wedi gallu cadw'n ddiogel a chael cysylltedd da i wneud eu gwaith ar-lein yn ystod cyfyngiadau Covid-19 heb gael eu rhwystro gan gysylltedd araf â'r rhyngrwyd".

Barry Eaton, Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro, Cyngor Sir Ddinbych

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

"Mae cyfathrebu o'r radd flaenaf yn hanfodol i ni fel y gallwn sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion y boblogaeth leol.

Gall cysylltiadau cyflymach, mwy dibynadwy drawsnewid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio. Mae band eang gwell yn cefnogi ein timau a'n systemau ledled y Gogledd i ddod yn fwy gwydn."

Jo Whitehead, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



# Cynllun Twf Gogledd Cymru

# Trosolwg o'r Cynllun Twf

### Ein Nodau:

- Adeiladu economi **mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn** yn y Gogledd.
- **Adeiladu ar ein cryfderau** i roi **hwb i gynhyrchedd** a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i **gyflawni twf cynhwysol.**
- **Hyrwyddo twf** mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### Buddsoddiad

Buddsoddiad Cynllun Twf £240m

**Cyfanswm Buddsoddiad: >£1bn**

### Amcanion Gwariant

Creu hyd at 4,200 o swyddi newydd

Cynhyrchu hyd at £2.5 biliwn o GVA ychwanegol net

### Ein Rhaglenni

- Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth
- Cysylltedd Digidol
- Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
- Tir ac Eiddo
- Ynni Carbon Isel

# Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Trosolwg

Bydd y rhaglen hon yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd o'r radd flaenaf sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth. Oherwydd ein tirwedd amrywiol a thrawiadol, bydd y rhaglen yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cynaliadwy yn y Gogledd.

Wedi'i gyflawni'n llwyddiannus, bydd y rhaglen yn sicrhau'r arloesedd gorau posibl ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Bydd yn darparu cyfleusterau sy'n gyrru sefyllfa gynaliadwy sy'n gystadleuol yn fyd-eang i'n rhanbarth.

## Hwb Economi Gwledig Glynyllifon

**Prif Noddwr** Grŵp Llandrillo Menai

Nod y prosiect yw creu Hwb Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yn stad Glynllifon, ger Caernarfon. Bydd yn cynnig cyfleusterau i fusnesau rhanbarthol newydd neu rai sy'n ymestyn, megis unedau busnes a chanolfan wybodaeth ar y safle. Bydd y rhain yn cynnig profiad ymarferol i gefnogi twf arloesedd a menter.

Bydd y prosiect yn cryfhau'r cyfleoedd i gydweithio, datblygu'r gadwyn gyflenwi a thwf o fewn sector bwyd a diod sy'n ehangu yn y Gogledd.

# Bwyd-amaeth a Thwristiaeth
Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Rhwydwaith Talent Twristiaeth

**Prif Noddwr** Grŵp Llandrillo Menai

Nod y prosiect yw darparu sgiliau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer y dyfodol a chynyddu'r manteision masnachol o un o'r sectorau sydd wedi'i sefydlu orau ac sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth.

Wedi'i gyflawni'n llwyddiannus, bydd yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth.

## Fferm Sero Net Llysfasi

**Prif Noddwr** Coleg Cambria

Drwy gyfleuster pwrpasol ar gampws y coleg amaethyddol, bydd y prosiect yn arwain hyfforddiant ymarferol yn y technolegau diweddaraf a dulliau rheoli tir sy'n lleihau allyriadau a gwella bioamrywiaeth.

Bydd y prosiect hwn yn helpu i sicrhau dyfodol gwydn i'r Gogledd lle mae rheolaeth tir carbon niwtral a sector ynni adnewyddadwy datblygol yn cefnogi cymunedau rhanbarthol cynaliadwy, ffyniannus ac iach.

## Tabl Olrhain Cynnydd y Prosiectau

| | Cam 1 Pennu cyd-destun y prosiect | Cam 2 Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3 Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5 Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6 Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7 Gweithredu a Monitro'r Prosiect | Cam 8 Gwerthuso'r Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hwb Economi Gwledig Glynllifon | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | | |
| Fferm Sero Net Llysfasi | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | |

# Cysylltedd Digidol
Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Trosolwg

Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau cysylltedd yn Ogledd Cymru. Er bod gweddill y DU wedi elwa ar wasanaethau gwell yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oes gan lawer o'n cymunedau gysylltedd band eang symudol a sefydlog cryf. Bydd y rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am ddigidol ac elwa o gysylltedd cyflym o ansawdd uchel.

## Yr Ychydig % Olaf

**Prif Noddwr** Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales

Er bod gweddill y DU wedi elwa ar well cysylltedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhannau o'r Gogledd yn dal i fod heb ddarpariaeth band eang cyson, sydd wedi effeithio ar gymunedau, busnesau a'r economi ehangach.

Bydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael â'r 'rhaniad digidol' (y gwahaniaeth mewn ansawdd cysylltedd rhwng trefi a chymunedau gwledig) ac yn ystyried sut y gall cysylltedd gyrraedd yr olaf o safleoedd y rhanbarth sydd heb fand eang cyflym iawn (30 megabit yr eiliad) ar hyn o bryd. Ei nod fydd darparu cysylltedd band eang cynaliadwy a fforddiadwy er budd cymunedau a busnesau'r Gogledd.

## Canolfan Prosesu Signalau Digidol

**Prif Noddwr** Prifysgol Bangor University

Mae technoleg Prosesu Signal Digidol (DSP) yn rhan hanfodol o'r economi digidol ac mae'n rheoli sut caiff gwybodaeth ddigidol ei phrosesu'n effeithlon ac yn ddibynadwy rhwng dyfeisiau a phobl.

Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu galluoedd blaenllaw i ddatblygu technolegau DSP newydd, cefnogi cydweithio rhwng y diwydiant, creu swyddi a chyfleoedd o fewn cadwyni cyflenwi'r rhanbarth. Mae Llywodraethau Cymru a'r DU yn cydnabod bod y prosiect yn hanfodol i ddatblygiad a dyfodol y Gogledd a'r economi ehangach.

# Cysylltedd Digidol
Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol

**Prif Noddwr** Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales

Bydd y prosiect hwn yn gwella cysylltedd band eang ar gyfer lleoliadau allweddol yn y Gogledd. Mae'r lleoliadau hyn yn gyfoethog o ran busnesau bach a chanolig a fydd yn elwa o well cysylltedd.

Mae ffibr llawn yn dechnoleg rhwydwaith arweiniol sy'n galluogi band eang o'r safon uchaf. Mae pob busnes yn dibynnu ar well cysylltedd i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddigidol. Mae sicrhau bod busnesau'n gallu manteisio ar opsiynau cysylltedd cystadleuol a fforddiadwy yn hanfodol ar gyfer twf, arloesedd a chynaliadwyedd.

## Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig

**Prif Noddwr** Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales

Nod y prosiect hwn yw gwella cysylltedd ffonau symudol ar lwybrau trafnidiaeth a darparu seilwaith ffibr llawn cystadleuol i safleoedd masnachol allweddol ledled y rhanbarth.

Bydd buddsoddiad yn cael ei gyfeirio at rwydweithiau ffibroptig sy'n hanfodol ar gyfer darparu band eang 4G, 5G a gigabit.

## Tabl Olrhain Cynnydd y Prosiectau

| | Cam 1 Pennu cyd-destun y prosiect | Cam 2 Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3 Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5 Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6 Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7 Gweithredu a Monitro'r Prosiect | Cam 8 Gwerthuso'r Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ychydig % Olaf | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | |
| Canolfan Prosesu Signalau Digidol | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | |
| Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | |
| Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | | |

# Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Trosolwg

Bydd y Rhaglen hon yn hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.

Wrth wneud hynny, nod y rhaglen yw sicrhau cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant gwerth uchel a chefnogi busnesau gweithgynhyrchu i ddatgarboneiddio yn unol ag ymdrechion cenedlaethol a byd-eang.

## Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

**Prif Noddwr** Prifysgol Bangor University

Bydd y prosiect hwn yn archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel yn lle cynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol. Wedi'i leoli ym Mhrifysgol Bangor, bydd y prosiect yn ymchwilio i ensymau unigryw a sut y gallant drawsnewid yn gynhyrchion sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd na deunyddiau cyfredol a chemegau diwydiannol.

## Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter

**Prif Noddwr** Prifysgol Glyndŵr University

Bydd y prosiect yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.

Bydd y prosiect yn gyrru arloesedd a masnacholi o fewn busnesau rhanbarthol, i greu swyddi a denu mewnfuddsoddiad.

## Tabl Olrhain Cynnydd y Prosiectau

| | Cam 1 Pennu cyd-destun y prosiect | Cam 2 Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3 Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5 Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6 Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7 Gweithredu a Monitro'r Prosiect | Cam 8 Gwerthuso'r Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | |



# Tir ac Eiddo

Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Trosolwg

Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, i ddatgloi cyfleoedd ac adeiladu ar ein cryfderau.

Drwy fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r farchnad eiddo yn Ogledd Cymru, bydd y rhaglen yn datblygu safleoedd i ddarparu eiddo preswyl a chyflogaeth. Bydd hefyd yn sicrhau'r capasiti mwyaf posibl mewn cysylltiadau trafnidiaeth allweddol.

## Porth Caergybi

**Prif Noddwr** Stena Line

Bydd y prosiect yn gwella capasiti'r porthladd drwy adennill tir (creu tir newydd o'r môr) o fewn yr harbwr. Wrth wneud hyn, y nod yw sicrhau y gall y porthladd fodloni gofynion cynyddol ymweliadau busnes a thwristiaeth â'r rhanbarth.

Mae'r porthladd yn un o'r llwybrau trafnidiaeth a ddefnyddir fwyaf rhwng y DU ac Iwerddon. Fel ail borthladd prysuraf y DU, mae'n gyswllt trafnidiaeth pwysig rhwng y ddwy wlad.

## Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan

**Prif Noddwr** Uchelgais Gogledd Cymru / Ambition North Wales

Bydd y prosiect hwn yn darparu gwasanaethau sylfaenol, megis pŵer, telathrebu a dŵr er mwyn datblygu eiddo preswyl a chyflogaeth. Wrth wneud hynny, y nod yw denu buddsoddiad gan y sector preifat a darparu cyfleoedd i fusnesau adleoli ac ehangu i greu swyddi newydd.

## Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

**Prif Noddwr** Jones Bros Civil Engineering UK

Mae'r cyn ysbyty mewn cyflwr gwael yn dilyn ymosodiadau diweddar a llosgi bwriadol a fandaliaeth ddifrifol. Bydd y prosiect yn dymchwel, yn dadhalogi ac yn glanhau'r safle fel ei fod yn addas ar gyfer datblygiadau preswyl ac eiddo cyflogaeth. Y nod yw denu buddsoddiad preifat, darparu swyddi newydd a chreu cyfleoedd i fusnesau adleoli neu ehangu.



# Tir ac Eiddo

## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Porth y Gorllewin

**Prif Noddwr**

Bydd y prosiect hwn yn darparu gwasanaethau sylfaenol, megis pŵer, telathrebu a dŵr er mwyn datblygu eiddo cyflogaeth a busnes.

Wrth wneud hynny, y nod yw denu buddsoddiad gan y sector preifat a darparu cyfleoedd i fusnesau adleoli ac ehangu i greu swyddi newydd.

## Parc Bryn Cegin

**Prif Noddwr**

Bydd y prosiect hwn yn datblygu tir ar gyfer adeiladau cyflogaeth a busnes newydd. Wrth wneud hynny, y nod yw denu buddsoddiad gan y sector preifat a chreu cyfleoedd i fusnesau adleoli ac ehangu.

Bydd hefyd yn creu cyfleoedd gwaith newydd.

## Neuadd Warren

**Prif Noddwr**

Bydd y prosiect hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau sylfaenol fel pŵer, telathrebu a dŵr i'r safle. Bydd hefyd yn lefelu'r tir fel ei fod yn addas ar gyfer eiddo cyflogaeth a busnes. Y nod yw denu buddsoddiad gan y sector preifat a chreu cyfleoedd i fusnesau adleoli ac ehangu. Bydd hefyd yn creu cyfleoedd gwaith newydd.

## Tabl Olrhain Cynnydd y Prosiectau

| | Cam 1 Pennu cyd-destun y prosiect | Cam 2 Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3 Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5 Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6 Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7 Gweithredu a Monitro'r Prosiect | Cam 8 Gwerthuso'r Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Porth Caergybi | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | |
| Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan | Ar waith | | | | | | | |
| Porth y Gorllewin | Wedi'i gwbwlhau ✓ | Ar waith | | | | | | |
| Neuadd Warren | Ar waith | | | | | | | |
| Parc Bryn Cegin | Ar waith | | | | | | | |



# Ynni Carbon Isel
## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

### Trosolwg

Bydd y rhaglen hon yn datgloi buddion datblygu prosiectau ynni carbon isel o fewn y rhanbarth, gan sefydlu Gogledd Cymru fel un o'r lleoliadau arweiniol ar gyfer y sector ynni carbon isel.

Mae nodweddion ac adnoddau naturiol unigryw ein rhanbarth yn cynnig y potensial i ddatblygu prosiectau sy'n creu swyddi newydd, yn lleihau allyriadau carbon ac yn cyfrannu at gyflawni sero-net erbyn 2050.

### Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)

**Prif Noddwr** PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Bydd y prosiect hwn yn buddsoddi i ddatblygu Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel ym Mhrifysgol Bangor a M-SParc, gwella galluedd y rhanbarth ar gyfer ymchwil, dylunio ac arloesedd mewn ynni carbon isel.

Bydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymchwil pellach, datblygu'r gadwyn gyflenwi a denu mewnfuddsoddiad

### Morlais

**Prif Noddwr** MENTER MÔN

Bydd y prosiect hwn yn cysylltu Morlais â'r system grid trydan, i alluogi i ddatblygwyr technoleg llif llanw ddefnyddio eu dyfeisiau yn y parth. Lleolir Morlais oddi ar arfordir gogledd-orllewinol Ynys Gybi, Ynys Môn a'i nod yw cynhyrchu trydan drwy ynni'r llanw. Unwaith y bydd yr isadeiledd yn ei le, bydd yn defnyddio rhai o'r adnoddau llanw gorau yn Ewrop.

### Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth

**Prif Noddwr** Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales

Bydd y prosiect hwn yn cefnogi'r defnydd o hydrogen gwyrdd i roi hwb i'r economi hydrogen carbon isel yn y rhanbarth, gan gynnwys opsiynau ar gyfer datgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth.

# Ynni Carbon Isel

Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Ynni Lleol Blaengar

**Prif Noddwr** Uchelgais Gogledd Cymru / Ambition North Wales

Nod y prosiect yw cefnogi prosiectau ynni ledled y Gogledd a fydd yn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio a bydd iddynt elfen o berchnogaeth leol. Bydd hefyd yn helpu i ddatgloi buddsoddiad preifat a chymunedol mewn prosiectau ynni newydd.

Diffinnir perchnogaeth leol fel asedau sy'n eiddo i randdeiliaid sydd wedi'u lleoli ac sy'n gweithredu yn y Gogledd, boed hynny'n unigolion, yn gymunedau, yn fusnesau neu'n sefydliadau eraill.

## Trawsfynydd

**Prif Noddwr** cwmni Egino

Bydd y prosiect hwn yn defnyddio Adweithyddion Modiwlaidd Bach neu Uwch cyntaf o'u math ar safle Trawsfynydd i gynhyrchu ynni carbon isel.

Bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu tuag at gostau datblygu'r prosiect ac isadeiledd, helpu i greu swyddi a gosod y Gogledd mewn safle blaenllaw ar gyfer technoleg sydd â photensial arwyddocaol i'w defnyddio ledled y DU ac yn rhyngwladol.

## Tabl Olrhain Cynnydd y Prosiectau

| | Cam 1 Pennu cyd-destun y prosiect | Cam 2 Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Cam 3 Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 4 Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Cam 5 Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cam 6 Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Cam 7 Gweithredu a Monitro'r Prosiect | Cam 8 Gwerthuso'r Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Morlais | Wedi'i gwbwlhau | Wedi'i gwbwlhau | Wedi'i gwbwlhau | Wedi'i gwbwlhau | Ar waith | | | |
| Trawsfynydd | Wedi'i gwbwlhau | Ar waith | | | | | | |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni) | Wedi'i gwbwlhau | Ar waith | | | | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Wedi'i gwbwlhau | Wedi'i gwbwlhau | Ar waith | | | | | |
| Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Wedi'i gwbwlhau | Wedi'i gwbwlhau | Ar waith | | | | | |

# Rhaglenni Sgiliau a Thrafnidiaeth





# Sgiliau a Chyflogadwyedd
Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

## Trosolwg gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r ffocws wedi bod ar sicrhau aelodaeth cyflogwyr a chael mewnbwn gan ein sectorau allweddol a'r sectorau twf. Datblygwyd dau grŵp clwstwr cyflogwyr newydd fel is-grwpiau o'r bwrdd, cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a chyflogwyr adeiladu. Gwnaethom hefyd ail-ganolbwyntio ein grŵp darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phenodi cadeirydd newydd.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau ein haelodaeth o gyflogwyr ymhellach wrth i ni ddatblygu cynllun cyflogaeth a sgiliau nesaf 2023-25 lle bydd ffocws cryf ar sgiliau digidol, sero net, y Gymraeg a chyflogadwyedd. Bydd y cynllun yn nodi'r blaenoriaethau sgiliau a chyflogaeth allweddol ac unrhyw sectorau rhanbarthol allweddol ar gyfer y rhanbarth, sy'n cyd-fynd â chynlluniau economaidd rhanbarthol, gan gynnwys y Cynllun Twf.

Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil Covid-19, nid yw ein blaenoriaethau wedi newid ac maent wedi dod yn fwyfwy pwysig er mwyn sicrhau adferiad economaidd sy'n cael ei arwain gan sgiliau yn y rhanbarth. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar roi cefnogaeth i'n sectorau allweddol a'n sectorau twf yn y rhanbarth.

Eleni rydym wedi gwneud cynnydd drwy gyflawni ein cynllun gweithredu o weithgareddau ar gyfer pob un o'r tair blaenoriaeth.

## Uchafbwyntiau dros y 12 mis diwethaf

**Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI):** Rydym wedi cryfhau ein galluedd dadansoddol ac wedi mynd ati i gymryd golwg ddadansoddol ddofn ar ein tirwedd cyfnewidiol a'r heriau a'r materion sgiliau sy'n wynebu cyflogwyr ar draws ein sectorau allweddol a thwf. Rydym wedi cynhyrchu tri adroddiad LMI Covid-19 dros y flwyddyn sydd wedi helpu i lywio polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru ar gyfer Sgiliau a Chyflogadwyedd.

**Wedi cyhoeddi Adroddiad Sgiliau Gwyrdd:** Comisiynwyd Data Cymru i gynhyrchu Adroddiad Sgiliau Gwyrdd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dull y maent wedi'i ddefnyddio i ddeall swyddi a sgiliau gwyrdd, yn nodi'r prif ffynonellau data sydd ar gael i'r cyhoedd, ac yna'n asesu'r heriau swyddi gwyrdd a sgiliau o fewn sectorau allweddol yn economi Cymru.



# Sgiliau a Chyflogadwyedd
## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Trawsfynydd:** Er mwyn hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ddatblygu pibell sgiliau ar gyfer datgomisiynu niwclear, cytunwyd i gydweithio â Magnox Ltd a Grŵp Llandrillo Menai i gefnogi'r uchelgais hwn. Bydd y trefniant cydweithio cydweithredol hwn yn anelu i ddarparu ystod o fuddion arfaethedig i'r rhanbarth a fydd yn cynnwys pibell sgiliau glir a fydd yn helpu darparwyr sgiliau/hyfforddiant a'r gadwyn gyflenwi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gofynion sgiliau yn y dyfodol ar gyfer y 5-10 mlynedd nesaf




Llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Trawsfynydd rhwng y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a Grŵp Llandrillo Menai

**Gwarant Person Ifanc:** Rydym wedi cwblhau gwaith mapio i ddeall y dirwedd bresennol o ran darpariaeth a chymorth i bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET. Buom yn ymgynghori â rhaglenni a phrosiectau ar draws y rhanbarth er mwyn deall yn well y tirlun presennol o gynnig/cymorth sydd ar gael o ran y cymorth/darpariaeth addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a lles presennol sydd ar gael i bobl ifanc yn lleol ac yn rhanbarthol.

**Ymgyrchoedd Cyfryngau Cymdeithasol a Digwyddiadau Gyrfa:** Roedd angen ymyriadau arloesol ar draws pob sector i helpu i wella o'r pandemig y llynedd. Ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, roedd hyn yn golygu cydweithio â phartneriaid i drefnu a chyflwyno ystod o ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau gyrfaoedd. Mae rhai ymgyrchoedd a digwyddiadau nodedig yr ydym wedi'u cefnogi i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol yn cynnwys; Eich Gyrfa, Eich Dyfodol; Gŵyl Sgiliau Digidol; Twristiaeth a Lletygarwch a Phob Cam.



# Trafnidiaeth

## Trosolwg a Chynnydd y Rhaglen

### Y 12 mis diwethaf:

- Buom yn gweithio fel rhanbarth i ysgrifennu ymateb cydlynol i Ymgynghoriad Trawsnewid Great British Railway. Cafwyd cyfraniad cadarnhaol gan bob un o'r chwe awdurdod lleol, Trafnidiaeth Cymru a Growth Track 360.

- Ers mis Ionawr, rydym wedi bod yn cefnogi'r gwaith o weithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn raddol, yn enwedig o ran y Swyddogaethau Trafnidiaeth. Ceisio mewnbwn gan bob un o'r chwe adran drafnidiaeth, y gyllideb flynyddol gyntaf ac arwain y tîm gweithredu ar feysydd trafnidiaeth allweddol.

- Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith sy'n ofynnol gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol ofynnol. Mae cyfarfodydd rheolaidd grŵp trafnidiaeth ranbarthol wedi sicrhau bod yr holl bartneriaid yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth o fewn y Cydbwyllgor Corfforedig.

### Y 12 mis nesaf:

- Bydd awdurdodau lleol yn ymateb i'r Ymgynghoriad 'One Network' ym mis Mehefin eleni, rydym yn bwriadu cefnogi'r Awdurdodau Lleol ymhellach drwy ddwyn eu hymatebion lleol ynghyd ag ymateb rhanbarthol cryfach er mwyn cefnogi eu barn ymhellach.

- Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, sydd â diddordeb arbennig yn y swyddogaeth drafnidiaeth. Bydd y grŵp trafnidiaeth ranbarthol yn parhau i weithio drwy'r tasgau angenrheidiol i sicrhau bod modd trosglwyddo'n symlach i Gynllunio Rhanbarthol.

- Gyda dyddiad cyhoeddi wedi'i dargedu ar gyfer haf 2023, eleni bydd y rhanbarth yn dechrau datblygu ei Gynllun Trafnidiaeth Ranbarthol cyntaf fel Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd y ffocws ar ein hymateb rhanbarthol i weithredu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth fel y nodir yn y 'llwybr newydd', yn ogystal ag anghenion lleol ein dinasyddion, ein cymunedau, ein busnesau a'n hamgylchedd.

# Llywodraethu

# Trosolwg o Lywodraethu

Sefydlwyd y Bwrdd Uchelgais Economaidd gan bartneriaid awdurdodau lleol fel cyd-bwyllgor yn 2019 a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, ynghyd ag arwain ar gydweithio economaidd rhanbarthol.

Wedi sicrhau'r Cynllun Twf ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaeth y partneriaid gytuno i 'Gytundeb Llywodraethu 2'. Mae'r cytundeb, sy'n ddogfen sydd wedi'i rhwymo mewn cyfraith, yn diffinio rôl a swyddogaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd, a'i ddefnydd o bwerau dirprwyedig. Yn ogystal, mae'n amlinellu'r strwythurau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd democrataidd.


Mae trefniadau llywodraethu'r Cynllun Twf yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw er budd y rhanbarth cyfan. Tra bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gweithredu fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer y Cynllun Twf, mae cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol cryf â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel arianwyr y Cynllun Twf.

Mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau. Mae'r dull hwn yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

**Trefniadau Craffu**
Darperir swyddogaeth craffu Cynllun Twf Gogledd Cymru gan y chwe awdurdod lleol drwy eu trefniadau Pwyllgorau Craffu presennol. Bydd y Pwyllgorau Craffu yn ystyried yr adroddiadau chwarterol a blynyddol a gaiff eu cynhyrchu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

**Adrodd**
Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynhyrchu adroddiadau cynnydd chwarterol ac adroddiad blynyddol ar y Cynllun Twf a gaiff eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, y Bwrdd Uchelgais a'i bartneriaid. Bydd yr adroddiadau hyn ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan.

**Strwythyr Prosiectau Cynllun Twf**



# Gwerth Ychwanegol

Rydym yn credu mewn rhoi'n ôl i'r Gogledd. Fel tîm, rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn sicrhau buddion ychwanegol i'r rhanbarth a bod ein gwaith yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Gogledd.

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn rydym wedi'i wneud yn 2021/22:

- Gwnaethom sicrhau dros £1m mewn grantiau ychwanegol i gefnogi prosiectau yn y Gogledd.
- Gwnaethom gefnogi Prosiect Morlais i sicrhau £31m gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.
- Codwyd £2,300 gennym ar gyfer canghennau Mind lleol yn y Gogledd drwy gerdded llwybr arfordir y Gogledd i gyd.
- Gwnaethom sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol o £78,000 drwy Broses gaffael y DSP.
- Gwnaethom gefnogi prosiectau rhanbarthol drwy roi mewnbwn i achos busnes ailddatblygu Theatr Clwyd, a sicrhaodd £25m gan Lywodraeth Cymru.
- Gwnaethom gyfrannu at ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus drwy gasglu sbwriel o'n cymunedau lleol.







# Y 12 Mis Nesaf

Gan y Cyfarwyddwr Portffolio, Alwen Williams

Mae angen i ni edrych ymlaen yn gadarnhaol ac yn benderfynol i gyflawni hyd yn oed mwy ar gyfer y Gogledd dros y deuddeg mis nesaf. Heb os, bydd yn her wrth i ni wneud synnwyr o'r ddynameg newydd o weithio yn y byd ar ôl y pandemig.

Un o'n blaenoriaethau allweddol yw datblygu ein strategaeth ar gyfer denu buddsoddiad gan y sector preifat. Mae gennym strategaeth ddrafft yn ei lle sy'n cydnabod y gofyn i ddenu buddsoddiad sector preifat yn uniongyrchol i brosiectau'r Cynllun Twf, ond mae hefyd yn cydnabod y bydd buddsoddiad y Cynllun Twf yn gwella isadeiledd y rhanbarth, gan felly greu cyfleoedd buddsoddi mwy apelgar ar gyfer y sector busnes ac amlygu ein cryfderau a'n natur gystadleuol fel rhanbarth.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn eithriadol o ran y ffordd rydym yn gweithio a bellach, mae gennym gyfle i estyn allan i'r farchnad buddsoddwyr, gyda dull gweithredu a fydd yn denu ac yn magu diddordeb ac yn dangos y potensial y gall y Gogledd ei ddarparu i fuddsoddwyr. Fe wnaethom fentro i gynnal ein digwyddiad ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad gyda busnesau yn y rhanbarth eleni, gan roi trosolwg cynnar iddynt o'n blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer busnesau dros y blynyddoedd nesaf. Edrychwn ymlaen at barhau i adeiladu ar y berthynas hon gyda'n marchnad cyflenwyr lleol wrth i ni symud ymlaen.

Ar ôl symud i gam cyflawni'r Cynllun Twf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bydd y 12 mis nesaf yn canolbwyntio ar sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer gwedd nesaf ein prosiectau gan ganolbwyntio'n wirioneddol ar sicrhau buddion a gwerth cymdeithasol ychwanegol i'r rhanbarth. Er bod heriau i'w goresgyn, yn enwedig o ran chwyddiant a chostau cynyddol, mae'r cyfleoedd ar gyfer y Gogledd yn sylweddol ac yn rhai y gellir eu cyflawni.

Roedd gan y cyntaf o'r wedd nesaf hon, y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter gan Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam, achos busnes amlinellol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ebrill a bydd yn awr yn symud ymlaen drwy'r broses gaffael cyn ceisio penderfyniad buddsoddi terfynol yn gynnar yn 2023.

Mae gyrru tuag at ddyfodol sero-net yn egwyddor sylfaenol ar gyfer y Cynllun Twf. Buddsoddi mewn ffordd sy'n hyrwyddo dyfodol gwyrddach a glanach drwy ein buddsoddiadau. Eleni, rydym wedi gweithio gydag Arup ar ddull sy'n arwain y ffordd ar gyfer buddsoddi cyfalaf i ystyried datblygu cynaliadwy a chyflawni'n wirioneddol yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni symud ymlaen. Disgrifiwyd hyn fel dull arloesol gan ein partneriaid, Arup. Rydym yn falch o fod yn arwain y ffordd yn y Gogledd ac edrychwn ymlaen at weithredu'r dull hwn gyda phartneriaid ein prosiectau dros y flwyddyn nesaf.

Fel rhanbarth ac mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gydweithio i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd Ffyniant Bro a byddwn yn cyflwyno cynllun buddsoddi ar gyfer y Gronfa Ffyniant Cyffredin fel rhan o gyflawni yn erbyn ein Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer y Gogledd.

Mae partneriaeth 'tîm Gogledd Cymru' yn parhau i fagu momentwm ac rwy'n hynod falch o'r effaith sy'n cael ei chyflawni ond hefyd, yn bwysig, y twf mewn perthnasoedd a gwydnwch personol a ddangoswyd gan bawb sy'n gysylltiedig drwy gydol yr hyn sydd, ac sy'n parhau i fod, yn gyfnod hir o ansicrwydd economaidd ac ansefydlogrwydd. Gyda hyn mewn golwg, gallwn edrych ymlaen yn hyderus wrth i ni barhau i gyflawni dros y Gogledd.

# Ein Partneriaid

## £240m o fuddsoddiad y Cynllun Twf wedi'i ariannu gan

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **23ain Tachwedd 2022** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru, Chwarter 1 2022/23** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno Adroddiad Chwarter 1 Cynllun Twf Gogledd Cymru** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor**<br><br>**Cyng. Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Datblygu'r Economi, Hamdden a Thwristiaeth** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams. Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** Nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod chwarter 1 2022/23

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r cyngor trwy:

- Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor- swyddi a chyfleoedd gwaith
- Gweithio gyda chynghorau eraill Gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad i sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth leol yn mynd rhagddo

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Cefndir**

5.1Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

5.2 Mae adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf.

**Cynnydd Chwarter 1 2022/23**

5.3 Mae adroddiad perfformiad Chwarter 1 yn rhoi trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

5.4 Yn ystod y chwarter cafodd yr achos busnes amlinellol ar gyfer y prosiect Peirianneg Menter a Chanolfan Optegol gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam gymeradwyaeth i symud i'r cam nesaf.

5.5 Yn ystod y chwarter hwn gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ar brosiect Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf, sy'n rhan o'r Rhaglen Ddigidol ac mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ddatblygu.

5.6 Mae diweddariad Chwarter 1 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni Achos Busnes diwygiedig y Portffolio ar gyfer 2021 a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Medi 2021. Mae pedwar prosiect yn adrodd yn Goch ar hyn o bryd naill ai yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw. Mae ariannwr y prosiect wedi gofyn am amser ychwanegol i gwblhau'r achos busnes.
- Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan - mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi llithro. Mae cais wedi'i wneud am wybodaeth ychwanegol gan Gyngor Sir Ddinbych ar sefyllfa polisi cynllunio tebygol y safle wrth symud ymlaen a'r amserlenni sydd ynghlwm â hynny.
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon - caniatâd cynllunio i'w sicrhau a bwlch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu.
- Fferm Sero Net Llysfasi - oedi gyda'r prosiect yn ymgorffori adborth adolygiad Porth 2.

5.7 Disgwylir hawliad cyntaf ar gyfer costau'r prosiect DSP o fis Ionawr i ddiwedd mis Mehefin ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma yn ymwneud â thynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Bydd y Byrddau Rhaglen a'r Byrddau Prosiect yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol ar gyfer bob prosiect unigol. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw ac yn esblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Gweler 6.1 uchod |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Gweler 6.1 uchod |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| 7.1 Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn.<br><br>7.2. Mae'r adroddiad yn gosod allan bod y proffil cyflawni a gwariant yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd fel rhan o ddiweddariad blynyddol yr Achos Busnes Portffolio a bydd yn cael ei adrodd o Chwarter 2. |

| |
|---|
| **8 – Atodiadau** |
| 1. Cynllun Twf Gogledd Cymru - Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 |

| |
|---|
| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| |

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

Adroddiad Perfformiad

Chwarter 1 2022-23

(Ebrill i Mehefin 2022)

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio .......... 3

2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio .......... 4

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol .......... 5

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel .......... 7

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel .......... 8

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth .......... 13

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel .......... 15

8. Tabl Cynnydd Prosiectau'r Cynllun Twf .......... 17

9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni (Mehefin 2022) .......... 18

10 -12. Piblinell Cyflawni Prosiect y Cynllun Twf, Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf, Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf .......... 19

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf .......... 20

Yn ystod y chwarter hwn, cafodd yr achos busnes amlinellol ar gyfer y **prosiect Peirianneg Menter a Chanolfan Optegol gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam gymeradwyaeth** i symud i'r cam nesaf.

Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno ar draws dau safle'r Brifysgol yng Nghanolfan OpTIC, Llanelwy a Champws Plas Coch, Wrecsam. Nod y prosiect yw **helpu busnesau gweithgynhyrchu yn y rhanbarth i ddatgarboneiddio**. Bydd yn archwilio'r defnydd integredig o opteg, ffotoneg a chyfansoddion fel atebion amgen, ysgafnach gyda chymwysiadau ar draws pob arbenigedd gweithgynhyrchu.

Mae'r angen dybryd i leihau allyriadau carbon a gwastraff o fusnesau gweithgynhyrchu yn hysbys iawn, yn ogystal â'r manteision posibl megis arbedion cost ac effeithlonrwydd. Fodd bynnag, gall technoleg sy'n newid yn barhaus ac opsiynau di-rif fod yn frawychus i lawer o fusnesau. Nod y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter **yw pontio'r bwlch drwy ddarparu cyfleusterau ac ymchwilwyr o'r Brifysgol i weithio gyda busnesau i archwilio atebion**.



Bydd busnesau'n gallu **defnyddio'r cyfleusterau i greu a phrofi deunyddiau a chydrannau mewn amgylchedd rheoledig**. Y bwriad yw y bydd hyn yn arwain at gynhyrchion a systemau sy'n fwy effeithlon ac sy'n gofyn am lai o ynni, gan leihau costau ac allyriadau. Bydd y prosiect yn creu cyfleoedd cyflogaeth lleol a'i nod yw denu mewnfuddsoddiad i'r rhanbarth.

Mae un arall o'n prosiectau, **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf** fewn y Rhaglen Ddigidol wedi gwneud cynnydd sylweddol y chwarter hwn drwy gwblhau ei broses sicrwydd a sicrhau cefnogaeth gan y Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Cyflawni Busnes cyn cyflwyno'r achos busnes amlinellol i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf am ystyriaeth.

Eleni eisoes, mae'n teimlo ein bod o'r diwedd yn symud ymlaen tuag at gyflawni a gweld prosiectau'r Cynllun Twf yn dod i'r amlwg ar gyfer y rhanbarth. Mae hyn yn hynod foddhaol, yn enwedig i'r rhai sydd wedi cymryd rhan, dros flynyddoedd lawer, i'n cael ni yma. Fodd bynnag, dim ond rhan o'r stori yw'r Cynllun Twf ac mae hefyd yn werth nodi ac ystyried yr eco-system lawer ehangach y mae'n bodoli ynddi

Y llynedd, fe wnaethom gyd-greu a chyhoeddi ein Fframwaith Economaidd Rhanbarthol sy'n nodi ein blaenoriaethau economaidd ac yn hwyluso ffordd o feddwl am ein heriau a'n cyfleoedd gan ddefnyddio dull system gyfan. Yn y pen draw, mae angen i ni fod yn sbarduno newid ac arloesedd mewn ffordd sy'n sicrhau ein bod yn diogelu ac yn gwella ein hamgylchedd naturiol, ac yn galluogi i'n pobl, ein cymunedau a'n busnesau ffynnu.

Ledled y Gogledd, rydym bellach yn gweithio gyda'n gilydd i adnabod, cytuno a chynllunio sut y gellir gwario ein dyraniad o £126.5m mewn Cyllid Ffyniant Gyffredin i gyfoethogi ein cymunedau, mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu ceisiadau Ffyniant Bro, rydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu Cynlluniau Gweithredu Ynni Ardal Leol sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Ynni Ranbarthol, ac rydym yn paratoi'r ffordd ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a'i gyfrifoldeb ar Drafnidiaeth Ranbarthol, Cynllunio Strategol a Lles Economaidd. Dim ond ychydig o enghreifftiau yw'r rhain o'r cogiau'n symud o fewn ein system economaidd a gyda'i gilydd byddant yn chwarae rhan bwysig yn ein helpu i weld y Gogledd yn ffynnu mewn ffordd gynaliadwy a chynhwysol.



*Alwen Williams*

**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | Gwyrdd | Mae'r broses ar gyfer diweddaru'r Achos Busnes Portffolio ar gyfer 2022 bellach wedi dechrau. Disgwylir i'r achos busnes wedi'i ddiweddaru gael ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Hydref 2022 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. |
| Piblinell Cyflawni | Ambr | Mae'r biblinell gyflenwi yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022 gyda nifer o brosiectau'n rhagweld oedi ar hyn o bryd. |
| Llywodraethu | Gwyrdd | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae gweithdrefn Gwrthdaro Buddiannau yn ei lle ar draws yr holl Fyrddau. |
| Sicrwydd | Gwyrdd | Mae trydydd adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglenni) wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2022 a bydd yn canolbwyntio ar y rhaglenni Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel yn ogystal â'r portffolio ehangach. |
| Adnoddau a Chapasiti | Gwyrdd | Mae dwy swydd wag yn y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'u hysbysebu gyda chyfweliadau wedi'u trefnu ar gyfer dechrau mis Gorffennaf. |
| Cyllid | Ambr | Disgwylir hawliad cyntaf ar gyfer costau'r prosiect DSP o fis Ionawr i ddiwedd mis Mehefin ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon hyd yma yn ymwneud â thynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.<br><br>Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | Coch | Mae'r proffil risg wedi parhau'n sefydlog dros y chwarter diwethaf. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod y risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Mae'r risg o newid gwleidyddol wedi gostwng yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. |
| Monitro a Gwerthuso | Gwyrdd | Cynhelir adolygiad o'r trefniadau Monitro a Gwerthuso ar gyfer y Cynllun Twf fel rhan o ddiweddariad Achos Busnes Portffolio 2022. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Gwyrdd | Yn ystod y chwarter hwn, buom yn dathlu llwyddiant cynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio Ymchwil Busnes y System Gyfan (WBRID) yn y rhanbarth. Fe wnaethom hyrwyddo astudiaethau achos o lwyddiant y tri sefydliad o ran helpu ffermwyr i ddatgarboneiddio. Buom hefyd yn dathlu cydweithrediad newydd gyda Codau First Girls, cynllun sy'n rhoi cyrsiau codio am ddim i fenywod a phobl aneuaidd, gyda'r nod o gau'r bwlch sgiliau rhyw. Yn ogystal, cawsom stondin yn Eisteddfod yr Urdd a chynhaliwyd gweithgareddau marchnata i ymgysylltu â phobl ifanc a'r gymuned. Rhyddhawyd dwy Drafodaeth Ddigidol arall am Gysylltedd Digidol yn y rhanbarth a dilyniant i Ddenu Pobl Ifanc i Ogledd Cymru. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae offer prosiect DSP bellach yn cael ei ddarparu a bydd yr hawliad cyntaf i Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno yn Ch2. Bydd gwaith i ddatblygu'r cyntaf o ddau Achos Cyfiawnhau Busnes hefyd yn dechrau yn Ch2 i gymeradwyo ail gyfran cyllid y Cynllun Twf.<br>• Mae'r prosiect ychydig % diwethaf wedi cwblhau adolygiadau sicrwydd pellach; Sicrwydd annibynnol o Weithredu, adolygiadau Byrddau Prosiect a Rhaglen ac adolygiad gan y Grŵp Cyflawni Busnes. Adolygiadau'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais i'w cynnal ym mis Gorffennaf cyn cwblhau trefniadau caffael a gweithgarwch ymgysylltu pellach â'r farchnad. Disgwylir canlyniad Adolygiad Cyhoeddus presennol Llywodraeth Cymru o'r ddarpariaeth band eang yng Nghymru erbyn mis Gorffennaf/Awst.<br>• Mae prosiectau Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig bellach wedi uno i ffurfio'r prosiect Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig (CKSC) gyda gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol i ddechrau yn Ch2 gyda Bwrdd Prosiect a Grŵp Cynghori Technegol bellach ar waith.<br>• Bydd datblygiad Achos Amlinellol Strategol y Campws Cysylltiedig yn parhau drwy Ch2 ochr yn ochr â'r prosiect Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig gyda chapasiti ac arbenigedd ymgynghori i'w caffael ar gyfer y ddau yn Ch2. |





Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol** Prifysgol Bangor | Cyflwyno | • Cyflawni gwedd gyntaf yr offer<br>• Cynllunio gweithgareddau Ymchwil a Datblygu sy'n gysylltiedig â buddsoddiad y Cynllun Twf. | • Datblygu'r Achos Cyfiawnhau Busnes cyntaf cyn cymeradwyo ail gam y cyllid<br>• Digwyddiadau Lansio | | • Cynnydd ar y trywydd iawn heb unrhyw rwystrau wedi'u hadnabod |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygiad Sicrwydd Gweithredu yn dilyn argymhelliad Porth 2 (Ch4 21/22)<br>• Cwblhau achosion Masnachol, Ariannol ac Economaidd<br>• Adolygiadau Bwrdd Prosiect a Rhaglen<br>• Adolygiad Grŵp Cyflawni Busnes<br>• Adolygiad PMO | • Adolygiad Bwrdd Portffolio<br>• Adolygiad y Bwrdd Uchelgais<br>• Ymgysylltu â'r farchnad<br>• Canlyniad Adolygiad Cyhoeddus LIC o ddarpariaeth band eang<br>• Manyleb fasnachol wedi'i chwblhau<br>• Cymeradwyaeth ddirprwyedig i'r dull caffael *(yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais)*<br>• Caffael *(yn amodol ar gymeradwyaeth ddirprwyedig)* | | • OBC ar y trywydd iawn i dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais<br>• Yn ddibynnol ar ddeilliant PR LIC<br>• Ymgysylltu â'r farchnad i'w wneud cyn penderfynu ar y dull caffael terfynol (yn gysylltiedig â'r deilliant PR sydd ar gael) |
| **Safleoedd a Choridorau Cysylltiedig Allweddol**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Ffurfio prosiect newydd sy'n uno prosiectau Coridorau Cysylltiedig blaenorol a Ffibr Llawn mewn safleoedd allweddol<br>• Bwrdd Prosiect a Grŵp Cynghori Technegol bellach wedi'u ffurfio gyda SRO yn ei le<br>• Manyleb ar gyfer cymorth ymgynghori yn barod ar gyfer caffael<br>• Arolwg rhanbarthol o ddarpariaeth 4G bellach wedi'i gwblhau | • Caffael cymorth ymgynghori<br>• Cynnydd yn y gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol<br>• Penodi dirprwy SRO | | • Mân oedi cyn caffael cymorth ymgynghori |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Bwrdd Prosiect a Grŵp Cynghori Technegol bellach wedi'u ffurfio gyda SRO a dirprwy yn eu lle<br>• Manyleb ar gyfer cymorth ymgynghori yn barod ar gyfer caffael | • Caffael cymorth ymgynghori<br>• Cynnydd yn y gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol | | • Mân oedi cyn caffael cymorth ymgynghori |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| Ambr | RAG ambr cyffredinol oherwydd oedi i achosion busnes Trafnidiaeth Datgarboneiddio ac Egni a goblygiadau ceisiadau am newid Egni a Morlais ar amcanion gwariant y Rhaglen<br>• **Ynni Lleol Blaengar:** Mae'r OBC bellach yn cael ei ddatblygu gan ganolbwyntio ar ystyried yr opsiynau manwl ar gyfer y gronfa arfaethedig. Oedi o 3-4 mis i gymeradwyaeth OBC<br>• **Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen)** Mae'r ffordd ymlaen ar gyfer y prosiect wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais ac mae bellach yn cael ei chyflawni. Bydd oedi cyn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn caniatáu i bartner gael ei gaffael<br>• **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni):** Oherwydd pwysau cost a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, mae amserlen y prosiect yn cael ei hadolygu gan Brifysgol Bangor. Bydd hyn yn arwain at oedi pellach cyn cyflwyno'r achos busnes.<br>• **Morlais:** Mae Bwrdd y Rhaglen wedi cymeradwyo cais Menter Môn am newid, ar yr amod bod cyfyngiadau cytundebol WEFO yn cael sylw erbyn 31 Awst 22. Disgwylir i'r cais gael ei ystyried gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Hydref 2022<br>• **Trawsfynydd:** Prosiect yn parhau i ddatblygu gyda chynnig Cwmni Egino yn cael ei gyflwyno i randdeiliaid a chytundeb cydweithio yn cael ei ddatblygu gyda Magnox a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear |



**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Aelod Arweiniol**



**Dylan Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Henry Aron**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Morlais**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Gwaith cyfalaf a ariennir gan WEFO ar brosiect seilwaith Morlais B sy'n cael ei ddarparu gan Jones Brothers a symud ymlaen i'r amserlen<br><br>• Mae cais Menter Môn am newid am yr hyn y bydd y £9m a ddyrennir ar hyn o bryd i'r prosiect yn ei ariannu wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen, yn amodol ar fynd i'r afael â chyfyngiadau cytundebol WEFO erbyn 31 Awst 22 | • Menter Môn yn mynd i'r afael â chyfyngiadau cytundebol WEFO erbyn 31 Awst<br>• Cais am Newid i'w gyflwyno i ystyriaeth bwrdd y Portffolio ym mis Medi<br>• Menter Môn hefyd i gadarnhau enw'r prosiect newydd cyn cyflwyno'r cais newid i'r Bwrdd Portffolio.<br>• Disgwylir Rownd 4 Ocsiwn Canlyniadau Contractau ar gyfer Gwahaniaeth ym mis Gorffennaf 2022 | | • Proses cais am newid ar waith |
| **Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hwb Hydrogen)**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais y ffordd ymlaen arfaethedig ar 29 Ebrill.<br>• Bydd y cam cyntaf yn cynnwys profi'r farchnad drwy Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN). Cyhoeddwyd hwn ar GwerthwchiGymru ar 25 Mai. | • Ar ôl i'r broses ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar ddod i ben ganol mis Gorffennaf, dadansoddi adborth gyda'r nod o ddatblygu proses gaffael ar gyfer cynnwys partner.<br>• Gofyn i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r camau nesaf yn ystod yr Hydref | | • Bydd oedi wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn caniatáu caffael partner (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd i'r dull arfaethedig)<br>• Disgwylir i risgiau'r prosiect ddod yn gliriach yn dilyn ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar |
| **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Gweithdy achos economaidd cyntaf wedi'i gynnal<br>• Cafodd yr ail weithdy achos economaidd a drefnwyd ar gyfer yr 8fed o Fehefin ei ganslo gan Brifysgol Bangor, gan arwain at oedi cyn targedu dyddiad cymeradwyo Achos Amlinellol Strategol, sef 21 Gorffennaf.<br>• Oherwydd pwysau cost a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, mae amserlen y prosiect yn cael ei hadolygu gan Brifysgol Bangor | • Briffio'r Bwrdd Portffolio ym mis Gorffennaf<br>• Y ffordd ymlaen ar gyfer y prosiect yn dilyn dadansoddiad technegol o'r opsiynau i'w gyflwyno ym mis Hydref, ynghyd ag amserlen prosiect ddiwygiedig<br>• | | • Sgôr goch oherwydd oedi mynych mewn prosiectau ac effaith cais am newid cyllid cyfalaf ar Amcanion Gwariant y Rhaglen. Mae'r Bwrdd Portffolio wedi ystyried Cais am Newid Cysylltiedig a chaiff ei ddatrys fel rhan o'r Broses OBC ehangach |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Mae'r OBC bellach yn cael ei ddatblygu gan ganolbwyntio ar ystyried yr opsiynau manwl ar gyfer y gronfa arfaethedig.<br>• Mae Hatch wedi'i gomisiynu i ddarparu cymorth technegol gan arbenigwyr ariannu / buddsoddi<br>• Holiadur ymgysylltu â'r farchnad yn barod i gasglu gwybodaeth am y ffordd orau i'r gronfa gefnogi prosiectau rhanbarthol<br>• Astudiaethau a ariannwyd gan CRF yn symud ymlaen i'r amserlen gyda gweithdai rhestr fer a gynhaliwyd ym mis Mehefin. | • Cwblhau holiadur ymgysylltu â'r farchnad<br>• Ar ôl gwerthuso opsiynau, datblygu strategaeth cronfa gyda chymorth gan Hatch<br>• Cwblhau'r gwaith o ddarparu astudiaethau dichonoldeb system ynni lleol clyfar a ariennir gan CRF | | • Rhagweld oedi o 3-4 mis i gyflawni OBC |
| **Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Disgwylir i'r broses achos busnes ddechrau yn 2022/23 | • Ymateb i Gais am Wybodaeth Cronfa Galluogi Dyfodol Niwclear wedi'i gyflwyno i BEIS<br>• Cynnig Cwmni Egino, sydd wedi'i gyflwyno i bartneriaid allweddol, gan gynnwys Bwrdd y Rhaglen Ynni<br>• Cyfarfod gweinidogol gydag amrywiaeth o randdeiliaid ynni yn M-Sparc ym mis Mai pan drafodwyd cyfleoedd yn Nhrawsfynydd a Wylfa. | • Cwmni Egino yn bwrw ymlaen â gwaith gyda NDA a Magnox i gwblhau'r cytundeb cydweithio newydd i helpu i ategu agweddau cydweithio yn y dyfodol a thir<br>• Proses ddethol technoleg amlinellol i'w chadarnhau yn ystod yr haf<br>• Gweithio i ddatblygu cynnig busnes ffurfiol ac achos busnes erbyn diwedd y flwyddyn gyda chymorth Partneriaethau Lleol | | • Ansicrwydd ynghylch amserlen cyflawni prosiectau a'r posibilrwydd o oedi pellach |



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r Cytundeb Menter ar y Cyd arfaethedig ym Mharc Bryn Cegin, Bangor wedi'i ddrafftio.<br>• Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cymeradwyo cyllid i ddatblygu Uwchgynllun ar gyfer safle Prosiect Porth y Gorllewin ac i gefnogi sylwadau'r Cynghorau i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• Warren Hall, Brychdyn - Gohiriwyd yr adroddiad ar Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun Datblygu Lleol oherwydd Strategaeth Lleihau Ffosffad Dalgylch Dyfrdwy sydd bellach wedi'i chymeradwyo ond mae hyn wedi golygu bod disgwyl cyhoeddi adroddiad yr Arolygwyr ar ôl yr Etholiadau Lleol.<br>• Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a'u tîm ymgynghori wedi cytuno ar fecanwaith cyflawni gan rannu'r risg datblygu gyda datblygiad tri cham.<br>• Mae trafodaethau Gwella Capasiti Porthladdoedd sy'n cynnwys Stena, Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru yn parhau gyda gweithdy masnachol i gytuno ar y llwybrau posib i gyflawni cyllid Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r porthladd. |





**Y Cynghorydd Jason McLellan**
**Aelod Arweiniol**



**Andrew Farrow**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**David Mathews**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Cyngor Wrecsam ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi gwneud sylwadau ysgrifenedig i gefnogi'r gwaith i uwchraddio cyffyrdd yr A483 i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• Caffael ymgynghorwyr i gyflawni'r uwchgynllunio, arolygon ac adroddiadau. | • Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Cyngor.<br>• Ymgynghorwyr yn dechrau arolygon safle, dylunio, costau a gwaith asesu/ymchwilio safle manwl a gaiff eu cynnwys o fewn y SoC. | Ambr | • Mae penderfyniad y Panel Adolygu Ffyrdd ar uwchraddio cyffordd yr A483 yn hanfodol i'r prosiect hwn a disgwylir y penderfyniad gweinidogol yn yr hydref 2022. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae sylwadau ysgrifenedig wedi'u cyflwyno i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru. | • Penawdau'r Telerau Drafft ar gyfer y Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru. | Ambr | • Rhagwelir Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn hydref 2022 bellach.<br>• Disgwylir penderfyniad y Panel Adolygu Ffyrdd yn yr hydref 2022. |
| **Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Trafododd y Byrddau Rhaglen a Phortffolio y llinell amser estynedig ar gyfer cyflawni prosiectau a achoswyd gan yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, ei ddadansoddiad a'r oedi cyn cyhoeddi'r adolygiad o'r CDLl adnau. | • Trafodaeth gyda Sir Ddinbych ynghylch amserlen estynedig y Cynllun Datblygu Lleol a chwmpas diwygiedig allbynnau'r prosiect.<br>• Gofyn am ragor o wybodaeth gan Sir Ddinbych am y prosiect er mwyn gallu gwneud penderfyniadau. | Coch | • Mabwysiadu adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol tua chanol 2025.<br>• Mae'r sgôr risg yn adlewyrchu'r llinell amser estynedig a'r newid sylweddol i allbynnau'r prosiect. |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cytunwyd mewn egwyddor ar senario datblygu fesul cam fel ffordd ymlaen i gyflawni'r prosiect. | • Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cyflwyno cais LUF i gyflawni'r gwaith Cam 1 ar y cyd ag ANW.<br>• Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Fesul Cam. | Ambr | • Mae risg y prosiect yn dal i adlewyrchu dibyniaeth ar gyllid newydd a chynnydd mewn costau annormal. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Cytundeb Menter ar y Cyd arfaethedig wedi'i ddrafftio | • Cwblhau'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru.<br>• Adroddiad i'r Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd i gymeradwyo'r Cytundeb Menter ar y Cyd yn amodol ar gymeradwyaeth ddirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Portffolio a'r Swyddog Monitro | | • Galw posibl gan feddianwyr<br>• Tirfeddiannwr parod a phartner datblygu<br>• Defnydd arfaethedig sy'n cydymffurfio a Pholisi Cynllunio. |
